# Agenda – Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2016

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddBusnes@Cynulliad.Cymru

## Noder bod y cyfarfod yn dechrau yn breifat

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Ystyriaeth o'r Adroddiad Drafft ar Botensial yr Economi Forol yng Nghymru

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 67)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Drafft ar Botensial yr Economi Forol yng Nghymru (Saesneg yn unig am y tro)

## Egwyl

(10.30-10.45)

## 2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Undebau Llafur

(10.45-11.00) (Tudalennau 68 - 78)

Dogfennau atodol:

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Undebau Llafur

Briff Cyfreithiol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Undebau Llafur (Saesneg yn unig)

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 4 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

### 4.1 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft - Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

(11.00-12.00) (Tudalennau 79 - 145)

Julie James AC, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

Huw Morris, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru

Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-Adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

Andrew Clark, Dirprwy Cyfarwyddwr, Is-Adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil - Addysg a Sgiliau

EBC(4)-16-01 (p.1) Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

## Egwyl

(12.00-14.00)

### 4.2 Craffu ar y Gyllideb Ddrafft - Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

(14.00-15.00) (Tudalennau 146 - 213)

Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth a Seilwaith TGCh

Dogfennau atodol:

Y Briff Ymchwil - Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

EBC(4)-16-01 (p.2) Tystiolaeth gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

# 5 Papurau i'w nodi

## 5.1 Cyfleoedd Cyllido a Pholisi'r UE ar gyfer Cymru 2014-2020

(Tudalennau 214 - 215)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-16-01 (p.3) Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at William Graham ynghylch Adolygiad Llysgenhadon Cyllid yr UE o Gyfleoedd Cyllido a Pholisi'r UE ar gyfer Cymru 2014-2020

## 5.2 Bil Cymru Drafft

(Tudalen 216)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-16-01 (p.4) Llythyr oddi wrth Stephen Crabb, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch Bil Cymru drafft (Saesneg yn unig)

## 5.3 Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid - proses y Gyllideb a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth

(Tudalennau 217 - 218)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-16-01 (p.5) Llythyr oddi wrth William Graham at Jocelyn Davies ynghylch Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid

## 5.4 Ardrethi Busnes

(Tudalen 219)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-16-01 (p.6) Llythyr oddi wrth Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at William Graham ynghylch Ardrethi Busnes yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr 2015 (Saesneg yn unig)

**5.5 Horizon 2020 ac Erasmus+**

(Tudalennau 220 - 226)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-16-01 (p.7) Llythyr a gwybodaeth bellach oddi wrth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ynghylch menter Cymru Fyd-eang yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 21 Hydref 2015 (Saesneg yn unig)

**5.6 Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru**

(Tudalennau 227 - 244)

Dogfennau atodol:

EBC(4)-16-01 (p.8) Gwybodaeth bellach a ddarperir gan Stephen Pilliner ynghylch Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2015 (Saesneg yn unig)

EBC(4)-16-01 (p.9) Gwybodaeth bellach a ddarperir gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2015

## Ôl-drafodaeth breifat

(15.00-15.10)

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**Dyddiad:** **14 Ionawr 2016**

**Amser:** **11.00-12:00**

**Teitl:** **Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2016-17**

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes am y cynigion Addysg a Sgiliau a amlinellwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17, a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2015. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

## Cefndir

2. Mae Cyllideb Ddrafft 2016-17 yn cyflwyno cynllun blwyddyn o hyd ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth addysg a sgiliau yng Nghymru. Noda'r tabl isod drosolwg o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau arfaethedig.

*Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau*

| | 2015-16 Llinell sylfaen £000 | 2015-16 Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb £000 | 2016-17 Cynlluniau Drafft Dangosol y Gyllideb £000 |
|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 1,579,609 | 1,201 | 1,580,810 |
| DEL Cyfalaf | 143,834 | 21,934 | 165,768 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,723,443** | **23,135** | **1,746,578** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **370,199** | **0** | **370,199** |
| **Cyfanswm y Prif Grŵp Gwariant** | **2,093,642** | **23,135** | **2,116,777** |

3. Diwygiwyd ffigurau llinell sylfaen y gyllideb ar gyfer 2015-16, gan ddileu unrhyw ddyraniadau untro fel rhan o'r gyllideb atodol gyntaf neu gyllidebau blaenorol, er mwyn gallu llunio cymhariaeth debyg at ei debyg o gyllidebau 2015-16 â chyllideb ddrafft 2016-17.

4. Noda'r tabl canlynol gysoniad o'r gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 i'r gyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig.

| **DEL Refeniw** | **£000** |
|---|---|
| Y Gyllideb Atodol Gyntaf a Gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 | 1,589,009 |
| Dyraniad o gyllid canlyniadol Datganiad Hydref 2015 - Her Ysgolion Cymru | (3,500) |
| Dyraniad o gyllid canlyniadol Datganiad Hydref 2014 - Adolygu dulliau gweithredu'r cwricwlwm | (2,000) |
| Dyraniad o gyllid canlyniadol Datganiad Hydref 2014 - Prentisiaethau | (500) |
| Dyraniad o gyllid canlyniadol Datganiad Hydref 2014 - Prosiect Sgiliau Hyblyg | (2,400) |
| Cyfraniad cynyddol i'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol | (1,000) |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16** | **1,579,609** |
| **DEL Cyfalaf** | |
| Y Gyllideb Atodol Gyntaf a Gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 | **173,834** |
| Dyraniad o gronfeydd cyfalaf a gedwir yn ganolog er mwyn gallu rhoi Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif ar waith yn gynt o fewn cyllideb derfynol 2014-15. | (30,000) |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16** | **143,834** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | |
| Y Gyllideb Atodol Gyntaf a Gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 | **338,804** |
| Addasiad er mwyn cydymffurfio â'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2015 ar gyfer benthyciadau myfyrwyr | 31,395 |
| **Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16** | **370,199** |

5. O gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16, mae cyfanswm dyraniad DEL Adnoddau ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi cynyddu £1.201m (1.1%). Nodir y symudiadau yn fanwl o dan y Llinellau Gwariant perthnasol yn y Gyllideb (BEL) isod. Yn gryno, mae'r symudiadau fel a ganlyn:

| | **£000** |
|---|---|
| Her Ysgolion Cymru - trosglwyddiad o'r Cronfeydd wrth Gefn er mwyn sicrhau bod cyfanswm o £15m ar gael. | 2,900 |
| Cytundeb y Gyllideb 2015-16 - Cynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion i £1,150 fesul disgybl. | 7,200 |
| Dyraniad ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn rhoi cyllid arian parod safonol yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau i ysgolion | 2,000 |
| Cytundeb y Gyllideb 2015-16 – Prentisiaethau | 5,000 |
| Dyraniad ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer Prentisiaethau | 5,000 |
| Swm net a drosglwyddwyd yn ôl i'r Cronfeydd wrth Gefn | (20,899) |

| | |
|---|---|
| **DEL Adnoddau - cynnydd net** | **1,201** |

6. Ceir cynnydd o £21.934m o'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2015-16 ar gyfer y gyllideb gyfalaf ar gyfer pedwar prosiect addysg bellach penodol ac er mwyn hybu Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif.

7. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau myfyrwyr a gaiff eu harwain gan alw ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac felly'n anodd eu rhagweld. Cytunir ar y gyllideb bob blwyddyn gyda'r Trysorlys a chaiff ei hariannu'n llawn.

8. Cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer y Gyllideb Lefel Weithredu ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau ar 8 Rhagfyr. Er mwyn helpu i sicrhau tryloywder, ac yn unol â chais gan y pwyllgor, ceir dadansoddiad o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn Atodiad 1.

**Cyd-destun y Gyllideb**

9. Pennir y gyllideb hon yn erbyn cyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU, o ganlyniad i'r cyhoeddiad diweddar am yr adolygiad o wariant, ynghyd â'r drefn o flaenoriaethu cyllid o fewn portffolios ac ar draws portffolios, tra'n anelu at gyflawni'r ymrwymiadau sy'n weddill a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu a rhoi rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol ar waith. Mae'r holl benderfyniadau rydym yn eu hwynebu yn anodd. Nid oes unrhyw atebion hawdd ac ni fu unrhyw ffordd i ni amddiffyn gwasanaethau rhag effaith y toriadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a goblygiadau blaenoriaethu gwariant.

10. Rydym wedi cynnal adolygiad fesul llinell parhaus o gyllidebau er mwyn penderfynu sut y gellir rheoli gostyngiadau pellach tra'n parhau i adlewyrchu ein blaenoriaethau. Er ein bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd, erys ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru yn ddigyfnewid ac mae'r cynlluniau gwariant a gyhoeddwyd gennym yn adlewyrchu hyn.

11. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd addysg wrth ymdrin ag anghydraddoldeb ym maes cyflogaeth a sgiliau, rydym yn diogelu'r ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer addysg ôl-16 yn 2016-17 rhag gostyngiadau arian parod, gan gynnwys Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith (nid Addysg Uwch). Yn ogystal, fel rhan o gytundeb cyllideb 2015-16 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2016-17, rhyddhawyd £10m o gyllid ychwanegol i Brentisiaethau drwy ein rhwydwaith dysgu seiliedig ar waith. Mae'r cynlluniau ar gyfer prentisiaethau yn cynnwys ymgyrch benodol i gynyddu nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, mwy o bwyslais ar brentisiaethau sgiliau uwch, yn arbennig yn y sector Gwyddoniaeth,

Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) a gwell cysylltiadau rhwng rhaglenni Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

12. O ystyried y pwysau ariannol cynyddol, gwnaethom gomisiynu'r Athro Ian Diamond i gynnal adolygiad annibynnol o gyllid addysg uwch a'r trefniadau ar gyfer cyllid myfyrwyr yn 2014. Un o flaenoriaethau allweddol yr adolygiad yw ystyried cynaliadwyedd ariannol hirdymor y system Addysg Uwch. Caiff canfyddiadau'r adolygiad hwn eu cyhoeddi yn 2016 a byddant yn helpu i lywio'r camau nesaf ar gyfer cyllid addysg uwch yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym yn dyrannu £10m ychwanegol er mwyn cydnabod y pwysau ar gymorth i fyfyrwyr ar gyfer 2016-17. Bydd hyn yn golygu y gallwn barhau i gyflawni ein hymrwymiad o ran ffioedd dysgu.

**Y Rhaglen Lywodraethu**

13. Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Mae'r portffolio Addysg a Sgiliau yn cyfrannu at bob un o’r rhain, ond yn bennaf, o ran gwariant uniongyrchol, at y tri olaf.

14. Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru, ac mae'r pum ffordd allweddol o weithio yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

15. Ceir saith amcan strategol o ran datblygu a chyflwyno polisi Addysg a Sgiliau, sy'n gyson â'n gwariant. Roedd yr amcanion hyn yn ategu'r broses o gyflawni canlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu ac maent yn parhau yn 2016-2017, er mwyn ategu unrhyw ymrwymiadau sy'n weddill a symud tuag at nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- Gweithlu proffesiynol ardderchog gydag addysgeg gadarn yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio.
- Cwricwlwm sy'n ddiddorol ac yn ddeniadol i blant a phobl ifanc ac sy'n meithrin gallu annibynnol ynddynt i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau.

- Caiff y cymwysterau y bydd pobl ifanc yn eu cyflawni eu parchu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac maent yn gweithredu fel pasbort credadwy i'w tywys at ddysgu a chyflogaeth yn y dyfodol.

- Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio o fewn system hunanwella, gan roi cymorth i'w gilydd a herio ei gilydd i godi safonau ym mhob ysgol.

- Sicrhau gweithlu medrus a chyflogadwy er mwyn ysgogi arloesedd a thwf economaidd ar lefel leol a chenedlaethol, gyda chyfleoedd gwerthfawr o ansawdd uchel i bob dysgwr.

- Helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb drwy addysg a hyfforddiant.

- Sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

16. Mae'r Adroddiad Blynyddol olaf ar y Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran cyflawni ein hymrwymiadau a chynnydd yn erbyn mesurau perfformiad. Mae'r mesurau perfformiad a amlinellir yn y cynllun Cymwys am Oes a chynlluniau strategol eraill yn adlewyrchu dangosyddion a bennwyd yn y Rhaglen Lywodraethu i raddau helaeth a dyma sut rydym yn parhau i fonitro ein canlyniadau.

17. Cwblhawyd ymrwymiadau pellach yn 2015-16 a dim ond un ymrwymiad sydd ar ôl i'w gyflawni yn 2016-17, ac mae'r cyllid cysylltiedig sydd ei angen wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb hon fel a ganlyn:

| Ymrwymiad | Disgrifiad | Cyllid |
|---|---|---|
| 3/030 | Parhau i gefnogi ymdrechion i ddatblygu dysgu cymunedol a dysgu i oedolion. | Rydym yn adolygu darpariaeth WEA ac YMCA a unwyd yn ddiweddar i greu Coleg Cymunedol Cymru. Cyhoeddir polisi diwygiedig ar addysg i oedolion yn 2016. Mae'r cyllid ar gyfer y maes gwaith hwn o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach. |

18. Nodir crynodeb o'r newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn ôl y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn isod, ynghyd â'r costau, gweithredu'r polisi, canlyniadau cysylltiedig a'r effaith gysylltiedig ar unrhyw ymrwymiadau sy'n weddill o fewn y Rhaglen Lywodraethu.

**Swyddi a Thwf**

***Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid***

| **2015-16<br>Llinell sylfaen** | **2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb** | **2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb** |
|---|---|---|
| **£000** | **£000** | **£000** |
| 15,813 | 1,401 | 17,214 |

19. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith. Mae'r Llinell hon yn hanfodol o ran sicrhau llwyddiant parhaus y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

20. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn ariannu nifer o grantiau i helpu gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru a rhaglen Twf Swyddi Cymru. Mae'r gyllideb yn cynyddu £1.401m yn 2016-17 o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i dair elfen.

21. Yn gyntaf, trosglwyddiad o £0.307m o Linell Wariant Cymwysterau Cymru yn y Gyllideb o fewn y cam gweithredu 'Cymwysterau' i'r Llinell Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn y Gyllideb ar gyfer amrywiol elfennau polisi sy'n parhau o fewn Llywodraeth Cymru.

22. Yn ail, trosglwyddwyd £0.099m pellach o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau o fewn y cam gweithredu 'Cyflogaeth a Sgiliau' i'r Llinell Wariant Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn y Gyllideb ar gyfer polisi sgiliau.

23. Yn olaf, bu cynnydd o £0.995m yn sgil ailddyrannu'r gyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau er mwyn gallu parhau i gyflawni gweithgareddau i roi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar waith ledled Cymru a lliniaru'r toriadau disgwyliedig i wasanaethau cysylltiedig o ganlyniad i bwysau cyllidebol ar wariant Awdurdodau Lleol.

24. Rydym yn ymrwymedig i barhau i fwrw ati â chamau gweithredu a fydd yn rhoi'r arfer da a nodwyd hyd yn hyn ar waith ac yn helpu pobl ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus i ddysgu pellach neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol.

***Gwariant Ataliol:***

25. Mae lleihau'r anghydraddoldeb o ran canlyniadau addysgol rhwng gwahanol grwpiau yn un o'r prif amcanion y mae angen i ni eu cyflawni er mwyn, yn y tymor canolig i'r hirdymor, godi plant a phobl ifanc allan o dlodi, lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a rhoi'r cyfle gorau iddynt sicrhau canlyniadau iechyd a chanlyniadau bywyd gwell.  Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a

Datblygu Ieuenctid, a ariennir o'r Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid, yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc ac atebolrwydd gwahanol asiantaethau, gan felly atgyfnerthu a sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc.

***Cymorth i helpu pobl; yn enwedig pobl ifanc, i ddod o hyd i waith gan gynnwys Twf Swyddi Cymru a Hyfforddeiaethau***

26. Darperir cymorth i helpu pobl i ddod o hyd i waith yn bennaf drwy raglen cyflogadwyedd oedolion Llywodraeth Cymru, Barod am Waith, a gaiff ei disodli gan raglen cyflogadwyedd ddilynol i bobl o bob oedran, Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru, ym mis Ebrill 2016. Mae cymorth pellach wedi'i dargedu ar gael ar gyfer grwpiau penodol megis gweithwyr a gaiff eu diswyddo drwy raglen ReAct a phobl ifanc sy'n barod i weithio drwy raglen Twf Swyddi Cymru.

27. Mae Twf Swyddi Cymru yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddi-waith gael swydd am gyfnod o chwe mis ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'n uwch am o leiaf 25 awr yr wythnos. Caiff y canlyniadau ar gyfer Twf Swyddi Cymru eu mesur bob chwarter ac maent yn cynnwys nifer y swyddi a grëwyd, nifer y swyddi a lenwyd a chyfraddau dilyniant i gyflogaeth barhaus neu ddysgu pellach. Gan ei fod hefyd yn un o Brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF), caiff ei fonitro a'i werthuso gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

***Hyfforddeiaethau:***

28. Mae'n hanfodol buddsoddi yn y llwybr Hyfforddeiaethau er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n ymgymryd â Hyfforddeiaethau. Ar hyn o bryd, dyma'r unig raglen brif ffrwd sy'n cynnig yr hyblygrwydd i ailennyn diddordeb pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn dysgu a hyfforddiant ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, gan felly atal cyfnodau estynedig o anweithgarwch.

29. Cynlluniwyd y rhaglen Hyfforddeiaethau i ddarparu rhaglen ddysgu wedi'i theilwra sy'n galluogi pobl ifanc i wella eu sgiliau a'u cymwysterau ar gyflymder sy'n addas iddynt hwy. Cynlluniwyd elfen Ymgysylltu'r rhaglen i helpu pobl ifanc i oresgyn rhwystrau at ddysgu ac mae'n helpu i'w symud yn agosach at y farchnad lafur.

30. Mae pobl ifanc yn cael profiad gwaith gwerthfawr, fel arfer gyda chyflogwr penodedig neu drwy amgylchedd gwaith efelychedig, gan ddibynnu ar lefel y cymorth sydd ei hangen ar y person ifanc. Gallant hefyd wneud ceisiadau uniongyrchol am unrhyw gyfle a gynigir gan Twf Swyddi Cymru - gan ddarparu llwybr syml drwy ein rhaglenni cyflogadwyedd i ieuenctid.

31. Mae cyfraddau dilyniant y Rhaglen Hyfforddeiaethau wedi gwella bob blwyddyn ers iddi ddechrau yn 2011/12. Mae 68% o ddysgwyr bellach yn parhau i ddatblygu mewn modd cadarnhaol ar ôl y rhaglen, sy'n cymharu'n debyg (ac mewn rhai achosion, yn fwy ffafriol) â rhaglenni cymaradwy sy'n gweithredu ledled y DU.

32. Gan adeiladu ar ei lwyddiant hyd yn hyn, bydd y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn cefnogi ymdrechion i barhau i farchnata cyfleoedd am Hyfforddeiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn weladwy a bod pobl yn eu deall. Bydd y gyllideb hefyd yn ategu ein gallu i ymateb i'r adolygiad diweddar o Hyfforddeiaethau er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn addas at y diben a'i bod yn diwallu anghenion pobl ifanc a darparwyr.

33. Mae recriwtio mwy o gyfranogwyr i'r rhaglen yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar incwm Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

34. Caiff effeithiolrwydd y broses o farchnata ac adolygu Hyfforddeiaethau ei adlewyrchu mewn cynnydd yn nifer y cyfranogwyr a gostyngiad o ran cyfraddau gadael.

35. Mae'r gyllideb yn rhoi ystyriaeth lawn i gefnogi ymdrechion i gyflawni'r nodau a bennwyd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cynaliadwyedd, Cydraddoldeb, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) a'r Gymraeg. Mae'r rhaglen Hyfforddeiaethau yn cefnogi ffocws ar gyfleoedd swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel a chyfraniadau gan gyflogwyr i'r gymuned ehangach a chysylltiadau addysgol. Mae'n helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial; i sicrhau gweithlu medrus; i wella lles ac i leihau anghydraddoldeb drwy ddarparu sgiliau a chynnydd mewn perthynas â chyfleoedd i bobl ifanc.

***Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid:***

36. Mae llinell y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn y gyllideb yn cefnogi ymdrechion parhaus i weithredu'r Fframwaith er mwyn sicrhau y caiff ei roi ar waith a'i gynnal ar lefel leol.

37. Mae'r Fframwaith yn cynnig dull gweithredu cydweithredol ac yn helpu Awdurdodau Lleol i gyflawni lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru.

38. Byddwn yn monitro llwyddiant y Fframwaith drwy well defnydd o ddata haen 5 Gyrfa Cymru, sef mesur o lefelau ymgysylltu ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, er mwyn sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn gwneud cynnydd cadarnhaol drwy'r haenau ac yn parhau i fod wedi'u hymgysylltu.

39. Byddwn hefyd yn monitro'r broses weithredu drwy werthusiad ffurfiannol a fydd yn ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a'r atebolrwydd strategol a'r systemau a'r prosesau a sefydlwyd o fewn Awdurdodau Lleol o ganlyniad uniongyrchol i'r Fframwaith.

40. Ceir tystiolaeth gynyddol fod yn rhaid dechrau nodi'r rheini y mae perygl y byddant yn ymddieithrio rhag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gynnar, yn enwedig o ystyried cywirdeb rhagweld achosion o ymddieithrio yn y dyfodol drwy ddefnyddio dangosyddion allweddol.

Mae'r cyllid yn cefnogi rôl Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu Awdurdodau Lleol sy'n hanfodol er mwyn nodi pobl ifanc sydd mewn perygl yn gynnar a rhoi cymorth penodol ar waith iddynt barhau i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

41. Mae'r dystiolaeth yn glir y gall methu â chyrraedd lefelau penodol erbyn oedrannau penodol, o'i ystyried ynghyd â dangosyddion eraill megis Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu ymddygiad a phresenoldeb pobl ifanc yn yr ysgol, arwain at gynnydd sylweddol yn y tebygolrwydd y bydd person ifanc yn gadael y system addysg a hyfforddiant neu'n methu â dod o hyd i gyflogaeth. Amcangyfrifwyd mai biliynau o bunnoedd oedd costau cysylltiedig y colledion i'r economi ac i unigolion a'u teuluoedd o ganlyniad i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

***Entrepreneuriaeth Ieuenctid:***

42. Lansiwyd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid i Gymru ym mis Tachwedd 2010 ac mae'n strategaeth ar y cyd rhwng Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau.

43. Nid oes unrhyw gyllidebau penodol ar gyfer entrepreneuriaeth ieuenctid; ond caiff ei gefnogi o fewn amrywiaeth eang o gyllidebau, gan gynnwys y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, addysg bellach ac addysg uwch. Bydd Bagloriaeth Cymru hefyd yn cynnwys menter ac entrepreneuriaeth.

44. Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth bellach yn ei bumed flwyddyn, sef y flwyddyn olaf. Mae Llywodraeth Cymru yn myfyrio ar gyflawniadau'r Cynllun Gweithredu ac yn ystyried cynlluniau ar gyfer y dyfodol drwy ddatblygu'r Rhaglen Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP).

***Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gyrfa Cymru:***

| 2015-16<br>Llinell sylfaen | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb |
|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 |
| 20,000 | -2,000 | 18,000 |

45. Mae'r gyllideb yn gostwng £2m yn 2016-17 o gymharu â'r llinell sylfaen.

46. Bydd lleihau'r gyllideb graidd yn effeithio'n bennaf ar faint o wasanaethau arweiniad wyneb-yn-wyneb sydd ar gael i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau, cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (16-18) ac oedolion di-waith rhwng 18 a 24

oed. Fodd bynnag, mae'r cwmni yn ceisio lliniaru'r rhain drwy drawsnewid y model darparu gwasanaethau i gynnwys dull gweithredu 'digidol yn gyntaf' gyda'r bwriad o leihau'r pwysau ar wasanaethau wyneb-yn-wyneb. Fodd bynnag, cyfyngir ar allu'r cwmni i fuddsoddi mewn datblygu modelau cyflwyno gan yr angen i gyllido'r broses ailstrwythuro staff.

47. Cylch gwaith Dewis Gyrfa (sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru) yw darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i bobl ifanc ac oedolion mewn ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol gan Weinidogion Cymru. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn gweithredu nifer o brosiectau strategol, gan gynnwys Porth Sgiliau Unigol Llywodraeth Cymru i oedolion di-waith dros 25 oed a ReAct, cymorth diswyddo i unigolion a gaiff eu hariannu gan ffynonellau y tu allan i Linell Wariant Gyrfa Cymru yn y Gyllideb. Mae Gyrfa Cymru yn darparu adroddiadau Adolygu Perfformiad Chwarterol i Lywodraeth Cymru. Ystyrir bod perfformiad yn dda yn erbyn y dangosyddion perfformiad a bennwyd ar gyfer y sefydliad. Mae angen cynnal asesiad allanol o'r gwerth am arian a ddarperir gan Gyrfa Cymru at ddibenion Cymorth Gwladwriaethol. Mae'r gwaith hwn yn destun gwaith caffael ar hyn o bryd a chaiff ei gwblhau cyn haf nesaf. Bydd yn nodi p'un a yw Llywodraeth Cymru yn gordalu neu'n tandalu Gyrfa Cymru am y gwasanaethau a ddarperir ganddo.

***Gwariant Ataliol:***

48. Gwariant ataliol yw'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon gan fod y ffocws ar ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc yn ategu proses well ar gyfer gwneud penderfyniadau a dilyniant llwyddiannus. Mae Gyrfa Cymru yn cefnogi gwaith y Fframwaith yn uniongyrchol sy'n allweddol o ran atal pobl ifanc rhag ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac o ran rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i barhau i ymgysylltu yn y tymor hwy.

49. Mae Gyrfa Cymru yn canolbwyntio ar helpu pobl ifanc ac oedolion i ddod o hyd i gyflogaeth mewn swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel ac yn gweithio gyda chyflogwyr ar agweddau ar ymgysylltu addysgol e.e. cysylltiadau rhwng addysg a busnes, y prosiect Gwell Ymgysylltu â Chyflogwyr newydd.

50. Gall unigolion mwy hyddysg sy'n meddu ar well sgiliau wneud dewisiadau gyrfa mwy effeithiol ac anelu at swyddi sgiliau uwch, cyflogau uwch gan felly helpu i leihau'r bwlch cyfoeth mewn rhai cymunedau / lleoliadau daearyddol.

***Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith***

| **2015-16 Llinell sylfaen** | **2015-16 Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Drafft y Gyllideb** |
|---|---|---|

| £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|
| 106,308 | 5,000 | 111,308 |

51. Cynyddodd y gyllideb £5m o gymharu â'r llinell sylfaen. Roedd y cynnydd yn cynnwys y £5m ychwanegol a ddyrannwyd i brentisiaethau fel y nodwyd ym mharagraff 5.

52. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnwys cyllid sy'n talu cost darparu rhaglenni Prentisiaethau a chyflogadwyedd i ddysgwyr nad ydynt yn gyflogedig rhwng 16 a 18 oed (Hyfforddeiaethau).

53. Yn ogystal, mae'r Llinell Wariant yn helpu i ariannu Rhaglen Recriwtiaid Ifanc a phrosiectau peilot wedi'u hanelu at helpu i hyrwyddo prentisiaethau (Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru).

54. Disgwylir y caiff gwerth y contractau sydd ar gael i ddarparu Hyfforddeiaethau ei gynnal ar y lefelau presennol; ac y bydd gwerthoedd contractau ar gyfer prentisiaethau yn cynyddu £5 miliwn. Er na chaiff y cyllid ychwanegol ei neilltuo, y nod fydd cynyddu nifer y cyfranogwyr newydd ar lefel tri neu'n uwch.

55. Pennwyd cost rhoi'r rhaglen Hyfforddeiaethau ar waith ar sail y galw a ragwelir (yn seiliedig ar batrymau darparu hanesyddol wedi'u hategu gan wybodaeth gan asiantaethau atgyfeirio lle y bo'n berthnasol). Disgwylir y bydd angen y lefel hon o alw er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni ein gofyniad statudol i roi darpariaeth briodol i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed. Pennwyd y contract prentisiaethau ar y lefel uchaf bosibl er mwyn sicrhau bod cymaint o brentisiaethau newydd â phosibl yn dechrau yng Nghymru.

56. Pennwyd costau'r rhaglen Hyfforddeiaethau a'r rhaglen Prentisiaethau gan ddefnyddio dadansoddiad costau cadarn o'r rhwydweithiau Dysgu Seiliedig ar Waith. Heriwyd y dadansoddiad hwn lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod y costau yn adlewyrchu'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i roi'r rhaglen ar waith.

57. Caiff canlyniadau'r rhaglen hon eu mesur o ran y canlynol:
    - mae targedau cyfraddau llwyddiant o ran pobl ifanc, darpariaeth Gymraeg a chydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'r fanyleb ar gyfer y ddarpariaeth a chânt eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd;
    - datblygiad llwyddiannus dysgwyr nad ydynt yn gyflogedig i ddysgu lefel uwch neu addysg gyflogaeth (ar gyfer Hyfforddeiaethau);
    - nifer y dysgwyr sy'n llwyddo i gyflawni eu prentisiaethau:
    - mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ystadegau sy'n cynnwys y rhaniad o ran meysydd pwnc sector, dadansoddiadau a lunnir

gan yr isadrannau ac sy'n cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth a darpariaeth Gymraeg.

***Gwariant Ataliol:***

58. Ystyrir bod cyllideb gyfan y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn ataliol. Mae hyn oherwydd mai nod y Llinell Wariant hon yw rhoi cyfleoedd dysgu er mwyn galluogi pobl i wella eu lefelau sgiliau a, thrwy hynny, ddod o hyd i gyflogaeth neu wella eu cyfleoedd cyflogaeth. Mae'r rhaglen yn helpu i gadw cyfraddau diweithdra yn isel, gan felly leihau dibyniaeth ar fudd-daliadau lles.

59. Noda gwaith ymchwil fod y bobl hynny sy'n cyflawni cymhwyster Lefel 3 (neu uwch) yn gwella eu rhagolygon bywyd ac yn cynyddu dyheadau unigol.

***Polisi Prentisiaethau:***

60. Yn gynharach eleni, cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol gennym ar gynigion i gysoni ein model ag anghenion yr economi a chyhoeddwyd ein hymateb ym mis Mehefin. Rydym wedi gohirio'r dyddiad ar gyfer cyhoeddi ein cynllun gweithredu er mwyn cael y cyfle i roi ystyriaeth briodol i effaith cynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno Ardoll Prentisiaethau ledled y DU gyfan.

61. Ein blaenoriaethau o ran prentisiaethau yw atgyfnerthu'r broses o gyflwyno sgiliau lefel uwch - sgiliau sydd eu hangen ar ein heconomi ac i helpu pobl ifanc i drosglwyddo i gyflogaeth gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, bydd Dysgu Seiliedig ar Waith yn parhau i:

- roi cymorth i bob cyflogwr;
- datblygu ein dangosyddion perfformiad ansawdd a gwrando ar adborth gan gyflogwyr a phrentisiaid;
- annog cyfranogiad mewn cystadlaethau sgiliau gan ei fod yn ffordd o feincnodi Cymru yn erbyn gwledydd eraill;
- gwella cysylltiadau â chyflogwyr drwy Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol;
- addasu Fframweithiau Prentisiaethau a Rhaglenni Dysgu Addysg Bellach er mwyn diwallu anghenion sgiliau cyflogwyr.

***Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau***

| 2015-16 Llinell sylfaen | 2015-16 Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb | 2016-17 Cynlluniau Drafft y Gyllideb |
|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 |
| 23,890 | -1,042 | 22,848 |

62. Mae'r gyllideb ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi gostwng £1.042m o gymharu â'r gyllideb llinell sylfaen ar gyfer 2015-16. Mae'r gostyngiad yn bennaf o ganlyniad i arbedion o £0.439m wrth i raglenni ddod i ben, megis Buddsoddwyr mewn Pobl a Sgiliau Arwain a Rheoli Addysg (ELMS) a throsglwyddiad o £0.099m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Addysg a Sgiliau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ar gyfer polisi sgiliau.

63. Bu gostyngiad ychwanegol o £0.504m yn erbyn y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau (SPP), ac o fis Ebrill 2016, caiff y Rhaglen ei chyflwyno drwy ddull gweithredu rhanbarthol, yn gyson â'r tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol. Bydd hyn yn golygu y gellir cynnwys gweithgaredd y Rhaglen o fewn y prosiectau sgiliau lefel uwch rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg ac sy'n cael eu datblygu ar draws y sector Addysg Bellach (AB). Mae lefel y cyllid sydd ei hangen i weithredu'r rhaglen yn dibynnu ar ragolwg o angen ac incwm gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r gwariant a ragwelir wedi gostwng £0.500m y flwyddyn. Bydd hyn yn lleihau faint o gyllid cyfatebol fydd ar gael i raglenni sgiliau lefel uwch rhanbarthol.

64. Nod y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yw datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n helpu pobl i ddod o hyd i waith, dychwelyd i waith, parhau mewn gwaith a datblygu mewn gwaith drwy gymorth sgiliau a hyfforddiant. Mae'r rhaglenni yn cynnwys: ReAct; Barod am Waith a'r rhaglen sy'n ei holynu, Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru; gweithgaredd peilot i lywio dulliau gweithredu cyflogadwyedd yn y dyfodol; Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau; Rhaglen Sgiliau Hyblyg; cymorth Dysgu i Droseddwyr; cyllid craidd i Chwarae Teg a TUC Cymru; Cronfa Ddysgu Undebau Cymru; a'r Porth Sgiliau.

65. Yn ogystal ag arian cyfatebol Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer nifer o'r rhaglenni a restrir uchod, mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hefyd yn darparu arian cyfatebol ar gyfer nifer o raglenni rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop a arweinir yn allanol sy'n darparu cymorth sgiliau hanfodol a lefel uwch i unigolion cyflogedig.

66. Caiff y canlyniadau a ddisgwylir gan raglenni unigol eu rheoli a'u monitro gan dimau ar gyfer prosiectau penodol drwy drefniadau rheoli contractau manwl ac adolygiadau perfformiad. Mae'r broses o gytuno ar y canlyniadau targed hyn yn dal i fynd rhagddi ond mae'r canlyniadau hynny yn debygol o gynnwys y canlynol:
- Nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu
- Nifer yr unigolion sy'n dod o hyd i swyddi (llawn amser a rhan amser)
- Nifer y cymwysterau a gyflawnwyd (llawn amser a rhan amser)
- Nifer y swyddi a grëwyd / cyfleoedd a ddarparwyd
- Nifer y cyflogwyr a gynorthwywyd

67. Mae pob rhaglen fawr yn destun gwerthusiadau annibynnol a fydd yn ystyried gwerth am arian fel mater o drefn. Yn ogystal, mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn sicrhau y caiff gwerth am arian ei ystyried yn ystod prosesau contractio, cyfarfodydd monitro rheolaidd a thrwy systemau gweinyddol sy'n bodoli eisoes. Mewn rhai achosion, caiff paneli eu sefydlu i sicrhau y cynhaliwyd asesiad gwerth am arian a'i fod yn dderbyniol yn erbyn gofynion y rhaglen/prosiect.

68. Wrth sefydlu modelau a systemau ariannu newydd, caiff argymhellion o werthusiadau blaenorol eu hystyried ynghyd â'r profiad a'r gwersi a ddysgwyd o raglenni sy'n bodoli eisoes.

***Gwariant Ataliol:***

69. Mae'r gyllideb hon yn anelu at ymdrin â materion sy'n ymwneud â sgiliau a chyflogadwyedd gyda'r nod o helpu unigolion i ymuno â gweithleoedd, parhau mewn gwaith a datblygu o fewn y gweithle, a rhoi'r cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar gyflogwyr nid yn unig i ehangu a thyfu eu busnesau ond hefyd i gynnal eu trosiant a'u lefelau elw cyfredol.

70. Mae'r rhaglenni hynny sydd wedi'u targedu at unigolion di-waith yn cael effaith sylweddol ar wariant ataliol, gan fod pob unigolyn sy'n dod o hyd i swydd ac yn gadael y gofrestr ddiweithdra yn arwain at fudd net i'r trysorlys. Yn ogystal, unwaith y bydd unigolyn wedi dod o hyd i swydd, ceir gostyngiad yn y galw am fudd-daliadau atodol.

***Manylion Arian Ewropeaidd ar gyfer y polisïau uchod:***

71. Roedd Addysg a Sgiliau yn gyfrifol am 23 o brosiectau o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer 2007-2013. Cymeradwywyd cyfanswm o ychydig dros £336m o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop dros oes rhaglenni'r Gronfa ar gyfer 2007-2013 gydag arian cyfatebol o ychydig dros £427m. Mae hyn yn cynrychioli buddsoddiadau gros o ychydig dros £763m.

72. O gymharu â hyn, cymeradwywyd naw o brosiectau Addysg a Sgiliau gan WEFO o dan gylch newydd 2014-2020 hyd yn hyn, gyda phedwar prosiect ychwanegol wrthi'n cael eu datblygu. Cymeradwywyd cyfanswm o ychydig dros £188m o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop hyd yn hyn, gydag ychydig dros £166m o arian cyfatebol, gan gynrychioli buddsoddiad gros o ychydig dros £354m. Er mwyn i'r portffolio Addysg a Sgiliau sicrhau cymaint o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop â phosibl, mae angen i gyllidebau rhaglenni barhau'n gyson â'r gwerthoedd a gymeradwywyd yng Nghynlluniau Busnes y Prosiectau a gyflwynwyd i WEFO.

73. Mae'r gostyngiad hwn yn nifer rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn gydnaws â gweledigaeth Addysg a Sgiliau i symud tuag at bortffolio symlach o raglenni er mwyn cyflawni blaenoriaethau Gweinidogol o dan gylch rhaglen 2014-2020 fel y'u mynegwyd yn yr Ôl Troed Addysg a

Sgiliau ar gyfer Cyflawni Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r dull gweithredu hwn yn anelu at ymdrin â'r achosion o ddyblygu /cystadleuaeth a nodwyd yn ystod rhaglenni 2007-13 Cronfa Gymdeithasol Ewrop, lle y gwnaeth prosiectau orgyffwrdd â'i gilydd o ran y math o gymorth a gynigiwyd i grwpiau tebyg o unigolion a busnesau. Y nod yw sefydlu portffolio mwy integredig o brosiectau sy'n cyflawni yn erbyn canlyniadau cyffredin a nodwyd yn glir yn unol â'r ymrwymiad a wnaed o fewn y Datganiad Polisi Sgiliau i greu dewis symlach i unigolion a busnesau. Bydd y portffolio Addysg a Sgiliau yn cyflawni nifer llawer llai o raglenni strategol cenedlaethol a bydd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu cyfres o raglenni ategol i ymdrin â sgiliau allweddol a rhwystrau at gyflogadwyedd.

***Meithrin sgiliau, Arian Blaenoriaethau Sector ac arian sy'n gysylltiedig â'r Datganiad Polisi ar Sgiliau (gan gynnwys hyrwyddo a chefnogi sgiliau STEM):***

74. Gan adeiladu ar weithgareddau a gyflawnwyd yn 2014/15 a 2015/16 drwy'r Panel Cynllunio Strategol, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid rhanbarthol i ddylanwadu ar y broses o gyflawni gweithgareddau sgiliau lefel uwch o fewn y gyfres o brosiectau sgiliau rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei datblygu gan y sector AB, wedi'i hategu gan arian cyfatebol gan Linell Wariant Cyflogaeth a Sgiliau yn y Gyllideb. Bydd y gweithgareddau sgiliau lefel uwch hyn yn gyson â'r galw gan gyflogwyr rhanbarthol ac wedi'u llywio gan waith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac wedi'u hategu gan ddull gweithredu tebyg i'r dull o gyflwyno gweithgareddau sgiliau hanfodol yn y gweithle, gan felly gynnig dilyniant di-dor i unigolion a chyflogwyr sy'n gofyn am gymorth o sgiliau hanfodol hyd at sgiliau lefel uwch.

75. Mae'r dull gweithredu rhanbarthol hwn yn adlewyrchu'r awydd i osgoi achosion o ddyblygu ar draws portffolio ehangach rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan hefyd sicrhau bod gweithgareddau yn gydnaws ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn yn seiliedig ar drafodaethau gyda phartneriaid drwy'r Ôl Troed Addysg a Sgiliau ar gyfer Cyflawni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a nododd fod yr adran yn symud oddi wrth gyflwyno gweithgareddau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn uniongyrchol i rôl gomisiynu fwy strategol, gan felly arwain at nifer lai o raglenni cenedlaethol wedi'u harwain gan Lywodraeth Cymru.

76. Yn 2015/16, roedd y gyllideb ar gyfer y gweithgaredd hwn hefyd yn cefnogi gwaith sicrhau ansawdd, dosbarthu, dadansoddi a chaffael Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i helpu i feithrin sgiliau ieuenctid ac oedolion; rhoi'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg sy'n canolbwyntio ar y cyflogwr ar waith; helpu Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru gan gynnwys taliad cydnabyddiaeth Comisiynydd UKCES Cymru; hyrwyddo negeseuon a buddiannau allweddol sy'n sail i gyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Cyd-fuddsoddi mewn Sgiliau a Mesurau Perfformiad Sgiliau; a chyfraniad

'Cymorth Grant' Llywodraeth Cymru i Fusnes, Arloesedd a Sgiliau i ddatblygu/cynnal Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

77. Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg y Mesurau Perfformiad Sgiliau. Mae'r mesurau hyn yn darparu ffordd o wella lefelau sgiliau yng Nghymru a sefydlu ymrwymiad unedig ymhlith pob rhanddeiliad i gefnogi ein dyheadau ar gyfer cymdeithas â lefel sgiliau uwch ac i sicrhau bod y buddsoddiadau a wneir i feithrin sgiliau yn gydnaws â'r cynnydd mewn swyddi sgiliau uchel a ragwelir yn y dyfodol. Mae'r mesurau hyn hefyd yn darparu mesur o'r farchnad lafur yng Nghymru, yn arbennig y meysydd y mae'r Cynllun Gweithredu Sgiliau yn eu targedu.

78. Mae rhan o'r Mesurau Perfformiad Sgiliau yn cynnwys mesurau ar gydraddoldeb a thegwch, cynaliadwyedd ariannol a sgiliau Cymraeg.

79. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y Mesurau Perfformiad Sgiliau a rhai o'r nodau lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth i'r dangosyddion drafft gael eu cadarnhau, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y Mesurau Perfformiad Sgiliau yn ategu'r Ddeddf a, lle y bo'n bosibl, yn gydnaws â'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf. Bwriedir i weithgareddau o dan gyllideb y Cynllun Gweithredu Sgiliau gael eu llywio gan y Mesurau Perfformiad Sgiliau, gyda'r nod cyffredinol o wella lefelau sgiliau yng Nghymru.

80. Yn unol â'r safonau Cymraeg newydd, bydd yn ofynnol i adroddiadau ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur yn y dyfodol gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Bydd hyn yn dylanwadu ar y gyllideb a'r amser a neilltuir ar gyfer pob prosiect.

## ***Addysg Uwch***

### *Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Refeniw Addysg Uwch*

| 2015-16<br>Llinell sylfaen | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb |
|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 |
| 98,610 | -41,100 | 57,510 |

81. Mae'r gyllideb ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Refeniw Addysg Uwch wedi gostwng £41.100m o gymharu â'r gyllideb llinell sylfaen ar gyfer 2015-16, ac mae'r gostyngiad yn cynnwys dwy elfen.

82. Yn gyntaf, trosglwyddiad o £21.1m i'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl 16 ar gyfer elfen olaf y trosglwyddiad grant ar gyfer ffioedd dysgu. Symudodd y cyfrifoldeb a'r adnoddau cysylltiedig ar gyfer talu'r grant ffioedd dysgu i fyfyrwyr, drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, o CCAUC i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16. Trosglwyddwyd y rhan

fwyaf o'r arian yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2015-16, ond, mae'r ffaith bod angen cynnwys carfan arall o fyfyrwyr (y rheini sy'n astudio cyrsiau am gyfnod hwy na phedair blynedd), cynnydd yn nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n mynd i'r brifysgol a chynnydd yn y lefel ffioedd cyfartalog yn golygu y caiff swm ychwanegol ei drosglwyddo o CCAUC i Lywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd hwn yn unol â disgwyliadau ac o fewn paramedrau costau amcangyfrifedig gwreiddiol y grant ffioedd dysgu. Byddai'r gwariant ychwanegol hwn wedi cael ei frigdorri o gyllidebau CCAUC ni waeth pwy fyddai'n gyfrifol am dalu'r grant ffioedd dysgu.

83. Mae'r ail elfen yn cynnwys gostyngiad o £20m i gyllidebau rhaglen CCAUC, sy'n darparu cyllid i weithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn y gorffennol, dyrannwyd hyn gan CCAUC i gwmpasu Ymchwil Ansawdd, pynciau Rhan amser a phynciau drud. Yn y pen draw, cyfrifoldeb CCAUC yw penderfynu sut y mae'n dyrannu ei adnoddau yn unol â blaenoriaethau Gweinidogol a gaiff eu hamlinellu mewn llythyr cylch gwaith gweinidogol a gyhoeddir ddechrau 2016.

***Gwariant Ataliol:***


84. Mae cefnogi dysgu uwch yn hanfodol i ddyfodol Cymru. Mae prifysgolion yn cyfrannu £1.3 biliwn y flwyddyn i economi Cymru ac yn darparu dros 16,000 o swyddi yng Nghymru tra'n cynhyrchu dros £400m y flwyddyn mewn buddsoddiadau allforio.

***Yr incwm sydd ar gael i'r sector***

85. Mae'r wybodaeth ganlynol yn nodi'r rhagolygon diweddaraf (cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft) ar gyfer incwm y sector AU yng Nghymru.

| **Yr incwm a ragwelir ar gyfer SAUau yng Nghymru, gyda'r ffioedd cyfartalog hysbys a grantiau ffioedd dysgu hysbys, termau arian parod (Blwyddyn Ariannol)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£Miliwn** | **10-11** | **11-12** | **12-13** | **13-14** | **14-15** | **15-16** |
| Grantiau cyrff cyllido | 428 | 405 | 324 | 253 | 177 | 126 |
| Ffioedd israddedigion / TAR llawn amser | 225 | 235 | 308 | 425 | 513 | 565 |
| *lefel ffioedd flaenorol* | *225* | *235* | *242* | *247* | *255* | *262* |
| *incwm ffioedd ychwanegol uwch* | *0* | *0* | *38* | *100* | *147* | *173* |
| *cyfraniad Lloegr* | *0* | *0* | *29* | *77* | *111* | *129* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd eraill a chontractau addysg | 167 | 186 | 188 | 182 | 182 | 188 |
| Grantiau ymchwil/contractau | 163 | 167 | 173 | 183 | 195 | 201 |
| Incwm arall | 249 | 266 | 275 | 278 | 290 | 299 |
| **Cyfanswm** | **1,231** | **1,260** | **1,268** | **1,321** | **1,356** | **1,379** |
| | | | | | | |
| **£Miliwn** | **16-17** | **17-18** | **18-19** | **19-20** | **20-21** | |
| Grantiau cyrff cyllido | 85 | 85 | 85 | 85 | 85 | |
| Ffioedd israddedigion / TAR llawn amser | 590 | 611 | 627 | 640 | 651 | |
| *lefel ffioedd flaenorol* | *272* | *281* | *288* | *294* | *299* | |
| *incwm ffioedd ychwanegol uwch* | *181* | *188* | *192* | *194* | *196* | |
| *cyfraniad Lloegr* | *137* | *142* | *147* | *152* | *157* | |
| Ffioedd eraill a chontractau addysg | 194 | 201 | 207 | 214 | 221 | |
| Grantiau ymchwil/contractau | 208 | 215 | 221 | 229 | 236 | |
| Incwm arall | 309 | 319 | 329 | 340 | 351 | |
| **Cyfanswm** | **1,386** | **1,430** | **1,469** | **1,506** | **1,543** | |
| Ffynhonnell: Rhagolygon Llywodraeth Cymru, cofnod cyllid HESA a nifer y myfyrwyr a ragwelir ar gyfer y dyfodol | | | | | | |




86. Mae'r tablau yn dangos bod incwm i'r sector AU yn parhau i gynyddu er gwaethaf cyfnod parhaus o galedi. Mae'r sefyllfa ariannol hon yn cadarnhau canfyddiadau adroddiadau a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

87. Yn ogystal, mae lefelau recriwtio i Brifysgolion yng Nghymru yn parhau i gynyddu ac mae dyled myfyrwyr yng Nghymru yn sylweddol is na dyled myfyrwyr mewn gwledydd eraill yn y DU.

88. Mae Cymru yn fewnforiwr myfyrwyr net. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos yn 2015-16 y bydd £50m yn fwy o gyllid yn dod i'r system yng Nghymru na'r lefel a aeth allan mewn grantiau ffioedd dysgu i sefydliadau y tu allan i Gymru a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau yn y dyfodol agos.

89. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd mewn incwm cyffredinol i'r sector AU, bydd unrhyw incwm ychwanegol o fyfyrwyr nad ydynt yn dod o Gymru yn llifo'n uniongyrchol i'r SAUau ac nid drwy CCAUC. Mae hyn yn golygu gan fod mwy o gyllid craidd blaenorol CCAUC yn cael ei ddefnyddio bellach i gwmpasu cost ffioedd dysgu uwch i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, fod gan CCAUC lai o arian i'w ddosbarthu i sefydliadau. Mae'r newid hwn o ran methodoleg ariannu wedi arwain at newid sylfaenol yn y ffordd y mae CCAUC yn ariannu'r sector AU. Yn lle bod yn gyfrifol am ddosbarthu tua 30% o arian y sector, bydd y Cyngor Cyllido bellach yn gyfrifol am ddosbarthu tua 10% yn 2015/16.

***Costau Rhedeg CCAUC:***

| **2015-16 Llinell sylfaen £000** | **2015-16 Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb £000** | **2016-17 Cynlluniau Drafft y Gyllideb £000** |
|---|---|---|
| 2,768 | -277 | 2,491 |

90. Mae'r gyllideb ar gyfer costau rhedeg CCAUC wedi lleihau £0.277m o gymharu â'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2015-16. Mae'r gyllideb yn cefnogi'r costau rhedeg (staff a gweithredol) ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

91. Mae CCAUC wedi cael ei ddiogelu dros y blynyddoedd diwethaf rhag unrhyw leihad yng nghyllideb y costau rhedeg oherwydd natur newidiol ei ddiben, o gorff cyllido i oruchwylio'r fframwaith rheoliadol newydd a gyflwynwyd yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Gan fod y cyfnod trosiannol hyd at weithredu'r fframwaith yn llawn ym mlwyddyn academaidd 2017/18 wedi dechrau, mae CCAUC mewn sefyllfa i wireddu'r arbedion effeithlonrwydd a welwyd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus mewn blynyddoedd blaenorol.

92. Mae'r newid yn y fethodoleg ariannu, fel bod incwm Addysg Uwch bellach yn dod o fyfyrwyr yn hytrach na CCAUC, yn golygu bod ei rôl wedi newid yn sylfaenol. Fel rhan o'r newid hwn, rydym yn disgwyl i CCAUC wneud arbedion effeithlonrwydd. Yn ôl yr hyn a ddeallwn mae gan CCAUC gronfeydd sylweddol wrth gefn yn ei gyllidebau ar gyfer

costau rhedeg ac felly nid ydym yn disgwyl i'r lleihad gael effaith ar ei allu i gyflawni ei swyddogaethau.

***Ar gyfer ein Dyfodol - y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Coleg Ffederal ac UHOVI:***

| 2015-16<br>Llinell sylfaen<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb<br>£000 |
|---|---|---|
| 30,498 | 0 | 30,498 |

93. Cefnogodd y gyllideb ddarpariaeth Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (UHOVI), y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) a blaenoriaethau strategol eraill Llywodraeth Cymru. Gan fod UHOVI wedi cael ei phrif-ffrydio (yn dilyn diwygiadau AU yn 2012) bydd y rhan fwyaf o'r dyraniad hwn ar gael i ariannu gweithgareddau'r Coleg ac i sicrhau parhâd prosiectau i ariannu blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.

94. Adolygwyd gweithrediad y Coleg ar ddiwedd 2014-15. Caiff yr ymarfer hwn ei ailadrodd er mwyn sicrhau bod y Coleg yn parhau i gyflawni ei amcanion a darparu gwerth am arian.

***Y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Dyfarniadau wedi'u Targedu:***

| 2015-16<br>Llinell sylfaen<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb<br>£000 |
|---|---|---|
| 7,004 | -707 | 6,297 |

95. Mae'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb yn cefnogi'r broses o weithredu dyfarniadau wedi'u targedu a Chronfeydd Ariannol Wrth Gefn (FCF) i roi cymorth i fyfyrwyr sydd ag angen gwirioneddol. Lleihaodd y gyllideb £0.707m yn 2016-17.

96. Yn hanesyddol, nid yw'r gyllideb FCF wedi cael ei gwario'n llawn bob blwyddyn. Roedd yr FCF yn galluogi sefydliadau i fod yn hyblyg a derbyn amgylchiadau eithriadol ar gyfer myfyrwyr mewn angen. Bydd y lleihad yn golygu bod angen lefel uwch o flaenoriaethu ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n cael cymorth. Dylai lleihad bach yn y gyllideb flynyddol helpu i sicrhau bod pawb yn manteisio ar hyn a bydd hefyd yn sicrhau gwell gwerth am arian yng nghyd-destun setliad ariannol cynyddol heriol i Gymru.

***Y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau gweinyddol SLC/CThEM :***

| 2015-16<br>Llinell sylfaen | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb |
|---|---|---|
| **£000** | **£000** | **£000** |
| 8,338 | -94 | 8,244 |

97. Mae'r gyllideb yn lleihau £0.094 yn 2016-17, o ganlyniad i drosglwyddo'r Prif Grŵp Gwariant i Ad-daliad y Gronfa Buddsoddi i Arbed yn dilyn adennill buddsoddiadau ar raglen drawsnewid systemau TG y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Caiff y buddsoddiad cychwynnol o £2m ei adennill dros gyfnod o bum mlynedd a chaiff ei ariannu drwy arbedion effeithlonrwydd yn y Cwmni. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr bellach yn rhoi cyngor, arweiniad a'r broses gwneud cais am fenthyciad myfyriwr, a roddwyd yn flaenorol gan Awdurdodau Lleol.

**Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig**

***Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru:***

| 2015-16<br>Llinell sylfaen | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb |
|---|---|---|
| **£000** | **£000** | **£000** |
| 422,483 | 31,100 | 453,583 |

98. Mae'r Llinell Wariant  yn y Gyllideb ar gyfer Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, wedi cynyddu £31.1m o'r gyllideb sylfaenol i £453,583m.

99. Trosglwyddiad o £21.1m o'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Refeniw Addysg Uwch, fel y nodir ym mharagraff 82.

100. Darparwyd £10m ychwanegol fel rhan o'r gyllideb i ateb y galw cynyddol am grantiau cymorth i fyfyrwyr o ganlyniad i gynnydd yn nifer y myfyrwyr a'r rheini sy'n gymwys am gymorth.  Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr o'r cartrefi incwm isaf yn 2016-17 drwy gadw'r lefel gyffredinol o gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr.

101. Mae gan Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) gyllideb wedi ei dyrannu ar gyfer 2016-17 o £23m.

102. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon rhaglenni cymorth i fyfyrwyr statudol wedi eu harwain gan y galw ar gyfer AU ac AB.  Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan Amser, Grantiau wedi'u Targedu y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac LCA.

103. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod costau byw yn ystyriaeth allweddol ar gyfer myfyrwyr ac ar adeg o galedi ac yn unol â'n hymrwymiad ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu rydym wedi llwyddo i gynyddu cyfanswm y cymorth a gynigir i'n myfyrwyr. Fodd bynnag, o fewn cyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd arnom gan Lywodraeth y DU mewn adolygiadau diweddar o wariant, dim ond swm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael a gafodd ei gynyddu.

***Gwariant Ataliol:***

104. Mae cymorth i fyfyrwyr ar gyfer addysg uwch ar ffurf Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn helpu i dalu costau byw, mae'r Grant Ffioedd Dysgu yn helpu i dalu cost ffioedd ac mae dyfarniadau wedi'u targedu, fel y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl neu'r Grant Gofal Plant, yn creu cyfleoedd bywyd gwell i unigolion. Mae cymwysterau addysg uwch yn creu cyfleoedd cyflogaeth a cheir tystiolaeth gref o hyd ar gyfer "premiwm graddedigion" mewn perthynas â chyflogau a photensial oes graddedigion i ennill.

***Y dull modelu diweddaraf ar gyfer costau, fforddiadwyedd a gwerth am arian y Grant Ffioedd Dysgu:***

105. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwariant gwirioneddol ar gyfer y grant ffioedd dysgu ers 2012-13, 13-14 a 14-15 a'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer 2015-16 a 2016-17.

| | **2012-13 £m** | **2013-14 £m** | **2014-15 £m** | **2015-16 £m** | **2016-17 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant Ffioedd Dysgu a delir i sefydliadau yng Nghymru | 46.4 | 84.3 | 118.5 | 152.0 | 162.4 |
| Grant Ffioedd Dysgu a delir i sefydliadau yn y DU | £.5 | 47.7 | 75.8 | 89.0 | 94.4 |
| **Cyfanswm y taliadau Grant Ffioedd Dysgu** | **62.8** | **132.0** | **194.3** | **241.0** | **256.8** |

106. Mae'r rhagolygon yn unol â disgwyliadau ac o fewn paramedrau costau amcangyfrifedig gwreiddiol y cynllun. Yn ogystal, mae'r tablau ym mhara 85 yn dangos bod incwm i'r sector AU hefyd yn parhau i gynyddu.

**Fforddiadwyedd**

107. Mae adroddiadau a gynhaliwyd gan SAC a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cadarnhau bod y system gyfredol yn gynaliadwy ar gyfer oes y Llywodraeth hon. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn ategu ein barn bod incwm i'r sector, er gwaethaf caledi, wedi cynyddu ac y bydd yn parhau i gynyddu, bod recriwtio i Brifysgolion Cymru yn parhau i gynyddu a bod dyledion myfyrwyr yng Nghymru yn sylweddol is na dyledion myfyrwyr yng ngwledydd eraill y DU.

108. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei addewid i leihau'r cynnydd mewn ffioedd dysgu a orfodwyd ar Gymru gan Lywodraeth y DU.

***Cymorth i'r Polisi Ehangu Mynediad:***

109. Ein nod o hyd yw sicrhau y dylai mynediad at addysg uwch fod ar sail gallu'r unigolyn i elwa ar yr addysg honno ac nid ar sail yr hyn y gall fforddio ei dalu.

110. Ein pecyn cymorth i fyfyrwyr yw'r gorau o hyd yn y DU. Mae'r grant ffioedd dysgu nad yw'n destun prawf modd yn annog cyfranogiad ac yn sicrhau bod myfyrwyr Cymru yn cael eu diogelu rhag lefelau cynyddol o ddyledion. O ganlyniad i'r polisi bydd lefel dyledion myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn sylweddol is na lefel dyledion myfyrwyr cyfatebol yn Lloegr (bydd y ddyled amcangyfrifedig ar gyfer myfyrwyr Cymru tua £17,000 yn llai na dyled myfyrwyr cyfatebol yn Lloegr).

111. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar ffioedd dysgu yn cydnabod y dylai dewis sefydliad a chwrs gael ei lywio gan amgylchiadau unigol ac nid gan gost ffioedd.

112. Mae Ymgyrraedd yn Ehangach yn ymyrraeth strategol hirdymor ar gyfer pob oedran a ariennir gan CCAUC i gynhwysiant cymdeithasol ac ehangu mynediad at AU sy'n annog cyfranogiad gan gymunedau a grwpiau wedi'u targedu yng Nghymru. Mae'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn creu cyfleoedd astudio newydd a llwybrau dysgu i addysg uwch.

113. Dechreuodd yr Adolygiad o Ddull Ariannu Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru, wedi ei gadeirio gan yr Athro Syr Ian Diamond, ym mis Ebrill 2014. Yn unol â'r amserlenni cytûn, mae'r Athro Diamond wedi llunio adroddiad interim sy'n rhoi crynodeb ffeithiol o'r dystiolaeth a gasglwyd ganddo ef a'r Panel Adolygu fel rhan o'u gwaith. Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Adolygiad yn cynnwys ehangu mynediad - sicrhau bod ehangu mynediad yn amcan craidd mewn unrhyw system yn y dyfodol, a'i bod yn flaengar a theg.

## Cyrhaeddiad Addysgol

***Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach :***

| 2015-16<br>Llinell sylfaen<br>£000 | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb<br>£000 | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb<br>£000 |
|---|---|---|
| 400,177 | 0 | 400,177 |

114. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol, darpariaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned a chymorth ar gyfer darpariaeth mewn sefydliadau Addysg Bellach. Rydym wedi cydnabod y cyfraniadau at arbedion cost y mae'r sector Addysg Bellach wedi eu cyflawni dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys y graddau sylweddol y cawsant eu trawsnewid.

115. Felly rydym yn diogelu cyllidebau AB ar sail arian gwastad o fewn y gyllideb hon.

***Effaith blaenoriaethu darpariaeth i ddysgwyr 16-19 oed***

116. Yn sgil blaenoriaethu'r ddarpariaeth i ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed (sy'n ymestyn y tu hwnt i'n rhwymedigaeth statudol i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed i ystyried dysgwyr sy'n symud o flwyddyn o astudiaeth academaidd yn yr ysgol cyn symud i gwrs addysg bellach dwy flynedd o hyd) gwelwyd effaith y gostyngiadau cyllidebol yn 2014-15 a 2015-16 fwyaf mewn darpariaeth rhan amser sef dysgwyr hŷn yn bennaf. Fodd bynnag, diogelwyd cyrsiau sgiliau sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).

***Effaith ar ddysgu oedolion rhan amser mewn colegau addysg bellach***

117. Cafodd darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned ostyngiad o 37.5% yn eu dyraniadau cyllid ar gyfer 2014/15, a gostyngiad pellach o 2.6% yn y flwyddyn academaidd 2015/16. O ganlyniad, gofynnwyd i ddarparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned ddefnyddio'r ddarpariaeth a ariennir gan y llywodraeth i ganolbwyntio ar rifedd oedolion, llythrennedd oedolion, ESOL a llythrennedd digidol.

***Effaith dyraniadau 2014-15 a 2015-16 ar golegau addysg bellach***

118. Mae cynlluniau darpariaeth blwyddyn academaidd 2015/16 wedi cael eu derbyn a'u hadolygu ar gyfer pob coleg addysg bellach. Mae hyn yn rhoi

gwell syniad o'r modd y mae gostyngiadau i ddyraniadau cyllid i lefelau 2015/16 yn effeithio ar y ddarpariaeth yng Nghymru.

119. Disgwylir y bydd dros 2,000 yn llai o ddysgwyr llawn amser arfaethedig yng Nghymru (4.57 y cant) o flwyddyn academaidd 2014/15 i 2015/16. Fodd bynnag, mae hyn yn unol â gostyngiad disgwyliedig o'r duedd ddemograffig o nifer o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed.

120. Yn ôl y disgwyl mae effaith y gostyngiad mewn cyllid i fyfyrwyr rhan amser yn uwch o lawer. Disgwylir i nifer yr oriau rhan amser ostwng tua 800,000 o oriau (21.88 y cant). Os yw'r cwrs rhan amser cyfartalog tua 100 o oriau fesul dysgwr, mae hyn yn cyfateb i 8,000 o ddysgwyr, er y disgwylir i'r rhan fwyaf o gyrsiau rhan amser a ddaw i ben fod yn gyrsiau byrrach ac felly bydd y nifer hon yn codi.

121. Mae gwybodaeth a rennir gan gadeirydd Cyfarwyddwyr Cyllid ColegauCymru yn dangos bod y sector yn disgwyl i tua 850 o bobl golli eu swydd o ganlyniad i gyllidebau llai ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.

***Y gwaith ymgysylltu a wnaed gyda'r sector i drafod eu dyraniadau ar gyfer 2016-17***

122. Cynullwyd gweithgor bach gan swyddogion ar y cyd â'r Sector Addysg Bellach i drafod yr heriau a wynebir yn dilyn cyhoeddi dyraniadau 2015/16. Roedd aelodau'r gweithgor yn cynnwys cymysgedd o Benaethiaid, Cyfarwyddwyr Cyllid ac Uwch Reolwyr y Cwricwlwm. Yn dilyn hyn, anfonwyd llythyr i'r sector yn amlinellu cynigion i helpu i reoli'r heriau hynny.

123. Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Sgiliau â phob Pennaeth yn y sector Addysg Bellach a Chadeiryddion Llywodraethwyr ar 6 Gorffennaf 2015 i drafod yr heriau a wynebir gan golegau AB yng Nghymru. Yn dilyn y cyfarfod hwn, ffurfiodd ColegauCymru Weithgor Atebion Creadigol i ddatblygu gwaith er mwyn sicrhau y gall colegau ymateb i'r heriau hyn gyda chefnogaeth weithredol Llywodraeth Cymru.

124. Mae'r gweithgor wedi cyflwyno papur fel sail ar gyfer trafodaeth bellach gyda swyddogion. Bwriedir i'r mesurau hyn greu arbedion effeithlonrwydd tra'n cynnal neu wella profiad myfyrwyr. Bydd swyddogion yn adolygu'r argymhellion ac yn eu trafod ymhellach â ColegauCymru cyn rhoi cyngor pellach ar bob argymhelliad unigol.

125. Gwnaeth Llywodraeth Cymru, drwy'r fframwaith cynllunio a chyllido, ymgysylltu â Sefydliadau AB i drafod eu cynlluniau er mwyn sicrhau nad yw'r dewis eang nac ansawdd y dysgu yn lleihau a bod darparwyr yn darparu yn unol â blaenoriaethau'r Gweinidogion.

126. Anogwyd colegau, drwy rwydweithiau Penaethiaid a Chyfarwyddwyr Cyllid, a fynychir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, i gwblhau dulliau cynllunio senario ar gyfer 2016-17 cyn i ganlyniad yr adolygiad o wariant

ddod yn hysbys. Cymhwyswyd diogelwch arian gwastad at gyllidebau addysg bellach ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17. Fodd bynnag, mae colegau yn dal i wynebu, ac wedi bod yn cynllunio ar gyfer pwysau yn sgil cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn cyflogwyr a chwyddiant cyflogau staff yn gyffredinol. Caiff dyraniadau blwyddyn academaidd 2016/17 eu cyfrifo a'u cyfleu i golegau cyn gynted â phosibl.

127. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro sefyllfa ariannol pob coleg deirgwaith y flwyddyn, ac mae hyn yn cynnwys asesu gallu sefydliadau i reoli toriadau, a adolygir ar y cyd â'r dyraniadau cyllid. Dadansoddir pob sefydliad ar sail dangosyddion proffidioldeb a hylifedd allweddol. Lle y caiff problemau eu nodi, cânt eu trafod â'r tîm cyllido a'r colegau unigol. Bydd y coleg yn rhoi cynlluniau adfer ar waith os bydd angen.

***Gwariant Ataliol:***

128. Mae'r ddarpariaeth ôl addysg orfodol i'r rheini rhwng 16 a 18 oed yn cyfrif am tua thri chwarter y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach ac fe'i hystyrir yn ataliol gan fod pobl ifanc yn gwella eu lefelau sgiliau ac yn gwella eu cyfleoedd am waith, gan leihau eu dibyniaeth ar fudd-daliadau lles.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Polisi AB a Pholisi Prentisiaeth :**

| 2015-16<br>Llinell sylfaen | 2015-16<br>Newidiadau ac ailflaenoriaethu o fewn y gyllideb | 2016-17<br>Cynlluniau Drafft y Gyllideb |
|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 |
| 1,066 | 0 | 1,066 |

129. Mae'r gyllideb ar gyfer Datblygu Polisi AB wedi ei chynnal ar gyfer 2016-17. Mae'r gyllideb yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella o ansawdd a gynlluniwyd i wella'r ddarpariaeth o ran dysgu ôl-16 yng Nghymru. Ar gyfer 2016-17, bydd yn parhau i gynnal arian grant i NIACE Cymru, a phrosiect paru a dadansoddi data. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglen ymchwil newydd i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd chweched dosbarth yn ogystal â rhaglenni peilot ym maes prentisiaethau.

***Gwariant Ataliol:***

130. Mae gan nifer o'r gweithgareddau a ariennir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon ddiben ataliol, gan gynnwys prosiectau Buddsoddi mewn Ansawdd a gynlluniwyd i wella ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr a meithrin gallu yn y sector ôl-16. Y Llinell Wariant yn y Gyllideb yw'r unig ffynhonnell o gyllid sydd ar gael i gefnogi'r sector ôl-16 wrth weithredu polisi'r llywodraeth (er enghraifft, dyletswydd gwrth-eithafiaeth newydd y Swyddfa Gartref ar sefydliadau AB, datblygu Cod y Llywodraeth i ategu Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

2014). Mae hefyd yn ariannu ymchwil megis rhaglen gyfredol i edrych ar effeithlonrwydd y ddarpariaeth chweched dosbarth a llywio opsiynau ar gyfer diwygio yn y dyfodol.

**Deddfwriaeth**

131. Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried ein rhaglen ddeddfwriaethol gyfredol. Cyhoeddwyd tabl yn nodi, ar gyfer 2016-17, gostau deddfwriaeth a ddeddfwyd eisoes a chostau disgwyliedig Biliau ar y cam Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig neu ar y cam deddfu, ynghyd â naratif y Gyllideb Ddrafft, Atodiad D. Darperir diweddariad manylach o gostau ein rhaglen ddeddfwriaethol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn isod.

***Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014***

132. Derbyniodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Mae'r Ddeddf yn dileu nifer o gyfyngiadau a rheolaethau ar sefydliadau AB. Nid oes disgwyl i'r broses o weithredu'r darpariaethau newydd olygu costau i Lywodraeth Cymru yn 2016-17.

***Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015***

133. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") yn creu fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Nid yw'r trefniadau newydd yn dibynnu ar CCAUC yn darparu cymorth ariannol i sefydliadau o dan Ran 2 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 na Rhan 3 o Ddeddf Addysg 2005. Ni chaiff y system reoleiddiol newydd ei rhoi ar waith tan flwyddyn academaidd 2017/18.
134. Mae Deddf 2015 yn darparu ar gyfer cyfnod trosiannol a ddechreuodd ar 1 Awst 2015 ac a ddaw i ben ar 31 Awst 2017. O dan y trefniadau trosiannol, caiff sefydliadau â chynlluniau ffioedd a gymeradwywyd o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") eu trin, at ddibenion cyfyngedig, fel sefydliadau rheoledig o dan Ddeddf 2015 yn ystod y cyfnod trosiannol.

**Goblygiadau i sefydliadau yn ystod 2016-17**

135. Ni ddylai'r trefniadau trosiannol arwain at oblygiadau newydd i sefydliadau oni fyddant yn methu â chydymffurfio â therfynau ffioedd a nodir yn eu cynlluniau cymeradwy neu os bydd CCAUC yn credu bod

ansawdd eu haddysg yn annigonol neu fod risg y gallent fod yn annigonol.

**Goblygiadau i CCAUC yn ystod 2016-17**

136. Mae rhai o swyddogaethau CCAUC wedi cael eu gweithredu cyn i'r system reoleiddiol newydd gael ei gweithredu'n llawn. Yn ystod y cyfnod trosiannol, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gorchymyn CCAUC i roi adroddiadau iddynt ar gydymffurfiaeth sefydliadau â chyfyngiadau ffioedd (naill ai'n gyffredinol neu gan sefydliad penodol) a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir (eto, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas â sefydliad penodol a reoleiddir).

**Y costau a'r goblygiadau ariannol sy'n debygol o gael effaith yn 2016-17**

137. Mewn sawl ffordd, mae'r system reoleiddiol a sefydlwyd gan Ddeddf 2015 yn sicrhau parhad â'r gyfundrefn reoleiddiol a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch 2004 a Deddf Addysg 2005. O ganlyniad, byddai rhai o gostau gweithredu'r system reoleiddiol newydd wedi codi o dan y trefniadau blaenorol.

138. Nodwyd y goblygiadau sy'n deillio o'r system newydd o reolaethau rheoleiddiol a sefydlwyd gan Ddeddf 2015 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd ar gyfer Bil Addysg Uwch (Cymru) pan gafodd ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Mai 2014. Mae'r amcangyfrifon cyfredol ar gyfer costau gweithredu'r gyfundrefn newydd fel a ganlyn:

| | **2016-17<br>£m** |
|---|---:|
| Cymeradwyo'r cynllun ffioedd a mynediad | 0.331 |
| Monitro a gwerthuso'r cynllun ffioedd a mynediad | 0.366 |
| Asesu ansawdd | 0.434 |
| Sicrwydd ariannol | 0.574 |
| Is-ddeddfwriaeth | 0 |
| Datblygu, hyfforddi, goruchwylio | 0.099 |
| CYFANSWM | 1.804 |

139. A'r achosion:

| | 2016-17<br>£m |
|---|---:|
| Llywodraeth Cymru | 0.064 |
| CCAUC | 0.199 |
| Sefydliadau | 1.541 |
| CYFANSWM | 1.804 |

***Deddfwriaeth y DU***

140. Rydym hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o fonitro nifer o Filiau'r DU, y mae gennym ni fel Adran ddiddordeb penodol ynddynt neu a allai effeithio yn anuniongyrchol ar ein cylch gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys; y Bil Dadreoleiddio; y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth; y Bil Addysg (Rhannu Gwybodaeth); y Bil Hawliau Defnyddwyr; y Bil Taliadau Gofal Plant a'r Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda Whitehall i ddeall y goblygiadau i'r Adran, gan gynnwys yr effaith gyllidebol lawn, os o gwbl. Fodd bynnag, ar y cam hwn, rhagwelir mai bach iawn fydd unrhyw gostau ychwanegol os oes rhai a gellir talu'r costau hynny o fewn y Prif Grŵp Gwariant os bydd angen.

### *Is-ddeddfwriaeth*

141. Nid oes unrhyw oblygiadau cost sylweddol ar gyfer Addysg a Sgiliau yn 2015-16 o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth, a bydd y gyllideb costau rhedeg adrannol bresennol yn talu unrhyw gostau gweithredu.

### **Asesiadau Effaith**

142. Atodir Asesiad Effaith Integredig yn Atodiad 2 i'r papur tystiolaeth hwn.

143. Mae'r asesiad yn cwmpasu effaith cydraddoldeb ein penderfyniadau gwario ar y nodweddion gwarchodedig ynghyd â'r effaith ar yr Iaith Gymraeg, Hawliau'r Plentyn, Trechu Tlodi wedi'u cysoni o dan ymbarél llesiant, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried buddsoddiad y gallwn ei wneud yn awr er mwyn atal camau gweithredu drutach yn y dyfodol.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

144. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015, yn nodi saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru iachach;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â chyfrifoldeb byd-eang;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a,
- Cymru gydnerth.

145. Dyrannwyd cyllidebau drwy'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at y nodau llesiant.

146. Mae ymchwil wedi dangos bod pobl sy'n cymryd rhan mewn dysgu, sy'n cyflawni lefelau uchel o addysg neu mewn cyflogaeth yn fwy tebgyol o

ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol a chymdeithas sifil. Profwyd hefyd fod y rhai sy'n gweithio yn iachach na'r rhai sy'n ddi-waith.

147. Mae rhoi cyfleoedd i bobl gyflawni safonau addysgol da a sgiliau yn y gweithle yn cefnogi'r broses o greu a chynnal swyddi a chyflogaeth o ansawdd uchel. Mae hyn yn gwella proffil cenedlaethol a rhyngwladol Cymru ac felly'n effeithio ar ei ffyniant.

148. At hynny, mae cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i gynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg a gwella eu hyder, eu rhuglder a'u defnydd o'r iaith drwy ddarparu prentisiaethau ac addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

**Crynodeb**

149. Caiff Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2016-17 ei chyflwyno i'r pwyllgor i'w hystyried.

**Annex 1**



**EDUCATION AND SKILLS MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)**

**RESOURCE BUDGET - Departmental Expenditure Limit**

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Outturn £000 | 2015-16 Forecast outturn as at Period 8 £000 | 2015-16 Supplementary Budget June 2015 £000 | 2015-16 Revised baseline £000 | 2016-17 Draft budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Education & Training Standards** | Literacy & Numeracy | Literacy & Numeracy | 8,203 | 4,776 | 4,512 | 4,512 | 4,456 |
| | | **ACTION Total** | **8,203** | **4,776** | **4,512** | **4,512** | **4,456** |
| | Curriculum | Foundation Phase | 99,080 | 1,851 | 1,851 | 1,851 | 1,851 |
| | | Curriculum & Assessment | 27,975 | 22,917 | 31,555 | 26,055 | 10,299 |
| | | 14-19 Learning in Wales | 10,240 | -184 | 0 | 0 | 0 |
| | | Curriculum Review and Schools Challenge Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,400 |
| | | **ACTION Total** | **137,295** | **24,584** | **33,406** | **27,906** | **32,550** |
| | Teaching & Leadership | Teacher Development and Support | 10,772 | 16,868 | 15,956 | 15,956 | 21,221 |
| | | Initial Treacher training | 4,685 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **15,457** | **16,868** | **15,956** | **15,956** | **21,221** |
| | Qualifications | Qualifications inc Welsh Bacc | 5,194 | 7,256 | 7,903 | 7,903 | 8,169 |
| | | Qualifications Wales depriciation | 0 | 44 | 0 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **5,194** | **7,300** | **7,903** | **7,903** | **8,169** |
| | Post- 16 Education | Further Education Provision | 415,263 | 400,177 | 400,177 | 400,177 | 400,177 |
| | | Work Based Learning | 93,761 | 106,808 | 106,808 | 106,308 | 111,308 |
| | | Mergers and collaboration | 219 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | FE Policy Development | 944 | 1,066 | 1,066 | 1,066 | 1,066 |
| | | **ACTION Total** | **510,187** | **508,051** | **508,051** | **507,551** | **512,551** |
| | Higher Education | HEFCW-Running Costs | 2,768 | 2,768 | 2,768 | 2,768 | 2,491 |
| | | Higher Education Revenue | 330,595 | 94,473 | 98,610 | 98,610 | 57,510 |
| | | Higher Education Receipts | -2,820 | -2,798 | -2,798 | -2,798 | -2,798 |
| | | For Our Future - Coleg Ffederal & UHOVI | 32,304 | 30,498 | 30,498 | 30,498 | 30,498 |
| | | HEFCW Depreciation | 82 | 82 | 82 | 82 | 82 |
| | | **ACTION Total** | **362,929** | **125,023** | **129,160** | **129,160** | **87,783** |
| | Education Standards | School Governance | 0 | 1,376 | 1,738 | 1,738 | 1,353 |
| | | School Standards Support | 2,108 | 1,362 | 1,364 | 1,364 | 1,394 |
| | | School Effectiveness Grant | 28,275 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | School Improvement Grant | 0 | 142,594 | 141,021 | 141,021 | 134,782 |
| | | **ACTION Total** | **30,383** | **145,332** | **144,123** | **144,123** | **137,529** |
| | Pupil Deprivation Grant | Pupil Deprivation Grant | 69,122 | 81,902 | 82,046 | 82,046 | 89,246 |
| | | **ACTION Total** | **69,122** | **81,902** | **82,046** | **82,046** | **89,246** |
| | ICT & Information Management Systems | ICT & IMS Programme | 10,505 | 6,810 | 6,935 | 6,935 | 6,935 |
| | | **ACTION Total** | **10,505** | **6,810** | **6,935** | **6,935** | **6,935** |

**Annex 1**

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15<br>Outturn<br>£000 | 2015-16<br>Forecast outturn as at Period 8<br>£000 | 2015-16<br>Supplementary Budget June 2015<br>£000 | 2015-16<br>Revised baseline<br>£000 | 2016-17<br>Draft budget<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | SPA Total | 1,149,275 | 920,646 | 932,092 | 926,092 | 900,440 |

**Annex 1**

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Outturn £000 | 2015-16 Forecast outturn as at Period 8 £000 | 2015-16 Supplementary Budget June 2015 £000 | 2015-16 Revised baseline £000 | 2016-17 Draft budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Skilled Workforce** | Employment & Skills | Employment & Skills | 28,209 | 26,053 | 26,290 | 23,890 | 22,848 |
| | | **ACTION Total** | **28,209** | **26,053** | **26,290** | **23,890** | **22,848** |
| | Youth Engagement & Employment | Youth Engagement & Employment | 18,822 | 15,960 | 15,813 | 15,813 | 17,214 |
| | | **ACTION Total** | **18,822** | **15,960** | **15,813** | **15,813** | **17,214** |
| | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 28,300 | 21,400 | 20,000 | 20,000 | 18,000 |
| | | **ACTION Total** | **28,300** | **21,400** | **20,000** | **20,000** | **18,000** |
| | | **SPA Total** | **75,331** | **63,413** | **62,103** | **59,703** | **58,062** |
| **Improving Wellbeing, Reducing Inequality & Increasing Participation** | Wellbeing of Children & Young People | Spec. Placements/Students with Learning Difficulties FEIs | 11,080 | 12,010 | 11,481 | 11,481 | 11,481 |
| | | School Based Counselling | 6 | 18 | 80 | 80 | 0 |
| | | Food & Drink in Schools | 3,119 | 3,070 | 3,185 | 3,185 | 3,230 |
| | | Additional Learning Needs | 793 | 1,836 | 2,786 | 2,786 | 2,786 |
| | | **ACTION Total** | **14,998** | **16,934** | **17,532** | **17,532** | **17,497** |
| | Post-16 Learner Support | Welsh Government Learning Grant (was Assembly Learning Grant) | 195,778 | 432,980 | 422,483 | 422,483 | 453,583 |
| | | SLC/HMRC Administration Costs | 13,731 | 12,491 | 8,338 | 8,338 | 8,244 |
| | | Maintenance Loans Res Budget Prov | 106,787 | 8,616 | 106,849 | 106,849 | 106,849 |
| | | Targeted Awards | 9,009 | 7,760 | 7,004 | 7,004 | 6,297 |
| | | **ACTION Total** | **325,305** | **461,847** | **544,674** | **544,674** | **574,973** |
| | Pupil Engagement | Tackling Disaffection | 151 | 320 | 658 | 658 | 658 |
| | | Grants for the education of Travellers children | 1,044 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | Minority Ethnic Acheivement Grant | 9,216 | -389 | 0 | 0 | 0 |
| | | **ACTION Total** | **10,411** | **-69** | **658** | **658** | **658** |
| | | **SPA Total** | **350,714** | **478,712** | **562,864** | **562,864** | **593,128** |
| **Welsh Language** | Welsh in Education | Welsh in Education | 21,047 | 18,549 | 18,599 | 18,599 | 18,681 |
| | | **ACTION Total** | **21,047** | **18,549** | **18,599** | **18,599** | **18,681** |
| | Welsh Language | Welsh Language | 5,688 | 5,125 | 5,259 | 5,259 | 3,964 |
| | | Welsh Language Commissioner | 3,690 | 3,690 | 3,390 | 3,390 | 3,000 |
| | | **ACTION Total** | **9,378** | **8,815** | **8,649** | **8,649** | **6,964** |
| | | **SPA Total** | **30,425** | **27,364** | **27,248** | **27,248** | **25,645** |
| **Delivery Support** | Delivery Support | Strategic Communications | -170 | 3,212 | 2,972 | 1,972 | 2,585 |
| | | Education Research & Services | 2,013 | 1,494 | 1,730 | 1,730 | 950 |
| | | **ACTION Total** | **1,843** | **4,706** | **4,702** | **3,702** | **3,535** |
| | | **SPA Total** | **1,843** | **4,706** | **4,702** | **3,702** | **3,535** |
| **Education & Skills Resource DEL** | | | **1,607,588** | **1,494,841** | **1,589,009** | **1,579,609** | **1,580,810** |

**Annex 1**

| SPA | Actions | Budget Expenditure Line (BEL) | 2014-15 Outturn £000 | 2015-16 Forecast outturn as at Period 8 £000 | 2015-16 Supplementary Budget June 2015 £000 | 2015-16 Revised baseline £000 | 2016-17 Draft budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | | |
| **Education & Training Standards** | Estate & IT Provision | General Support | 43,021 | 43,021 | 43,021 | 43,021 | 43,021 |
| | | Strategic Investment | 110,809 | 133,513 | 130,813 | 100,813 | 122,747 |
| | | **ACTION TOTAL** | **153,830** | **176,534** | **173,834** | **143,834** | **165,768** |
| | | **SPA Total** | **153,830** | **176,534** | **173,834** | **143,834** | **165,768** |
| **Education & Skills Capital DEL** | | | **153,830** | **176,534** | **173,834** | **143,834** | **165,768** |
| **RESOURCE & CAPITAL BUDGET - Annually Managed Expenditure** | | | | | | | |
| **Economic & Social Wellbeing & Reducing Inequality** | Post-16 Learner Support | Student Loans Capital AME | 356,951 | 412,726 | 421,248 | 449,575 | 449,575 |
| | | Student Loans Revenue AME | -81,317 | -315,257 | -88,444 | -85,376 | -85,376 |
| | | **ACTION Total** | **275,634** | **97,469** | **332,804** | **364,199** | **364,199** |
| | | **SPA Total** | **275,634** | **97,469** | **332,804** | **364,199** | **364,199** |
| **Skilled Workforce** | Educational & Careers Choice | Careers Wales | 12,438 | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| | | **ACTION Total** | **12,438** | **6,000** | **6,000** | **6,000** | **6,000** |
| | | **SPA Total** | **12,438** | **6,000** | **6,000** | **6,000** | **6,000** |
| **Education & Skills AME** | | | **288,072** | **103,469** | **338,804** | **370,199** | **370,199** |

| **Education & Skills MEG - SUMMARY** | 2014-15 Outturn £000 | 2015-16 Forecast outturn as at Period 8 £000 | 2015-16 Supplementary Budget June 2015 £000 | 2015-16 Revised baseline £000 | 2016-17 Draft budget £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Resource DEL | 1,607,588 | 1,494,841 | 1,589,009 | 1,579,609 | 1,580,810 |
| Capital DEL | 153,830 | 176,534 | 173,834 | 143,834 | 165,768 |
| **Total DEL** | **1,761,418** | **1,671,375** | **1,762,843** | **1,723,443** | **1,746,578** |
| Annually Managed Expenditure | 288,072 | 103,469 | 338,804 | 370,199 | 370,199 |
| **Education & Skills** | **2,049,490** | **1,774,844** | **2,101,647** | **2,093,642** | **2,116,777** |

**Atodiad 2**

# Templed Adrannol: Asesiad Effaith Integredig ar Gyllideb 2016-17

## TROSOLWG O'R PORTFFOLIO

Mae'r portffolio Addysg a Sgiliau yn cynorthwyo'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg a'r Prif Weinidog i wella safonau a pherfformiad ym maes addysg a sgiliau, a diogelu dyfodol yr iaith Gymraeg.

Rydym yn defnyddio dull cyfannol i ariannu addysg. Gyda disgwyl i nifer y bobl ifanc gynyddu yn y tymor canolig, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd addysg o ran gwella cyrhaeddiad addysgol a sgiliau ar bob lefel er mwyn helpu i dorri'r cylch anfantais ac anghydraddoldeb, a meithrin dyfodol lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Rydym wedi cydnabod hefyd fod newidiadau i'r boblogaeth, ochr yn ochr â newidiadau technolegol a sectoraidd, yn golygu bod rhaid i ni ystyried hefyd rôl bwysig addysg yng nghyd-destun cynnal dyfodol economi Cymru.

Ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru yw y bydd dysgwyr yng Nghymru yn mwynhau addysg a dysgu sy'n eu hysbrydoli, mewn cymuned addysg sy'n cydweithio ac yn ceisio bod yn ardderchog, ac sy'n mynd ati i hybu cyflawniadau pob plentyn a pherson ifanc.

Bydd cyflawni'r amcanion strategol canlynol yn ein cefnogi i wireddu'r weledigaeth hon:

- Mae'r cymwysterau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni yn ennyn parch yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn basbort llawn hygrededd i'w dysgu a'u cyflogaeth yn y dyfodol.

- Creu gweithlu medrus a chyflogadwy i sbarduno arloesedd a thwf economaidd yn lleol ac yn genedlaethol, gyda chyfleoedd gwerthfawr o safon ar gyfer pob dysgwr.

- Cynorthwyo unigolion, teuluoedd a chymunedau i wella lles economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant.

## PROFFIL GWARIANT – DEL ADNODDAU

| Maes Rhaglenni Gwariant | Llinell Sylfaen 2015-16 £'000 | Newidiadau i'r gyllideb ac ail-flaenoriaethu £'000 | Cynlluniau Cyllideb ddrafft 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Safonau Addysg a Hyfforddiant | 926,092 | (25,652) | 900,440 |
| Gweithlu Medrus | 59,703 | (1,641) | 58,062 |
| Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad | 456,015 | 30,264 | 486,279 |
| Y Gymraeg | 27,248 | (1,603) | 25,645 |
| Cymorth Cyflawni | 3,702 | (167) | 3,535 |

Mae'r DEL Adnoddau wedi cynyddu'n gyffredinol i £1.2 miliwn. Mae adolygiad fesul llinell o'r hyn rydym yn ei wario wedi'i gwblhau fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y gyllideb hon, yn cynnwys edrych ar le y gallwn ni wneud newidiadau i'r gwaith cyflawni er mwyn bod yn fwy effeithlon neu effeithiol, a lleihau effaith gostyngiadau yn y gyllideb lle maent yn digwydd.

## NEWIDIADAU ALLWEDDOL I WARIANT (PERTHNASOL I'R PWYLLGOR MENTER A BUSNES)

- Addysg Uwch - gostyngiad o £41.377 miliwn
- Ôl-16 – Cynnydd o £5 miliwn
- Dewisiadau Addysgol a Gyrfaol – gostyngiad o £2 filiwn
- Cynnal cyllidebau addysg bellach fel rhai arian gwastad

## EFFEITHIAU

Bydd gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg a sgiliau yn gwneud cyfraniad pwysig at uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer Cymru a'r themâu trawsbynciol o Dwf a Swyddi, Cyrhaeddiad Addysgol, Trechu Tlodi, Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig ac Iechyd a Llesiant. Mae'r egwyddor ganolog o ddatblygu cynaliadwy, sy'n cael ei diffinio gan feddwl hirdymor, atal, cydweithredu, integreiddio a chyfranogi, wrth wraidd ein hymagwedd. Mae codi cyrhaeddiad addysgol a sgiliau ar bob lefel yn hollbwysig wrth gyfrannu at dorri'r cylch o amddifadedd ac anghydraddoldeb a meithrin dyfodol iaith Gymraeg sy'n ffynnu

Mae addysg a hyfforddiant hygyrch o ansawdd uchel yn allweddol i sicrhau bod gennym y sgiliau a'r cyfleoedd ar gyfer cenedlaethol heddiw a'r dyfodol.

***Addysg Uwch***

Mae darparu cyllid ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg uwch (AU) yn cyfrannu at amcanion lles a'r agenda trechu tlodi drwy helpu i greu a swyddi a chyflogaeth o ansawdd a sicrhau eu bod yn gynaliadwy, annog cyfle cyfartal ac annog mwy o bobl i gyfrannu'n effeithiol at gymdeithas. Darperir cymorth ar gyfer AU cyfrwng Cymraeg drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bydd gostyngiadau yn y gyllideb yn dod i rym o 1 Ebrill 2016. Er mai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n gyfrifol am ddosbarthu ei adnoddau ei hun, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith blynyddol yn amlinellu blaenoriaethau'r Llywodraeth. Mae disgwyl i'r llythyr gadw'r ffocws ar gryfhau swyddi a thwf yng Nghymru, gan ofyn i sefydliadau weithio'n galetach i wella cydraddoldeb a thegwch ymhellach drwy ehangu mynediad at AU (a, thrwy hynny, gwneud cyfraniad pwysig at drechu tlodi a gwella canlyniadau'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel) a sicrhau dyfodol hirdymor cynaliadwy a llwyddiannus ar gyfer AU yng Nghymru.

Byddwn yn ceisio cydweithio i liniaru'r canlyniadau ac rydym yn gwneud buddsoddiadau ychwanegol sylweddol yng ngallu ymchwil y sector AU hefyd drwy Sêr Cymru, gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol a rhaglenni'r UE. Mae hyn yn cydnabod rôl gwyddoniaeth mewn arloesedd a datblygu technoleg sy'n gysylltiedig â thwf economaidd a chreu swyddi. Er gwaethaf y gostyngiad yng nghyllideb CCAUC, bydd cynnydd yn y gyllideb cymorth i fyfyrwyr yn Llywodraeth Cymru yn gwrthbwyso hyn.

Yn gyffredinol, mae disgwyl i incwm y sector AU yng Nghymru gynyddu wrth i'r newidiadau i ffioedd dysgu barhau i gael eu cyflwyno. Ers 2015-16, mae disgwyl y bydd sefydliadau'n defnyddio peth o'r incwm ychwanegol hwn o ffioedd i gynorthwyo myfyrwyr agored i niwed, yn cynnwys y rheini sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a chartrefi incwm isel. Yn ei lythyr cylch gwaith ar gyfer 2015-16, gofynnir i CCAUC fonitro a darparu cymorth i sefydliadau wrth iddynt baratoi eu cynlluniau.

Mae'n bosibl y gallai'r gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb gael effaith andwyol ar rai grwpiau gwarchodedig, yn cynnwys y rheini o gefndiroedd dan anfantais. Rydym wedi datgan yn glir mai buddsoddiad yn y person ifanc yw'n polisi ffioedd dysgu a dylai'r dewis o sefydliad a chwrs gael ei ddylanwadu gan amgylchiadau unigol yn hytrach na chost ffioedd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o bob ethnigrwydd, rhyw neu gefndir, gan gynnig ffordd allan o dlodi.

Mae CCAUC yn cynnal ei asesiadau effaith ei hun o gynigion ariannu a'r fethodoleg ar gyfer dosbarthu'r cyllid sydd ar gael. Fodd bynnag, gall sefydliadau ddadlau y gallai lleihad yn y cyllid a roddir gan CCAUC effeithio ar eu gallu i gyflwyno rhaglenni sy'n cynorthwyo myfyrwyr agored i niwed.

Merched yw mwyafrif y myfyrwyr prifysgol a byddai unrhyw doriadau yn cael effaith anghymesur ar y grŵp gwarchodedig hwn. Yn arbennig, byddai unrhyw effaith andwyol ar y Brifysgol Agored yn effeithio ar fenywod yn arbennig, gan

fod cyfran helaeth o fyfyrwyr rhan-amser yn fenywod. Er y bydd llythyr cylch gwaith y Gweinidog yn cadarnhau bod dysgu rhan-amser yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru o hyd, mater i'r CCAUC yw dosrannu'r cyllid sydd ar gael. Yn unol ag adroddiadau annibynnol blaenorol, mae disgwyl i incwm y sector AU yn gyffredinol barhau i fod mewn cyflwr iach er gwaethaf gostyngiadau yng nghyllid grant uniongyrchol CCAUC.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gyda rhanddeiliaid i asesu effaith bosibl y toriadau hyn ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r rheini sy'n byw mewn tlodi. Maent yn cynnwys trafodaeth gyda CCAUC ac Is-gangellorion pob sefydliad AU yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â phartneriaid er mwyn gwella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn monitro canlyniadau polisïau i leihau effaith toriadau yn y gyllideb ar wasanaethau addysg a sgiliau yng Nghymru.

Tystiolaeth - ar gyfer trosglwyddo

Mae'r model cyllid myfyrwyr yn cael ei fonitro, ei graffu a'i gytuno gan y Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth Myfyrwyr sy'n cynnwys arweinwyr polisi AU, ystadegwyr AU, a swyddogion CCAUC. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob yn ail fis neu'n amlach os oes angen. Mae modelau cyllid myfyrwyr yn cael eu llywio gan ffynonellau data cydnabyddedig sy'n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a CCAUC - datganiadau ystadegol HESA ac UCAS yn ogystal â dadansoddiadau o dueddiadau gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae Grŵp Herio ar y cyd Llywodraeth Cymru/Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn craffu ar ddata'r Cwmni.

Wrth benderfynu ar faint o'r grant ffioedd dysgu i'w drosglwyddo, mae Llywodraeth Cymru'n cyfarfod â CCAUC yn rheolaidd i graffu ar a herio rhagdybiaethau'r naill a'r llall ynghylch galw'r dyfodol. Wrth bennu newidiadau eraill i bolisi a allai effeithio ar fodelau cyllid myfyrwyr, mae arweinwyr polisi yn cynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses ddeddfwriaethol. Mae Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn cynnwys manylion y cynigion, yn cael ei gyhoeddi ar y fewnrwyd a'i anfon at amrywiaeth eang o bartïon â buddiant a rhanddeiliaid fel y gallant gyflwyno sylwadau arno.

Mae rhagdybiaethau ynghylch nifer myfyrwyr, cymhwysedd a galw yn y dyfodol yn seiliedig ar ffynonellau data cydnabyddedig a gaiff eu defnyddio gan bob rhan o'r llywodraeth a'r sector AU, fel y sonnir uchod. Mae'r effaith bosibl ar incwm sefydliadau wedi cael ei hystyried hefyd. Mae'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer incwm yn deillio o ragolygon Swyddfa Archwilio Cymru, Cofnod Cyllid HESA a'r rhagolygon o niferoedd myfyrwyr. Mae disgwyl i incwm i'r sector yng Nghymru o bob ffynhonnell gynyddu'n raddol tan 2020.

Mae bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr yn seiliedig ar reoliadau sy'n cael eu gwneud bob blwyddyn. Cafodd y pecyn o gymorth i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2016-17 ei drin drwy broses

ddeddfwriaethol ar wahân a pharatowyd asesiad ar wahân o effaith ar gydraddoldeb.

### *Addysg Ôl-16*

Dengys tystiolaeth fod pobl sy'n cymryd rhan mewn dysgu yn fwy tebygol o ymwneud â gweithgareddau cymunedol a chymdeithas sifil. Mae hyrwyddo a chefnogi dysgu ar ôl gadael yr ysgol yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd a lles ac yn annog cyfle cyfartal ar gyfer y grwpiau hynny a allai wynebu rhwystrau wrth geisio cymryd rhan fel arall.

I gydnabod pwynt BAGE ynglŷn â phwysigrwydd addysg o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn achos cyflogaeth a sgiliau a threchu tlodi, rydym wedi diogelu addysg ôl-16 gyda chyllideb arian gwastad, a thrwy ein cytundeb cyllideb 2014, rydym yn dyrannu £5 miliwn er mwyn parhau i gefnogi tua 2,500 o brentisiaethau. Rydym wedi mynd gam ymhellach ac wedi ymrwymo £5 miliwn arall i ariannu cohort newydd o 2,500 o brentisiaethau i gydnabod gwerth y dysgu seiliedig ar waith hwn fel y nodwyd gan BAGE

Trwy ein penderfyniad i ddarparu setliad arian gwastad ar gyfer addysg ôl-16, rydym wedi cydnabod yr effaith ar drechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac wedi ymrwymo i wireddu ein huchelgais o weld cynifer â phosibl o ddysgwyr, yn cynnwys dysgwyr o grwpiau gwarchodedig, yn gallu meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y gweithle. Mae rhan o'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae addysg ôl-16 yn gwneud cyfraniad sylweddol at drechu tlodi trwy gynyddu lefelau sgiliau gweithlu Cymru. Mae addysg a hyfforddiant ôl-16 fel prentisiaethau yn bwysig i gyflawni'r her o leihau NEET ac mae gostwng nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ganolog i'n Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi.

### *Dewisiadau Addysgol a Gyrfaol*

Mae Gyrfa Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd dwyieithog a diduedd ar yrfaoedd i bobl o bob oedran ym mhob rhan o Gymru, ar sail cylch gwaith gwasanaeth blynyddol. Mae'n cynnig gwasanaethau i bobl ifanc sydd mewn perygl o gefnu ar addysg a hyfforddiant, gan helpu i'w hatal rhag bod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg ôl-16 a'r cyfle i gael mynediad at addysg uwch. Mae pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc ddifreintiedig penodol yn fwy tebygol o ddioddef tlodi os nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae addysg a hyfforddiant ôl-16 fel prentisiaethau yn bwysig i gyflawni'r her o leihau NEET ac mae gostwng nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ganolog i'n Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi.

Bydd lleihau cyllid Gyrfa Cymru yn cael sawl effaith bosibl, sy'n golygu y bydd angen newid y cylch gwaith blynyddol ar gyfer 2016-17. Darparu'r gwasanaeth statudol sef Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd i blant ysgol a phobl ifanc mewn Sefydliadau Addysg Bellach fydd craidd y ddarpariaeth o hyd.

Y grŵp cleientiaid y bydd hyn yn effeithio arno yw holl ddefnyddwyr gwasanaethau Gyrfa Cymru. Pobl ifanc hyd at 18 oed yw prif grŵp cleientiaid gwasanaeth Gyrfa Cymru. Gallai hyn gael effaith negyddol ar y grŵp cleientiaid 18-24 oed gan nad yw'r grŵp oedran penodol hwn yn cael budd o gyllid gan unrhyw un o raglenni eraill Llywodraeth Cymru fel oedolion di-waith 25 oed a throsodd, neu gleientiaid sy'n colli gwaith yn sgil dileu swyddi.

Bydd rhagor o bwysau ariannol ar bob maes ar wahân i'r rhai sydd wedi'u pennu'n feysydd statudol craidd h.y. gwasanaethau i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau AB / pobl ifanc 16 ac 17 oed diwaith, ac mae'n bosibl y bydd angen lleihau gwasanaethau. Bydd unigolion â nodweddion gwarchodedig yn parhau i gael gwasanaethau a chymorth Gyrfa Cymru fel sy'n ofynnol yn y ddeddfwriaeth. Ni ragwelir effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig eraill.

Er mwyn lleihau effaith gostyngiadau yn y gyllideb, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella ac ychwanegu at wasanaethau craidd drwy'r wefan, y llinell gymorth dros y ffôn, sgwrsio ar y we a sianeli cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael i bawb, er gallai hyn gael effaith anghymesur ar bobl dlotach neu anabl nad oes ganddynt gymaint o fynediad at TG. Nid oes effaith ar Hawliau Plant gan y bydd cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ar gael i bawb o hyd, boed ar ffurf wahanol.

Bydd lleihau'r gyllideb graidd yn golygu bod rhaid i Gyrfa Cymru dorri niferoedd staff y sefydliad eto. Bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar faint o wasanaethau cyfarwyddyd wyneb yn wyneb y gellir eu cynnig i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau, ac i oedolion.

Mae cyngor gyrfaoedd yn annog pobl i weithio; mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi ac ar les. Mae rhai pobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc dan anfantais yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, felly mae'n bosibl y gallai'r toriadau effeithio ar y grwpiau hyn.

Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, felly nid oes unrhyw effaith ar y Gymraeg. Rhoddir cyngor ar ddarpariaeth Gymraeg ac anghenion y farchnad lafur leol, yn cynnwys swyddi lle mae cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cafwyd trafodaeth ynghylch amrywiaeth, ehangder a dyfnder y ddarpariaeth a roddir gan Gyrfa Cymru i'w gleientiaid craidd a chleientiaid eraill fel rhan o'r cyswllt rheolaidd â'r uwch dîm rheoli, i sicrhau darpariaeth addas, o safon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ddiogelu gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol, diduedd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ledled Cymru.

Tystiolaeth
Mae'r sail dystiolaeth yn cynnwys adolygiadau perfformiad parhaus y gweithgareddau a ddarperir yn y flwyddyn ariannol bresennol, fel y nodir yn y llythyr cylch gwaith blynyddol i Gyrfa Cymru gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn hefyd yn cynnwys y cynllun busnes blynyddol ar gyfer 2015-16.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd gael polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arddangos, drwy hunanasesu a thystiolaeth ategol, eu bod yn rhoi'r polisïau hyn ar waith, yn monitro cyfranogiad gan grwpiau lleiafrifoedd ac yn eu cefnogi, ac yn gwerthuso eu hymatebolrwydd eu hunain. Mae gan Gyrfa Cymru ei Bolisi a'i Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun y bydd angen eu hadolygu a'u diweddaru i ystyried y gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer 2016-17.

***Cymorth Dysgwyr Ôl-16***

Mae myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn gallu manteisio ar sawl math gwahanol o gymorth yn cynnwys grantiau a benthyciadau. Rydym yn parhau i ddarparu benthyciadau ffioedd dysgu a grantiau seiliedig ar brawf modd ar gyfer costau byw. Mae'r gyllideb ar gyfer grantiau myfyrwyr wedi cynyddu oherwydd bod disgwyl cynnydd yn y galw wrth i nifer y myfyrwyr gynyddu, ac wrth i incwm aelwydydd leihau mewn rhai ardaloedd, sy'n golygu bod mwy o fyfyrwyr islaw'r trothwy i gael cymorth grant. Mae darparu grantiau a benthyciadau yn cefnogi pob dysgwr ond mae'n cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar y rheini o gefndiroedd difreintiedig gan fod rhai grantiau'n seiliedig ar brawf modd.

Yn sgil y pwysau ariannol cynyddol, comisiynwyd yr Athro Ian Diamond i gynnal adolygiad annibynnol o gyllid addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yn 2014. Un o brif flaenoriaethau'r adolygiad yw ystyried cynaliadwyedd ariannol hirdymor y system Addysg Uwch. Caiff canfyddiadau'r adolygiad eu cyhoeddi yn 2016 a byddant yn helpu i lywio camau nesaf cyllido addysg uwch yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym yn dyrannu £10 miliwn ychwanegol i gydnabod y pwysau ar gymorth i fyfyrwyr yn 2016-17. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyflawni ein hymrwymiad parthed ffioedd dysgu.

**GWELLIANT PARHAUS**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr asesiad effaith integredig yn cael ei ystyried wrth wneud pob penderfyniad am y gyllideb. Ar ôl paratoi ar gyfer cylchoedd cyllideb 2014-15, 2015-16 a 2016-17, mae gennym ddadansoddiad llinell sylfaen o effaith newidiadau yn y gyllideb ar gydraddoldeb, hawliau'r plentyn, datblygu cynaliadwy, trechu tlodi a'r Gymraeg. Mae hyn wedi ein galluogi i ystyried yn llawn anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â'r pwyslais ar gydraddoldeb a

threchu tlodi. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn ac ar gyfer cyllideb gyntaf tymor nesaf y cynulliad.

Caiff asesiadau effaith integredig eu hystyried fel rhan o bob penderfyniad gweinidogol perthnasol. Bydd yr adran yn cryfhau ei chanllawiau ar asesiadau effaith a sut maent yn berthnasol i wahanol fathau o gyngor a roddir i Weinidogion drwy gyngor gweinidogol yn unol â datblygiadau gan dimau canolog Llywodraeth Cymru.

# Eitem 4.2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Memorandwm ar yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2016/17**

**Y Pwyllgor Menter a Busnes – 14 Ionawr 2016**

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fel y'u nodir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016/17 a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr. Nid yw'n cynnwys y manylion am y gyllideb sy'n ymwneud â diwylliant a chwaraeon. Bydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ymdrin â'r meysydd hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 21 Ionawr.

## 2.0 Crynodeb o'r Newidiadau Cyllidebol

Yn gyffredinol, mae'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer 2016/17 i gefnogi'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (heb gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol) wedi cynyddu £60.538m o gymharu â'r Gyllideb sylfaenol ddiwygiedig ar gyfer 2015/16. Mae'r symudiad hwn yn cynnwys gostyngiad o £18.946m mewn refeniw a chynnydd o £79.484m yn y dyraniad cyfalaf, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod.

**TABL 1: TROSOLWG O'R GYLLIDEB**

| | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newidiadau 2016/17 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | |
| Economi a Gwyddoniaeth | 87,425 | (18,794) | 68,631 |
| Trafnidiaeth | 305,441 | (152) | 305,289 |
| **Cyfanswm** | **392,866** | **(18,946)** | **373,920** |
| | | | |
| **Cyfalaf** | | | |
| Economi a Gwyddoniaeth | 67,647 | 32,000 | 99,647 |
| Trafnidiaeth | 194,349 | 47,484 | 241,833 |
| **Cyfanswm** | **261,996** | **79,484** | **341,480** |
| | | | |
| Anariannol | 110,000 | 0 | 110,000 |
| **Cyfanswm** | **110,000** | **0** | **110,000** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 34,954 | 0 | 34,954 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **799,816** | **60,538** | **860,354** |

Cysonir y newidiadau o Gyllideb Atodol 2015/16 a Chyllideb Sylfaenol 2015/16 yn **Atodiad A**.

## 2.1 Refeniw

Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'r ymrwymiad i Fuddion Cyffredinol. Ar gyfer yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mae hyn yn golygu bod y Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach wedi'i ddiogelu ar 1 y cant uwchlaw'r newidiadau i'r Terfyn Grant Adrannol cyffredinol ar gyfer Cymru. Mae'r swm o £9.750m a ddyrannwyd i'r Cynllun Teithio Rhatach ar Fysiau i Bobl Ifanc hefyd wedi'i ddiogelu, yn unol â'r pecyn dwy flynedd o fesurau y cytunwyd arno â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghytundeb Cyllidedol 2014.

O ganlyniad, mae arbedion refeniw wedi'u nodi mewn meysydd nas diogelir o Brif Grŵp Gwariant yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Esbonnir y gostyngiad o £18.946m mewn refeniw fel a ganlyn:

a. **Dyraniadau ychwanegol â blaenoriaeth - £5.848m**
   - Tocynnau Teithio Rhatach – £1.098m, cynnydd o 1% uwchlaw'r newidiadau i Derfyn Grant Adrannol Cymru fel ymrwymiad i Fuddion Cyffredinol;
   - Y Cynllun Teithio Rhatach ar Fysiau i Bobl Ifanc - £4.750m (Cytundeb Cyllidebol Blwyddyn 2).

b. **Newidiadau Cyllidebol ac Ailflaenoriaethu – (£24.794m)**
   - 2016/17 gostyngiad o £23.794m a reolir yn bennaf drwy ailbroffilio a blaenoriaethu rhaglenni, gan ddefnyddio ein cyllideb graidd er mwyn manteisio i'r eithaf ar Gyllid Ewropeaidd a refeniw a gynhyrchir drwy reoli'r portffolio eiddo;
   - Ad-dalu Cyllid Buddsoddi i Arbed gwerth £1m ar gyfer prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus.

Wrth lywio ein cynlluniau gwariant rydym wedi ceisio lleihau effaith cwtogi ar wasanaethau cyhoeddus a thwf a swyddi cymaint â phosibl. Trafnidiaeth sy'n ffurfio'n rhan fwyaf o gyllideb yr Adran ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, prin yw'r cyfle i wneud arbedion yn y maes hwn, heb amharu ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ac iechyd a diogelwch defnyddwyr ffyrdd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio gyda'n darparwyr gwasanaethau er mwyn cyflawni mwy am lai, fel y dangosir, er enghraifft, gan ein gwaith gyda'r Asiantau Cefnffyrdd[1]. Wrth gynnal cydnerthedd a defnyddioldeb y rhwydwaith ffyrdd, mae ein hymrwymiad i fuddsoddiad 'gwario i arbed' hirdymor wedi arwain at ryddhau refeniw o blaid gwariant cyfalaf.

Er bod y rhan fwyaf o'r arbedion refeniw wedi'u cyflawni o fewn cyllidebau'r Economi a Gwyddoniaeth, rydym wedi ceisio nodi mwy o arbedion effeithlonrwydd gweithredol ym mhob un o'n gweithgareddau, a manteisio i'r eithaf ar Gyllid Ewropeaidd ac incwm arall er mwyn cynnal ein lefel o gymorth uniongyrchol i fusnesau. Wrth wneud hyn, rydym wedi lleddfu effaith y gostyngiadau er mwyn parhau â'n blaenoriaeth ar gyfer twf a swyddi. Mae Cyllid

[1] Cyfeiriad 5.1 (c)

Cymru yn parhau i fod yn gyfrwng pwysig i BBaChau gael gafael ar gyllid drwy gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd benthyca.

## 2.2 Cyfalaf

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys £54.484m o gyllid cyfalaf ychwanegol a £25m o gyllid trafodion ariannol fel y nodir yn Nhabl 2 isod.

Rhagwelir y dyrennir symiau pellach o arian yn 2016/17 ar gyfer prosiectau strategol yn unol â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Mae cynnydd o £79.484m yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer meysydd â blaenoriaeth fel y nodir yn nhabl 2 isod:

**TABL 2: Dyraniadau Cyfalaf 2016/17**

| Cam gweithredu | Cyfalaf Traddodiadol £'000 | Trafodion Ariannol £'000 | Prosiect |
|---|---|---|---|
| Sectorau | 2,700 | | Gwaith ar Seilwaith Priffordd Porth y Gogledd |
| | 1,300 | | Ffordd Gyswllt Llangefni, Cyfnod 2 |
| | 3,000 | | Prosiectau strategol sy'n helpu i gyflawni ardaloedd menter |
| | | 5,000 | Cronfa Olynol JEREMIE |
| | | 3,000 | Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru |
| | | 10,000 | Cronfa Twf Busnesau i BBaChau |
| | | 7,000 | Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf |
| Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd | 6,000 | | Pont Dyfi ar ffordd yr A487 |
| | 21,434 | | Buddsoddiad cyfalaf yn seilwaith ffyrdd |
| Gweithrediadau Traffordd a Chefnffyrdd | 20,000 | | Buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y rhwydwaith |
| | 50 | | Arwyddion Theatr Hafren – Ffordd Osgoi'r Drenewydd |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **54,484** | **25,000** | |

Mae'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer yr Economi a Gwyddoniaeth yn helpu i sicrhau parhad cronfeydd o fewn Cyllid Cymru a chreu cronfa newydd a fydd yn darparu cymorth ad-daladwy i fusnesau. Bydd y buddsoddiadau pwysig hyn yn sicrhau bod cyllid hyblyg a chystadleuol ar gael yn y farchnad.

Rhoddir cyfalaf ychwanegol hefyd i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a fydd yn helpu i gynyddu mewnfuddsoddiad drwy fynediad i farchnadoedd, cyflogaeth,

addysg a gwasanaethau. Dyma'r £7m sy'n weddill o'r pecyn o £10m a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer datblygu llwybrau Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Ceir hefyd ddyraniadau penodol a fydd yn helpu i sicrhau mwy o fuddsoddiad a chreu swyddi mewn Ardaloedd Menter.

Mae'r cynnydd yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer Trafnidiaeth yn ariannu'r gwaith o gynnal a chadw, adeiladu a gwella ffyrdd fel rhan o'r broses o gyflawni Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015.

Bydd fforddiadwyedd rhaglenni cyfalaf yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn y dyfodol yn parhau i fod yn fater allweddol yng nghyd-destun blaenoriaethau croes. Byddwn yn parhau i fabwysiadu dull gwariant ataliol, gan werthuso manteision a chanlyniadau hirdymor ein buddsoddiadau strategol er mwyn sicrhau cymaint o fanteision economaidd â phosibl a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae cyllid arloesol a chyfleoedd eraill i gynyddu ein hadnoddau ariannol yn ffactor cynyddol bwysig o ran ein gallu i gyflawni canlyniadau. Mae gan yr Adran hanes da o sicrhau ffynonellau cyllido eraill megis y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth y DU a'r sector preifat a byddwn yn parhau i geisio ffyrdd o ddenu cyllid ychwanegol.

Mae tablau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb a atodir yn **Atodiad C** yn rhoi dadansoddiad llawn o gyllidebau refeniw a chyfalaf yr Adran.

Mae Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cynnwys dyraniadau cyfalaf ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sy'n darparu sicrwydd rhag costau sydd y tu hwnt i reolaeth yr Adran, megis lleihad yng ngwerth y portffolio eiddo, cydfentrau, buddsoddiadau a'r rhwydwaith ffyrdd.

## 3.0 ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG STRATEGOL

Nodir effeithiau ein penderfyniadau cyllidebol allweddol yn **Atodiad B.**

## 4.0 ECONOMI A GWYDDONIAETH

### 4.1 Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Mae ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2016/17 yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol sy'n cwmpasu'r ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu. Rydym hefyd wedi cysoni ein gweithgareddau â saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gweler **Atodiad D.**

Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyhoeddwyd y diweddariad blynyddol o gyflawniadau a chanlyniadau'r Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2015 ac fe'i ceir ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/about/programmeforgov/?lang=cy

Gellir gweld y Datganiad Blynyddol ar Gymorth i Fusnesau a'r Economi yma: http://gov.wales/topics/businessandeconomy/how-we-support-businesses/annual-statement-support-to-business-15/?lang=cy

## 4.2 Polisïau Allweddol

Darparwyd gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r meysydd penodol a nodwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

### a) Cynllun Allwedd Band Eang Cymru

Nod y cynllun grant presennol yw helpu mangreoedd preswyl a busnes cymwys yng Nghymru i brynu ateb band eang â chyflymder lawrlwytho o 2Mbps o leiaf. Sefydlwyd y cynllun er mwyn helpu i ddileu 'mannau gwan' ar gyfer band eang yng Nghymru a chefnogi'r mangreoedd hynny na fyddant yn cael mynediad i wasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf drwy brosiect Cyflymu Cymru na'r broses fasnachol o gyflwyno gwasanaethau band eang gan y farchnad. Ers mis Gorffennaf 2010, mae'r cynllun llwyddiannus hwn wedi rhoi 6,279 o grantiau. Caiff costau gwirioneddol gosod band eang a nifer y preswylwyr a busnesau sy'n cael grantiau eu monitro ac maent yn destun gweithdrefnau gwirio cadarn.

At hynny, mae Cynllun Gwibgyswllt yn rhoi cymorth i BBaChau yn yr Ardaloedd Menter a'r Ardaloedd Twf Lleol y mae angen cysylltiad band eang gwibgyswllt arnynt. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer grant o hyd at £10,000.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu a diweddaru'r cynlluniau. Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith TGCh, sef £16.304m, ar gael ar gyfer cynlluniau cysylltedd â blaenoriaeth.

### b) Cyflymu Cymru

Erbyn diwedd 2017, bydd Cyflymu Cymru yn sicrhau bod y rhan fwyaf o fusnesau a fangreoedd preswyl yn gallu cael band eang â chyflymderau lawrlwytho o 30 Mbps o leiaf – mae hyn yn rhagori ar darged yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod gan bawb gysylltiad band eang Cyflym Iawn erbyn 2020, sy'n golygu mai Cymru fydd un o'r gwledydd sydd ar flaen y gad yn y byd technoleg band eang. Mae'r estyniad yn cynnwys mangreoedd ychwanegol a oedd wedi'u nodi yn yr ardal gyflwyno fasnachol yn yr Adolygiad o'r Farchnad Agored a gynhaliwyd yn 2014. Mae cyllid cyfalaf gwerth £16.304m, sy'n denu arian Ewropeaidd ychwaengol, wedi'i ddyrannu er mwyn cyflawni'r amrywiaeth o gynlluniau cysylltedd o fewn seilwaith TGCh.

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso prosesau cyflawni. Yn ystod oes y contract mae proses profi a gwirio wedi'i chynnal gan gontractwyr trydydd parti er mwyn sicrhau mai dim ond y mangreoedd hynny sydd wedi cael y cyflymderau cyflym iawn gofynnol sy'n cael eu cynnwys mewn unrhyw geisiadau a wneir am daliad gan BT. Mae'r broses hefyd yn rhoi sicrwydd bod y seilwaith sylfaenol sy'n ofynnol yn cyflawni amcanion y prosiect. Disgwylir i'r costau ar gyfer hyn yn 2016/17 gyd-fynd â'r costau sy'n cael eu codi ar hyn o bryd ar gyfer 2015/16, sef £461k.

Mae archwilwyr allanol wedi'u penodi i archwilio'r gwariant y mae BT yn ei neilltuo ar gyfer y prosiect. Mae'r ddwy broses hyn yn sicrhau mai dim ond am gostau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Cyflymu Cymru y mae BT yn gwneud cais. Yn seiliedig ar gostau cyfredol yr eir iddynt am archwiliadau a gynhelir, rhagwelir y gallai hyn gostio tua £250k yn 2016/17.

**c) Dinas-Ranbarthau**

Mae Byrddau Dinas-Ranbarth Caerdydd a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe wedi gwneud cynnydd da, gan sicrhau eu bod yn gweithio tuag at ddiben cyffredin sy'n seiliedig ar uchelgeisiau a rennir ar gyfer twf yn y rhanbarthau.

Mae'r Byrddau wedi cyfarfod yn rheolaidd, gan gynnal cyfarfodydd ledled eu rhanbarthau a thrafodaethau ag amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr er mwyn gwerthuso cynigion. Maent yn parhau i weithio ar hyrwyddo prosiectau mawr lle mae cysoni a chydweithredu rhwng rhanbarthau yn sicrhau gwerth ychwanegol, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu trafodaethau ynghylch y Fargen Ddinesig. Caiff prosiectau cydweithredol unigol eu hystyried yn unol â blaenoriaethau cyllido adrannau.

Cyhoeddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf ar gyfer y ddau ddinas-ranbarth ar 11 Rhagfyr 2015 ac mae ar gael yn:
http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/swanseabay/?lang=cy

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/cardiffcapital/?lang=cy

**ch) Ardaloedd Menter**

Mae Byrddau'r Ardaloedd Menter, sy'n cynnwys cryn nifer o gynrychiolwyr o'r sector preifat, i bob pwrpas wedi blaenoriaethu'r buddsoddiad mewn eiddo a seilwaith er mwyn helpu busnesau i ffynnu yn y dyfodol. Ategir cynigion cyfalaf gan astudiaethau dichonolrwydd / achosion busnes ac mae cyfleoedd i ddenu cyllid ychwanegol bod amser yn rhan o'r gwerthusiad.

Yn 2016/17 cafwyd dyraniadau cyfalaf ychwanegol yn unol â Chynllun Seilwaith Cymru er mwyn helpu i greu swyddi cynaliadwy fel a ganlyn:

**i. Priffordd Porth y Gogledd – £2.7m (2015/16 £1.2m)**

Bydd y buddsoddiad yn ariannu rhwydwaith priffyrdd prifwythiennol ynghyd â gwaith amddiffyn rhag llifogydd, gan agor y datblygiad mwyaf a arweinir gan y sector preifat yng Ngogledd Cymru, yn enwedig y sector gweithgynhyrchu uwch a'r sector technoleg. Gallai'r cyfleusterau cyflogaeth ddarparu ar gyfer hyd at 5000 o swyddi.

**ii. Ffordd Gyswllt Llangefni – £1.3m (2015/16 £1.5m)**

Bydd adeiladu'r ffordd gyswllt yn helpu i sicrhau mwy o fuddsoddiad a chreu swyddi drwy gynyddu capasiti ffyrdd, cysylltu Coleg Menai a Pharc Busnes

Bryn Cefni â ffyrdd yr A5114 a'r A55 a gwella'r modd y caiff traffig ei reoli yng nghanol y dref.

### iii. Prosiectau Strategol - £3m

Mae'r arian yn helpu i ymateb i gyfleoedd buddsoddi.

Cyhoeddir adroddiadau ar berfformiad ac allbynnau (DPAau) Ardaloedd Menter ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad cyntaf yn 2015/16 ar gael:

http://gov.wales/docs/det/publications/151203-ezw-kpi-mid-en.pdf

## d) Ardaloedd Twf Lleol

Yn 2016/17 mae cyllideb ymgysylltu rhanbarthol, sef £0.263m, yn ariannu strategaeth a mentrau ardaloedd twf lleol a nodir isod. Mae adroddiadau gan y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ym Mhowys a Dyffryn Teifi wedi cyflwyno argymhellion eang eu cwmpas sy'n berthnasol i nifer o bortffolios Gweinidogol. Mae nifer o gamau gweithredu wedi'u datblygu mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a'r sector preifat.

### i. Mentrau Ardal Twf Lleol Powys

- Mae prosiect EFFAITH Dyffryn Teifi (model Sirolli) yn cefnogi hwylusydd cymunedol i hyrwyddo diwylliant mentro ac annog hunangyflogaeth fel llwybr gyrfaol.

- Yn Llandrindod mae grŵp a arweinir gan fusnesau wedi datblygu cynllun gweithredu i ystyried hyfywedd economaidd y dref yn y dyfodol. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn ariannu Hyrwyddwr Tref er mwyn datblygu blaenoriaethau allweddol.

Mae cyflawni ffordd osgoi'r Drenewydd yn rhan annatod o'r datblygiad. Mae £50,000 o gyfalaf ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer arwyddion Theatr Hafren.

### ii. Mentrau Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi

- Codi ymwybyddiaeth yn lleol a mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ddatblygu busnesau a phobl.

- Gweithredu prosiect peilot sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan gysylltu i ddechrau â phedwar gweithdy yn Aberteifi, Llandysul, Castellnewydd Emlyn a Llanbedr Pont Steffan er mwyn nodi sut y gall y defnydd o'r Gymraeg fod o fudd i'r economi leol.

- Gwerthuso cysylltedd band eang er mwyn manteisio ar gyfleoedd ar gyfer busnesau digidol, sy'n arbennig o bwysig ar gyfer entrepreneuriaid sy'n gweithio gyda'r Gymraeg.

## dd) Ardaloedd Gwella Busnes (AGBau)

Ym mis Ionawr 2014 cyhoeddwyd cyllid gwerth £203,000 i ddatblygu cynigion naw AGB yng  Nghymru. Menter ar y cyd â'r Is-adran Cartrefi a Lleoedd ydoedd. Caiff AGBau eu datblygu a'u rheoli a thelir amdanynt gan y sector masnachol drwy ardoll AGB mewn partneriaeth â'r gymuned fusnes leol. Felly, nid oes unrhyw ddyraniadau ychwanegol ar gyfer 2016/17.

Yr Ardaloedd Gwella Busnes oedd Pen-y-bont ar Ogwr, Caernarfon, Bangor, Llanelli, Pontypridd, Castell-nedd, Aberystwyth, y Fenni, Ystadau Diwydiannol Pant a Merthyr Tudful a Bae Colwyn. Er bod y rhaglen yn cwmpasu naw ardal i ddechrau, rhannwyd AGB Caernarfon a Bangor yn ddwy ardal yn ddiweddarach.

Cynhaliwyd pleidleisiau yn Llanelli, Bae Colwyn, Caernarfon, Bangor a Chastell-nedd eleni ac roeddent yn llwyddiannus. Roedd pleidlais a gynhaliwyd yn y Fenni ym mis Gorffennaf yn aflwyddiannus. Y tu allan i raglen Llywodraeth Cymru, mae AGBau hefyd ar waith yng Nghasnewydd, Abertawe a Merthyr Tudful ac mae diddordeb yn cael ei ddangos ar hyn o bryd mewn datblygu AGB yng Nghaerdydd.

Bwriedir cynnal pedair pleidlais arall ar gyfer AGBau o dan raglen Ardaloedd Gwella Busnes Llywodraeth Cymru, sef: Aberystwyth, Pen-y-bont ar Ogwr, Ystadau Diwydiannol Pant a Merthyr Tudful a Phontypridd. Caiff unrhyw gostau eu hariannu o'r gwariant gweddilliol.

### e) Cronfa Twf Economaidd Cymru

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddyraniad ar gyfer Cronfa Twf Economaidd Cymru yn 2016/17. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael yn:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/economicgrowthfund/?lang=cy

Nodir dyraniadau cyfalaf ychwanegol ar gyfer cronfeydd i gefnogi busnesau yn Nhabl 2.

### f) Ardrethi Busnes

Datganolwyd ardrethi busnes i Gymru ym mis Ebrill 2015. Ers hynny, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau proses bontio ddidrafferth a chynnal cyfundrefn ardrethi cystadleuol yng Nghymru. Ar 9 Rhagfyr 2015 cyhoeddwyd y byddai'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach presennol yn cael ei ymestyn am 12 mis arall. Gellir gweld y manylion drwy ddilyn y ddolen isod:

http://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2015/10782870/?lang=cy

Bydd hyn yn lleihau cyfanswm yr Ardrethi Annomestig sy'n daladwy gan fusnesau bach yng Nghymru tua £98m yn 2016/17.

Wrth asesu gwerth am arian, caiff llwyddiant y cynlluniau ardrethi busnes a arweinir gan yr Adran eu monitro yn erbyn nifer y busnesau a'r math o fusnesau sy'n cael rhyddhad a nifer y safleoedd a adnewyddwyd neu a grëwyd. Gwneir

penderfyniadau ynghylch cynlluniau sydd i'w cyflwyno yng Nghymru yn 2016/17 ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

### ff) Cefnogi Allforio a Chefnogi Mewnfuddsoddi

Yn 2016/17 mae £1.892m wedi'i ddyrannu i gefnogi masnach a mewnfuddsoddi. Mae'r gyllideb graidd hon yn denu arian Ewropeaidd ar gyfer datblygu masnach ryngwladol. Er mai un o'r nodau allweddol ar gyfer mewnfuddsoddi yw cynyddu'r stoc o gwmnïau sy'n eiddo i berchenogion tramor yng Nghymru drwy ennill buddsoddiadau newydd ac, ailfuddsoddiadau, mae cwmnïau a ehangwyd wedi chwarae rôl bwysig, a byddant yn parhau i chwarae rôl bwysig, o ran ein canlyniadau cyffredinol ar gyfer mewnfuddsoddi.

Ar gyfer perfformiad ym maes masnach caiff gwerthusiad o werth am arian ei fesur yn ôl gwerth busnes allforio newydd a sicrhawyd gan y cwmnïau a gefnogwyd gennym. Yn 2014/15, cofnodwyd archebion newydd gwerth £52m mewn busnes newydd. Roedd hyn yn cyfateb i elw o fuddsoddiad o fwy na 25:1 ar gyfer gwariant net ar raglenni. Byddem yn disgwyl mynd y tu hwnt i'r lefel hon o elw o fuddsoddiad yn 2015/16 a 2016/17.

Cyflawnir gweithgarwch mewnfuddsoddi drwy ddigwyddiadau, nawdd, seminarau a thanysgrifiadau ymchwil. Mae hefyd yn cynnwys cymorth ar gyfer ymweliadau â Chymru gan bobl bwysig o dramor, sefydliadau eraill y llywodraeth a mewnfuddsoddwyr. Caiff y canlyniadau eu monitro'n ofalus o ran sicrhau gwerth am arian. Cyfiawnheir pob gwariant yn erbyn achos busnes manwl.

Dengys adroddiad blynyddol UKTI ar gyfer 2014/15 fod Cymru wedi llwyddo i ddenu'r nifer fwyaf erioed o brosiectau mewnfuddsoddi yn ystod y cyfnod hwnnw, gan fynd heibio i 100 o brosiectau am y tro cyntaf. Roedd y cynnydd yn nifer y prosiectau a ddenwyd, gan adeiladu ar lwyddiant blynyddoedd blaenorol, yn cyfateb i ychydig dros 5% o gyfanswm y prosiectau buddsoddi uniongyrchol tramor ar gyfer y DU, ac roedd ganddo'r potensial i greu mwy na 5,000 o swyddi newydd (ychydig dros 6% o gyfanswm y DU).

Mae ein rhaglenni cefnogi allforio eisoes yn cydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg ac, felly, nid yw'r materion hyn wedi dylanwadu ar y broses o ddyrannu'r gyllideb. Mae gweithgarwch mewnfuddsoddi sy'n cael ei gyflawni y tu allan i Gymru wedi'i eithrio o dan Safonau newydd y Gymraeg. Felly, ni fydd y Safonau newydd yn golygu gwariant ychwanegol wrth lunio llenyddiaeth i farchnadoedd allanol.

### g) Cymorth i Fenter Gymdeithasol

Wrth weithredu argymhellion Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru mae Llywodraeth Cymru yn rhoi tua £764,000 y flwyddyn er mwyn helpu i ddatblygu'r sector hwn yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi arian cyfatebol ar gyfer y prosiect Ewropeaidd a chyllid ar gyfer y mentrau cymdeithasol. Ategir hyn gan yr adroddiad, "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru", a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015. Disgwylir adroddiad i adolygu'r camau a gymerwyd i weithredu

argymhellion Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru yn fuan.

Mae contractau tair blynedd wedi'u llunio â Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru (mae'r ddau yn sefydliadau cymorth ac aelodaeth mentrau cymdeithasol arbenigol). Mae trefniadau ar gyfer rheoli a monitro grantiau ar waith. Er mwyn sicrhau bod y sefydliadau yn parhau i gyd-fynd ag amcanion Llywodraeth Cymru, mae swyddogion wedi dechrau adolygiadau gwerth am arian pellach er mwyn helpu i lywio ariannu, amcanion polisi a thargedau yn y dyfodol. Cwblheir yr adolygiadau erbyn diwedd mis Chwefror 2016.

Mae Prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac ERDF yn gweithredu ochr yn ochr â gwasanaeth Busnes Cymru a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y prosiect yn rhoi cymorth busnes arbenigol i tua 500 o fusnesau cymdeithasol gan gynnwys cwmnïau cydweithredol, cwmnïau a berchenogir gan y gweithwyr a mentrau cymdeithasol sy'n awyddus i dyfu. Gallai hyn gynnwys trawsnewid busnes ym mherchenogaeth draddodiadol neu wasanaeth cyhoeddus yn fodel perchenogaeth gweithwyr a all gynnwys trosglwyddo ased cymunedol. At hynny, bydd yn helpu Elusennau i sefydlu canghennau masnachu er mwyn datblygu syniadau masnachol. Mae cymorth ar-lein ar gael hefyd, gan gynnwys astudiaethau achos a digwyddiadau drwy Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru:
http://business.wales.gov.uk/cy a www.socialbusinesswales.gov.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru a WEFO er mwyn cytuno ar broses werthuso hirdymor ar gyfer prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru.

### h) Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020 - Strategaeth Twristiaeth

Lansiwyd Partneriaeth ar gyfer Twf ym mis Mehefin 2013 a nododd y potensial i gynyddu nifer yr ymweliadau a gwariant o farchnad ddomestig Prydain Fawr hyd at 2020. Mae cyfanswm y gwariant yng Nghymru gan ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn uwch na tharged y Bartneriaeth ar gyfer Twf i gynyddu enillion gwirioneddol 10% erbyn 2020.

Nododd y strategaeth hefyd y cyfle i gynyddu nifer yr ymwelwyr tramor â Chymru a gwariant ymwelwyr tramor - drwy fanteisio ar y cynnydd posibl yn nifer yr ymwelwyr (40m erbyn 2020) a nodwyd gan Visit Britain. Dengys y ffigurau blwyddyn gyfan diweddaraf sydd ar gael (ar gyfer 2014) fod cynnydd calonogol wedi bod yn nifer yr ymwelwyr tramor sy'n dod i Gymru dros y ddwy flynedd diwethaf; mae tripiau i Gymru gan ymwelwyr tramor wedi cynyddu 9% ers 2012 ac mae gwariant ar y tripiau hyn wedi cynyddu 6% - sydd unwaith eto ar y trywydd iawn i gyflawni nodau'r strategaeth. Mae hyn yn gwrthdroi'r patrwm lle roedd nifer y tripiau i Gymru gan ymwelwyr tramor yn gostwng cyn 2012.

Cyllideb Twristiaeth a Marchnata yw £12.262m ac mae'n ariannu gweithgarwch hyrwyddo a buddsoddiadau cyfalaf.

Ceir y wybodaeth fanwl ddiweddaraf am weithgareddau a gwaith monitro yn erbyn y strategaeth twristiaeth a'i gynllun gweithredu fframwaith cysylltiedig yn ystod yr ail flwyddyn ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://gov.wales/docs/drah/publications/Tourism/150710-action-plan-2-cy.pdf

Ceir y wybodaeth ddiweddaraf am fanteision economaidd twristiaeth a rhyw syniad o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r strategaeth yn:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/economicbenefittourism/?lang=en

### i) Sectorau â Blaenoriaeth

Pennir amcanion y sectorau â blaenoriaeth gan y panelau sector ac maent wedi'u cyhoeddi yng nghynllun cyflenwi'r sectorau sydd ar gael yn:

http://gov.wales/docs/det/publications/130125deliveryplancy.pdf.

Caiff y dangosyddion allweddol ar gyfer swyddi a thwf eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau bod gwariant yn cael yr effaith fwyaf posibl o ran cyflawni Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn 2014/15 cefnogwyd mwy na 38,000 o swyddi yng Nghymru. Roedd hyn yn welliant parhaus ar y 37,000 a gefnogwyd yn y flwyddyn flaenorol. Defnyddir amrywiaeth eang o ddangosyddion i fesur cynnydd gan y meysydd gweithredol sy'n cynnwys cyfuniad o weithgarwch a chanlyniadau. Maent wedi'u datblygu er mwyn bodloni'r gofynion i ddarparu set graidd o ddangosyddion allweddol i'w defnyddio ym mhob un o'r meysydd gweithredol, er mwyn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau y mae WEFO yn nodi ei bod yn ofynnol cydymffurfio â hwy pan ddefnyddir arian Ewropeaidd a darparu dangosyddion lleol ar gyfer meysydd busnes unigol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ystadegau ar lefel facro-economaidd sy'n cynnwys data ar Werth Ychwanegol Gros (GYG), swyddi cyflogeion, enillion yr awr yn ôl rhyw, cyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster a rhai ystadegau ar lefel awdurdod lefel:

http://gov.wales/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?lang=cy

Mae'r buddsoddiad yn ein naw sector allweddol wedi'i flaenoriaethu ac wedi'i gysoni â phrosesau cyflawni er mwyn galluogi buddsoddiad wedi'i dargedu a mentrau meithrin gallu a fydd, gyda'i gilydd, yn creu amgylchedd busnes cynaliadwy. Ceir y wybodaeth fanwl ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn “Cefnogi Busnesau a'r Economi Datganiad Blynyddol 2015”.

Nodir cyllidebau refeniw a chyfalaf y sectorau â blaenoriaeth yn nhablau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb a atodir yn **Atodiad C**.

### j) Gwyddoniaeth i Gymru a Rhaglen Sêr Cymru

Rhoddodd Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Wyddoniaeth, Ymchwil a Horizon 2020 ar 25 Tachwedd 2015.

Gan gydnabod yr ymrwymiad i waith ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf a phwysigrwydd sicrhau manteision hirdymor mae £7.2m wedi'i ddyrannu i faes Gwyddoniaeth yn 2016/17. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru ac mae ar gael yn:

http://gov.wales/topics/science-and-technology/science/?lang=cy

Mae dull cydweithredol cadarn o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor adnoddau ymchwil newydd. Ariennir rhaglen newydd Sêr Cymru II gan gyllidebau craidd ac arian cyfatebol a roddir gan brifysgolion, Ewrop a chynllun COFUND Marie Sklodowska Curie Horizon 2020 (sy'n dyfarnu grantiau ar sail gystadleuol). Mae hon yn enghraifft o'r math o gydweithredu, integreiddio a meddwl hirdymor sy'n nodweddiadol o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd. Mae'r manylion llawn yn y cyhoeddiad ar 15 Tachwedd sydd ar gael yn:

http://gov.wales/newsroom/science-and-technology/2015/151109-sercymru/?lang=cy

Caiff gwerth am arian yn yr hirdymor ei asesu yn ôl yr arian grant cynyddol a sicrheir gan weithgareddau Sêr Cymru o ran ceisiadau llwyddiannus i'r Cyngor Ymchwil, Innovate UK ac arian Ewropeaidd (Horizon 2020 a'r Cyngor Ymchwil Ewropeaidd).

**l) Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd**

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 6 Awst 2014.

http://gov.wales/docs/det/report/140717-welsh-lang-economic-dev-response-cy.pdf

Cymeradwywyd Safonau'r Gymraeg ar 24 Mawrth 2015 a chânt eu rhoi ar waith o ddiwedd mis Mawrth 2016. Maent yn nodi'r lefel gyson o wasanaethau Cymraeg y gall aelodau o'r cyhoedd disgwyl eu cael gan sefydliadau yng Nghymru. Mae'r costau cysylltiedig wedi'u hymgorffori mewn prosesau darparu gwasanaethau ac mae nifer o fentrau megis Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi yn parhau i adeiladu ar arfer da presennol ar gyfer canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â'r iaith a'r economi.

Mae a wnelo datblygiad pwysig arall â Bwrdd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Mae Prosiect Egin (S4C) wedi derbyn cryn gymeradwyaeth gan y Bwrdd, ynghyd â'r cais am arian Ewropeaidd a gyflwynwyd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Byddwn yn cynyddu gweithgarwch marchnata a chyfathrebu yn y Flwyddyn Newydd drwy lansio gwefan newydd a sefydlu ystafell farchnata digidol. Fel rhan o'r ymarfer hwn rydym yn awyddus i nodi enghreifftiau arfer gorau o'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes ledled y rhanbarth.

Mae Busnes Cymru wedi cynyddu gweithgarwch marchnata a chyfathrebu megis yn y cyhoeddiad Golwg ac mewn Papurau Bro a hysbysebion ar radio

cenedlaethol a arweiniodd at gynnydd o 39% yn nifer yr ymweliadau o gymharu â 2013/14 i busnes.cymru.gov.uk.

Mae'r iaith yn atgyfnerthu hunaniaeth Cymru sy'n bwysig i ddatblygu brand Cymru. Yn ystod Uwchgynhadledd NATO a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2014 hyrwyddwyd thema ganolog, sef “O Gymru / Wales Made”. Roedd Uwchgynhadledd Buddsoddi'r DU yng Nghymru 2014 a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2014 yn gwbl ddwyieithog ac roedd yn cydnabod bod hyn yn bwysig er mwyn rhoi ymdeimlad o le i'r holl westeion.

Byddwn yn parhau i werthuso ein prosesau cyflawni a phwysleisio bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r broses o greu amgylchedd busnes sefydlog a ffafriol, hyrwyddo sgiliau a buddsoddi mewn seilwaith economaidd gan gynnwys trafnidiaeth a chyfathrebu.

### II) Banc Datblygu i Gymru

Mae Cyllid Cymru yn gweithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a gadeirir gan yr Athro Dylan Jones-Evans, drwy sefydlu Banc Datblygu newydd i Gymru. Roedd y Grŵp o'r farn y gallai creu'r banc datblygu rhanbarthol cyhoeddus cyntaf yn y DU ysgogi twf pellach yn economi Cymru. Yn ddiweddar penodwyd Gareth Bullock yn Gadeirydd ar Cyllid Cymru a bydd yn arwain y maes gwaith pwysig hwn.

Mae proses recriwtio yn mynd rhagddi er mwyn penodi Prif Weithredwr newydd ar gyfer Cyllid Cymru. Mae gennym broses gadarn ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso'r sefydliad a byddem yn mabwysiadu prosesau tebyg i fonitro a gwerthuso Banc Datblygu i Gymru. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid Ymchwiliad i Cyllid Cymru yn 2014. Roedd mater bod yn agored a thryloyw yn thema allweddol. O ganlyniad, mae Cyllid Cymru wedi gwneud gwelliannau pwysig i'w wefan, lle mae gwybodaeth am berfformiad ac adroddiadau blynyddol a chyfrifon bellach ar gael yn hawdd. Byddai'r sefyllfa hon yn parhau mewn perthynas â Banc Datblygu i Gymru a châi'r ddarpariaeth ei hymestyn er mwyn sicrhau bod y cylch gwaith hefyd yn cael ei gyhoeddi ar-lein.

## 4.3 Gwariant Ataliol

Anelir y gyllideb gyfan ar gyfer yr Economi a Gwyddoniaeth at atgyfnerthu'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o'n dull o sicrhau bod Cymru'n dod yn gymdeithas fwy llewyrchus, mwy cydnerth, iachach, tecach a mwy cyfartal.

Mae'r dull atal drwy gymryd camau i atal problemau rhag codi neu waethygu wedi parhau i fod wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn hyrwyddo dealltwriaeth fwy cyfannol o'r materion ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth. Mae tystiolaeth mai gwaith â chyflog da yw'r llwybr gorau allan o dlodi a'r amddiffyniad mwyaf rhag tlodi ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd gyda mentrau a buddsoddiad wedi'i dargedu ledled Cymru.

## 5.0 YR ECONOMI A GWYDDONIAETH - ARIANNU MEYSYDD RHAGLENNI GWARIANT

Mae cyfanswm y gyllideb arfaethedig ar gyfer yr Economi a Gwyddoniaeth yn 2016/17 wedi cynyddu £13.206m o gymharu â Chyllideb Sylfaenol 2015/16 (heb gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol).

Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o £18.794m yn y gyllideb refeniw a chynnydd o £32m yn y gyllideb gyfalaf fel y nodir yn y tabl isod:

| | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | 2016/17 Cyllideb Ddrafft £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 87,425 | (18,794) | 68,631 |
| Anariannol | 1,309 | 0 | 1,309 |
| Cyfalaf | 67,647 | 32,000 | 99,647 |
| **Cyfanswm** | **156,381** | **13,206** | **169,587** |

## 5.1 Sectorau a Busnes

| Maes Rhaglenni Gwariant | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Sectorau a Busnes | Refeniw | 49,215 | (12,110) | 37,105 |
| | Cyfalaf | 46,133 | 47,394 | 93,527 |
| | **CYFANSWM** | **95,348** | **35,284** | **130,632** |

Mae cyllidebau Sectorau a Busnes yn allweddol er mwyn cyflawni yn erbyn meysydd twf a swyddi cynaliadwy, trechu tlodi ac addysg a chyfle cyfartal y Rhaglen Lywodraethu. Mae cyfanswm y gyllideb, sef £130.632m, yn ariannu gweithgarwch cyflawni yn y Sectorau â Blaenoriaeth, Entrepreneuriaeth, Masnach a Mewnfuddsoddi ac Ardaloedd Menter.

Mae gostyngiad o £12.110m yn y gyllideb refeniw, gan fod £10.115m ac £1.995m wedi'u trosglwyddo i gamau gweithredu eraill ar gyfer ailalinio cyllidebau yn unol â blaenoriaethau a phrosesau cyflawni.

Mae cynnydd net o £47.394m yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer:

- dyraniadau ychwanegol gwerth £32m i flaenoriaethau (Tabl 2);
- mae £15.394m wedi'i drosglwyddo o gamau gweithredu eraill ar gyfer ailalinio cyllidebau er mwyn cefnogi prosiectau sy'n cael eu cyflawni.

### 5.1.1 Y Gronfa Fuddsoddi Sengl Etifeddol

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa | Refeniw | 1,203 | 357 | 1,560 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fuddsoddi Sengl Etifeddol | Cyfalaf | 10,325 | (5,875) | 4,450 |
| | **CYFANSWM** | **11,528** | **(5,518)** | **6,010** |

Mae'r gyllideb hon yn ariannu'r ymrwymiadau cytundebol sy'n weddill o dan y cynlluniau SIF/RSA etifeddol er mwyn anrhydeddu cynigion grant i gwmnïau yng Nghymru ar yr amod bod amodau a thargedau ar gyfer twf a swyddi wedi'u bodloni.

Mae cynnydd o £0.357m mewn refeniw yn ariannu'r gwaith o gyflawni prosiect hyfforddiant Airbus. Mae'r gostyngiad o £5.875m yn y gyllideb Gyfalaf yn adlewyrchu lefel yr ymrwymiad sy'n gostwng wrth i brosiectau gael eu cwblhau.

### 5.1.2 Sectorau

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Sectorau | Refeniw | 37,692 | (6,378) | 31,314 |
| | Cyfalaf | 35,808 | 53,269 | 89,077 |
| | CYFANSWM | **73,500** | **46,891** | **120,391** |

Mae'r gyllideb yn helpu i gyflawni blaenoriaethau Sectorau, Ardaloedd Menter a Masnach a Mewnfuddsoddi. Ategir hyn gan ddadansoddiad manwl o'r gweithgareddau yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb. Yn gyffredinol, mae cyllidebau'r sectorau wedi cael eu hailflaenoriaethu a'u hailbroffilio yn unol â phrosesau cyflawni gyda gostyngiad net o £6.378m yn y gyllideb refeniw. Mae cyllidebau craidd wedi'u defnyddio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl drwy ddenu incwm Ewropeaidd ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau ac mae incwm wedi'i gynhyrchu drwy'r portffolio eiddo.

Yn 2016/17 mae dyraniadau cyfalaf ychwanegol gwerth £32m fel y nodir yn Nhabl 2 ac mae £21.269m wedi'i ailddyrannu o feysydd cyllidebol eraill:

a. Bydd cyllid trafodion ariannol ychwanegol gwerth £7m yn galluogi buddsoddiad wedi'i dargedu ar gyfer Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf er mwyn cefnogi cysylltiadau rhyngwladol a chefnogi datblygu economaidd hirdymor;
b. Bydd Cronfeydd Datblygu Busnes gwerth £18m yn helpu BBaChau i gael gafael ar gyllid a gellid eu hailfuddsoddi;
c. Bydd cyllid o £7m ar gyfer seilwaith Ardaloedd Menter yn hwyluso twf economaidd hirdymor.
ch. Bydd ailalinio cyllidebau i ddarparu ar gyfer swm o £21.269m sy'n cynnwys £5.875m o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl Etifeddol ac incwm ychwanegol gwerth £15.394m o'r portffolio eiddo yn helpu i gyflawni prosiectau yr ymrwymwyd iddynt, yn enwedig Gwasanaethau Creadigol, Ariannol a Phroffesiynol a Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.

### 5.1.3 Entrepreneuriaeth

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Busnes | Refeniw | 10,320 | (6,089) | 4,231 |
| | **CYFANSWM** | **10,320** | **(6,089)** | **4,321** |

Mae'r gyllideb ar gyfer Entrepreneuriaeth a Chyflawni yn ariannu entrepreneuriaeth ieuenctid, busnesau newydd, microfusnesau, BBaChau, menter gymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol. Bydd arferion busnes cyfrifol yn hwyluso ymrwymiadau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol drwy ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ymddwyn yn foesegol a chyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu economaidd.

Mae'r gostyngiad i'w briodoli i'r cyfraddau ymyrryd uwch ar gyfer rhaglenni'r UE yng nghylch 2014-2020 ac ailbroffilio incwm yr UE. Rhoddir blaenoriaeth i hawlio arian yr UE o ddechrau'r rhaglen newydd. O ganlyniad, bydd y gofyniad cyllidebol yn is yn ystod blynyddoedd cynnar y prosiectau a bydd yn cynyddu wrth i'r rhaglen gael ei chyflawni.

## 5.2 Gwyddoniaeth ac Arloesi

| Maes Rhaglenni Gwariant | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | 2016/17 Cyllideb Ddrafft £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | Refeniw | 9,946 | 568 | 10,514 |
| | Cyfalaf | 2,979 | 2,562 | 5,541 |
| | **CYFANSWM** | **12,925** | **3,130** | **16,055** |

Mae'r cyllid gwerth £16.055m yn cefnogi mentrau i gyflawni Strategaeth Gwyddoniaeth Cymru a'r Strategaeth Arloesi.

### 5.2.1 Gwyddoniaeth

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwyddoniaeth | Refeniw | 5,569 | (774) | 4,795 |
| | Cyfalaf | 2,479 | 0 | 2,479 |
| | **CYFANSWM** | **8,048** | **(774)** | **7,274** |

Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf gwerth £7.274m i gefnogi mentrau Sêr Cymru, Sêr Cymru 2 a'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Mae'r gostyngiad o £0.774m yn y dyraniad refeniw yn 2016/17 yn adlewyrchu'r broses ailbroffilio a'r potensial i gydgyllido rhaglenni newydd gan ddefnyddio arian

allanol. Mae'r arian hwn yn cyfrannu at y cyfanswm o £50m y mae Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo ar gyfer y rhaglen bum mlynedd hon, sydd wedi'i hymestyn i 2018/19. Fe'i hategir hefyd gan gyllidebau Iechyd ac Addysg.

### 5.2.2 Arloesi

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Arloesi | Refeniw | 4,377 | 1,342 | 5,719 |
| | Cyfalaf | 500 | 2,562 | 3,062 |
| | **CYFANSWM** | **4,877** | **3,904** | **8,781** |

Mae'r gyllideb refeniw ychwanegol gwerth £1.342m yn ariannu rhaglenni arloesi newydd yr UE, sef SMART Cymru ac Arbenigedd SMART, sy'n annog busnesau i fuddsoddi mewn arloesi a meithrin cysylltiadau â'r byd academaidd sy'n datblygu syniadau arloesol ar gyfer busnesau. Yn 2016/17 buddsoddwyd £2.562m o gyfalaf ychwanegol yn y Sefydlaid Lled-ddargludyddion.

## 5.3 Digwyddiadau Mawr

| Maes Rhaglenni Gwariant | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau Mawr | Refeniw | 3,918 | 0 | 3,918 |
| | **CYFANSWM** | **3,918** | **0** | **3,918** |

Bydd y gyllideb o £3.918m ar gyfer Digwyddiadau Mawr yn cefnogi gwaith gyda sefydliadau chwaraeon yng Nghymru a'r DU a sefydliadau chwaraeon rhyngwladol er mwyn sicrhau y caiff digwyddiadau mawr eu cynnal yng Nghymru.

Hyd yma, mae cymorth ariannol wedi'i roi ar gyfer 23 o ddigwyddiadau a gynhelir yn 2016 gan gynnwys Hanner Marathon y Byd a Roald Dahl 100, yn 2017, bydd Cymru yn cynnal Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA; a Ras Cefnfor Volvo yn 2018.

## 5.4 Seilwaith

| Maes Rhaglenni Gwariant | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Seilwaith | Refeniw* | 19,671 | (7,545) | 12,126 |
| | Cyfalaf | 18,456 | (17,967) | 489 |
| | **CYFANSWM** | **38,127** | **(25,512)** | **12,615** |

*mae'n cynnwys terfyn grant ariannol o £1,309k ar gyfer adnoddau anghyllidol

Mae'r gyllideb o £12.615m ar gyfer 2016/17 yn cefnogi Seilwaith sy'n Ymwneud ag Eiddo a Seilwaith TGCh gan gynnwys prosiect Cyflymu Cymru.

### 5.4.1 Seilwaith TGCh

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Seilwaith TGCh | Refeniw* | 8,286 | (1,495) | 6,791 |
| | Cyfalaf | 16,304 | 0 | 16,304 |
| | **CYFANSWM** | **24,590** | **(1,495)** | **23,095** |

*nid yw'n cynnwys terfyn grant adrannol o £1,309k ar gyfer adnoddau anghyllidol

Mae'r gyllideb yn ariannu'r gwaith o gyflawni nifer o brosiectau allweddol, gan gynnwys prosiect Cyflymu Cymru, prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a chynllun Allwedd Band Eang Cymru.

Mae'r gostyngiad o £1.495m mewn refeniw yn cynnwys y canlynol:

- £0.495m mewn refeniw a ailflaenoriaethwyd ac a ailbroffiliwyd er mwyn cyflawni gostyngiadau targed;
- Cyllid Buddsoddi i Arbed gwerth £1m ar gyfer prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a ad-dalwyd.

Mae prosiect Cydgasglu Band y Sector Cyhoeddus yn darparu dull o brynu gwasanaethau rhwydweithio ardal eang ar y cyd ac integreiddio gwasanaethau cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'n cefnogi dros 80 o sefydliadau sy'n darparu mwy na 4,000 o wasanaethau safle. Yn 2014 llwyddodd BT i ennill y contract ar gyfer contract newydd prosiect Cydgasglu Band y Sector Cyhoeddus. Disgwylir i'r contract newydd hwn gynnig mwy o werth am arian ac mae'n parhau â'r sylfaen gadarn o gydweithredu a phartneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus.

### 5.4.2 Eiddo

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Seilwaith sy'n Ymwneud ag Eiddo | Refeniw | 10,076 | (6,050) | 4,026 |
| | Cyfalaf | 2,152 | (17,967) | (15,815) |
| | **CYFANSWM** | **12,228** | **(24,017)** | **(11,789)** |

Mae Seilwaith sy'n Ymwneud ag Eiddo yn cynnwys rheoli a datblygu'r portffolio eiddo, gweithgarwch adfer tir a chynigion eiddo i fusnes.  Mae gweithgarwch yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sectoraidd a gofodol.

Mae'r symudiad yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf yn adlewyrchu'r bwriad i gynhyrchu incwm drwy reoli'r portffolio eiddo. Mae'r incwm hwn wedi'i ailddyrannu rhwng y blaenoriaethau sectoraidd ac ailfuddsoddi mewn safleoedd strategol ledled Cymru er mwyn hyrwyddo twf a swyddi.

## 5.5 Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol

| Maes Rhaglenni Gwariant | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol | Refeniw | 5,984 | 293 | 6,277 |
| | Cyfalaf | 79 | 11 | 90 |
| | **CYFANSWM** | **6,063** | **304** | **6,367** |

Mae'r gyllideb yn cynnwys y grant gweithredol ar gyfer Cyllid Cymru, Rhaglen Her Iechyd Cymru, ad-daliadau i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol a gweithgarwch cefnogi strategaethau.

### 5.5.1 Rhaglenni Corfforaethol

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni Corfforaethol | Refeniw | 3,033 | 533 | 3,566 |
| | Cyfalaf | 79 | 11 | 90 |
| | **CYFANSWM** | **3,112** | **544** | **3,656** |

Mae'r cynnydd o £0.533m mewn refeniw yn ymwneud ag adolygiad o'r gofynion ariannu ar gyfer adolygiadau o fuddsoddiadau strategol a buddsoddiad yn y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd.

Mae'r cynnydd o £0.011m yn y gyllideb gyfalaf yn ymwneud â phroffil ad-dalu benthyciadau etifeddol i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

### 5.5.2 Cyllid Cymru

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cymru | Refeniw | 2,400 | (240) | 2,160 |
| | **CYFANSWM** | **2,400** | **(240)** | **2,160** |

Mae'r gyllideb hon yn rhoi grant gweithredu i Cyllid Cymru sy'n helpu i weinyddu cronfeydd buddsoddi ar gyfer busnesau. Mae'r grant gweithredu wedi'i leihau £0.240m er mwyn darparu ar gyfer arbedion effeithlonrwydd gweithredol.

### 5.5.3 Rhaglenni Strategaeth

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni Strategaeth | Refeniw | 551 | 0 | 551 |
| | **CYFANSWM** | **551** | **0** | **551** |

Mae'r gyllideb yn ariannu gweithgarwch dadansoddi economaidd ac ymgysylltu strategol, gan gynnwys cymorth i ddinas-ranbarthau, er mwyn llywio penderfyniadau gwario allweddol.

## 6.0 TRAFNIDIAETH

Yn 2016/17 mae'r blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth wedi'u pennu yng nghyd-destun argaeledd cyllideb a'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2015. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith ac yn canolbwyntio ar gyflawni ar gyfer y pum mlynedd nesaf fel y nodir yn y datganiad sydd ar gael yn:
http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/10383639/?lang=cy

Mae gan drafnidiaeth rôl hanfodol i'w chwarae o ran gwella cystadleurwydd economaidd Cymru a chael gafael ar swyddi a gwasanaethau. Mae'r Cynllun yn nodi sut a phryd y caiff gwelliannau i'r rhwydweithiau ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus eu cyflawni er mwyn helpu busnesau i ffynnu a sicrhau y gall pobl fanteisio ar y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt er mwyn byw bywydau iach, cynaliadwy a bodlon.

Mae dull cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer deall perfformiad y system drafnidiaeth, asesu'r angen i ymyrryd ac ystyried effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ein cynlluniau ar gyfer y system drafnidiaeth. Mae'r cynlluniau yn y Cynllun yn targedu pum maes allweddol â blaenoriaeth, sef: twf economaidd, trechu tlodi, teithio cynaliadwy a diogelwch a gwella mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau gan ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant ehangach. Bydd y buddsoddiadau a nodwyd yn darparu system drafnidiaeth fwy integredig a chynaliadwy i bawb.

Bydd camau gweithredu yn y Cynllun yn gwneud y canlynol:

- gwella argaeledd, ansawdd a diogelwch trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith teithio llesol a mynediad iddynt;
- helpu i leihau unrhyw anfantais i grwpiau gwarchodedig a'r rhai ar incwm isel drwy ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig o safon (gan gynnwys darparu gwybodaeth ddwyieithog sy'n hawdd ei deall)
- sicrhau y parheir i ariannu gwasanaethau bysiau cymdeithasol angenrheidiol.

Mae cyfres o setiau data cenedlaethol yn darparu gwybodaeth gyson a chymaradwy ledled Cymru ac yn nodi meysydd lle mae'r system drafnidiaeth yn tanberfformio. Caiff y setiau data eu diweddaru yn rheolaidd ac fe'u defnyddir i fonitro perfformiad y system, gan roi rhybuddion cynnar o faterion sy'n dod i'r amlwg a gwybodaeth am dueddiadau tymor hwy. Caiff data trafnidiaeth eu cyfuno â ffynonellau data eraill, megis y cyfrifiad a data defnydd tir, er mwyn darparu gwybodaeth am effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol y system drafnidiaeth. Ceir pum categori o ddata trafnidiaeth - amseroedd teithio, nifer y teithiau a wneir, diogelwch, gwybodaeth atodol a gwybodaeth gyd-destunol.

## 6.1 Polisïau Allweddol

Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r ceisiadau penodol a wneir gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

### a) Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol

Ceir naw Cynllun Trafnidiaeth Lleol yng Nghymru. Fe'u cymeradwywyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar 20 Mai 2015. Datblygwyd y cynlluniau gan awdurdodau lleol gan ddefnyddio 'canllawiau'r cynlluniau trafnidiaeth lleol'. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r sail ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynlluniau. Eleni cyhoeddwyd cymorth ariannol gwerth £27m ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol ledled Cymru ac mae'r manylion ar gael yn:
http://gov.wales/topics/transport/planning-strategies/local-transport/?lang=cy

Yn 2016/17 mae arian ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol sy'n cefnogi'r economi, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn galluogi teithio llesol. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau allweddol eraill er mwyn sicrhau y cyflawnir y blaenoriaethau allweddol.

### b) Datblygiadau ar Draffordd yr M4

Mae gwaith datblygu'r M4 o amgylch Casnewydd yn bwysig i ffyniant economaidd Cymru ac mae cefnogaeth gref iddo ymhlith busnesau yng Nghymru. Bu'r prosiect yn destun ymgynghoriad eang a bydd yn gwella hygyrchedd ar gyfer pobl, nwyddau a gwasanaethau Cymreig i farchnadoedd rhyngwladol trwy fynd i'r afael â materion trafnidiaeth ar un o'r prif byrth i Gymru. Yn ystod 2015 mae gwaith wedi dechrau i asesu'r ffordd orau o'i adeiladu, pa dir fyddai ei angen a pha fesurau y byddai angen eu rhoi ar waith er mwyn diogelu'r amgylchedd. Ar hyn o bryd mae pecyn ariannu yn cael ei ddatblygu sy'n cynnwys cyfalaf Llywodraeth Cymru a benthyciad cyhoeddus er mwyn sicrhau y gellir parhau i gynllunio gwaith i fwrw ymlaen â chyflawni'r cynllun.

### c) Y Wybodaeth Diweddaraf am Asiantau Cefnffyrdd

Yn ychwanegol at y newid mawr a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf mae nifer o newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r trefniadau, y bwriedir i bob un ohonynt wella ansawdd y gwasanaeth. Mae cyfres o ymarferion rhesymoli rhwng 2005 a 2012 wedi lleihau nifer yr asiantau cefnffyrdd yn y sector cyhoeddus o wyth i ddau. Cododd archwiliad annibynnol a gynhaliwyd rhwng diwedd 2013 a 2014 bryderon nad yw'r newidiadau hyn wedi mynd yn ddigon pell, gan gyfeirio at dryloywder a gweladwyedd eu costau fel materion a ataliodd yr archwilwyr rhag rhoi sicrwydd bod y trefniadau presennol yn cynnig gwerth am arian.

Mae hyn wedi arwain at gytuno ar gynigion gan yr asiantau a fydd yn cyflawni arbedion o £6m yn 2016/17 mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau statudol. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi pennu targed i'r asiantau gyflawni arbedion

pellach o £8m y flwyddyn drwy fabwysiadu arferion gwaith mwy effeithlon ac arloesol a defnyddio technoleg newydd. Mae'r arbedion hyn yn cyfateb i ostyngiad o 10%, gan gynyddu i 20%, o gymharu â llinellau sylfaen 2015/16. Ystyrir y ffordd orau o ddefnyddio'r arbedion hyn gan gynnwys ailfuddsoddi yn y rhwydwaith er mwyn gwrthbwyso gwariant yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae'r asiantau yn gweithio ar gyflawni'r arbedion hyn gan ganolbwyntio'n fras ar dri maes y Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd, y rhestr o gyfraddau a chostau rheoli. Bydd yr asiantau yn llunio Cynlluniau Cyflawni Arbedion a gaiff eu monitro gan gorff annibynnol o fis Ebrill 2016 er mwyn olrhain cynnydd.

Ochr yn ochr â hyn, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Awst 2015 gyfres o gamau gweithredu a oedd yn canolbwyntio ar wella gwerth am arian wrth reoli a chynnal a chadw'r rhwydwaith traffordd a chefnffyrdd. Gwnaed 18 o argymhellion, a oedd yn amrywio o ran y pwnc a'r amserlen ar gyfer eu gweithredu.
http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10271/cr-ld10271-w.pdf

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran cyflawni erbyn y dyddiadau targed. Yn benodol, cyflwynwyd adroddiad ar ganfyddiadau'r ystyriaeth a roddwyd i fodel un asiant, mae rhaglen i ddarparu system gyllid o fewn system rheoli gwybodaeth IRIS yn cael ei threialu a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch 'Strategaeth Gwaith Stryd ar gyfer Cymru' ar 7 Rhagfyr 2015.

### ch) Darparu ar gyfer Bil Teithio Llesol

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ddeddf gwbl arloesol a fydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio yng Nghymru. Mae'r Ddeddf - y cyntaf o'i bath yn y byd - yn ei gwneud hi'n ofynnol yn gyfreithiol i awdurdodau lleol Cymru fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, a hefyd adeiladu a gwella eu seilwaith ar gyfer cerdded a beicio bob blwyddyn. Mae'n creu dyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau'r priffyrdd, fel eu bod yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ac yn sicrhau gwell darpariaeth ar eu cyfer. Mae hefyd yn golygu ei bod hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel dull trafnidiaeth. Trwy gysylltu safleoedd allweddol fel gweithleoedd, ysbytai, ysgolion ac ardaloedd siopa â llwybrau teithio llesol, bydd y Ddeddf yn annog pobl i ddibynnu llai ar eu ceir wrth wneud teithiau byr.

Ar 9 Rhagfyr 2015 cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Adroddiad Blynyddol 2015 a gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/activetravelact/?lang=cy

Cefnogir Teithio Llesol drwy nifer o linellau yn y cyllidebau cyfalaf a refeniw. Mae buddsoddiadau seilwaith mewn llwybrau teithio llesol lleol yn cael eu gwneud yn bennaf drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ac weithiau y Grant Diogelwch Ffyrdd. Mae nifer a maint penodol cynlluniau teithio llesol a ariennir o'r dyraniad cyllid cyfalaf cyfunol, sef

£24m, yn amrywio bob blwyddyn yn ôl cryfder ac uchelgais cynigion a gyflwynir gan awdurdodau lleol.

Mae adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi agenda Teithio Llesol gyda mentrau megis yr Her Teithio Llesol Genedlaethol, a gynhelir gan yr Adran Iechyd.

### d) Cyfleoedd Cyllido Ychwanegol

Mae fframwaith cyllido Cyfleuster Cysylltu Ewrop yn helpu i gynnal cysylltedd Trafnidiaeth (TEN-T), Ynni a Chyfathrebu. Mae'n broses gwbl gystadleuol. O dan CEF, darperir €26.25 biliwn o gyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020 er mwyn cydgyllido prosiectau TEN-T yn Aelod-wladwriaethau'r UE.
O ran TEN-T/CEF, mae Cymru yn rhan o Brosiect 'Easyways', sydd ar waith ledled y DU, i osod systemau traffig deallus ar gyfer ffyrdd, sydd eisoes wedi cael arian TEN-T o dan y trefniadau blaenorol. At hynny, rhoddwyd grant i brosiect Cymorth Technegol sy'n ymwneud â staff.

Roedd holl geisiadau Llywodraeth Cymru o dan y Cais Cyntaf ar gyfer CEF yn ymwneud â'r môr a phorthladdoedd ac roeddent ar gyfer prosiectau i wella mynediad i borthladdoedd TEN-T, gan gynnwys ffordd yr A55 a Chaergybi. Er i ansawdd ein ceisiadau gael ei ganmol, ni fu'r un ohonynt yn llwyddiannus. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod trefniadau ariannu newydd TEN-T yn blaenoriaethu prosiectau trafnidiaeth nad ydynt yn ymwneud â ffyrdd, oni bai eu bod mewn gwladwriaethau sydd wedi'u derbyn.

Cyflwynodd Network Rail gais o dan y Cais Cyntaf hefyd ar gyfer trydaneiddio Prif Linell De Cymru – un o lwybrau rheilffordd craidd TEN-T– a bu'n llwyddiannus. Mae'r wybodaeth am Gais 2015/16 yn dod i law gyda ffocws ar flaenoriaeth ‘Traffyrdd y Môr’. Gellir ystyried prosiectau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gysylltedd ag Iwerddon gyda gweithgarwch ymgysylltu parhaus â Llywodraeth Iwerddon a chynrychiolwyr o ddiwydiant yn Iwerddon ynghylch cyd-brosiectau posibl.

Mae ceisiadau wedi'u cael eu gwneud er mwyn manteisio ar y cylch newydd o arian yr UE. Mae rhaglenni seilwaith mawr megis Metro hefyd wedi'u rhoi ar restr fer y DU er mwyn manteisio ar Gronfeydd Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Strategol.

Ar gyfer cynlluniau ffordd allweddol megis ffordd yr A465 mae defnyddio model buddsoddi Dosbarthu Di-elw yn gyfle buddsoddi arloesol pwysig arall yr ymchwilir iddo ochr yn ochr â'r gallu i ddefnyddio pwerau benthyca uwch ar gyfer cyflawni cynllun yr M4.

### dd) Buddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau rheilffordd, gan gynnwys Trydaneiddio/Moderneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â'r diwydiant er mwyn nodi'r atebion gorau posibl i gyflawni rhaglen trydaneiddio/moderneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd a'r gwelliannau o ran ansawdd, capasiti, dibynadwyedd ac effeithlonrwydd a ddisgwylir. Bydd trydaneiddio'r brif linell yn gam enfawr ymlaen o ran creu gwasanaeth trên modern a all ateb y galw yn y dyfodol a

chefnogi twf economaidd ledled Cymru. Mae goblygiadau Adroddiad Hendy ar drydaneiddio'r brif linell, a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac sydd wedi ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r amseriadau ar gyfer cyflawni'r prosiect, wrthi'n cael eu hystyried.

Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016/17 yn cynnwys darpariaeth i barhau â gwaith i wella seilwaith rheilffyrdd â bysiau a fydd yn dod â manteision uniongyrchol yn ogystal â pharatoi ar gyfer cyflawni prosiect y Metro.

Nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y materion ar gyfer Masnachfraint Cymru a'r Gororau mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor ar 15 Tachwedd 2015. Mae'n cadarnhau bod achos busnes ac ymgynghoriad yn cael eu datblygu ac y caiff egwyddorion trafnidiaeth integredig eu hystyried. Pe câi'r fasnachfraint ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru efallai y sicrheid gwell gwerth am arian yn yr hirdymor.

http://www.senedd.assembly.wales/documents/S46102

Mae'r gwaith i gyflawni prosiect y Metro yn parhau ac mae bron bob un o brosiectau Cyfnod 1 eisoes wedi'u cyflawni neu ar fin cael eu cwblhau. Mae gwaith yn cael ei wneud ar gam nesaf y prosiect ac mae prif elfen y prosiectau cyfansoddol eisoes wedi'i nodi, ac mae cyfres o arddangosfeydd cyhoeddus yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae'r prosiectau wedi'u costio i lefel uchel ac ar hyn o bryd amcangyfrifir y byddant yn costio tua £580m ar gyfer Cyfnod 2. Bwriedir i'r cam hwn gael ei gyflawni rhwng nawr a 2023. Ymhlith y ffynonellau cyllido posibl ar gyfer y cynlluniau hynny a nodwyd eisoes mae cyfraniad yr Adran Drafnidiaeth i'r gwaith o drydaneiddio a moderneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd a defnyddio arian yr UE o dan raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer 2014-2020. Parheir i ymchwilio i ffynonellau ychwanegol o gyllid er mwyn helpu i gyflawni'r prosiect strategol hwn.

Ym mis Chwefror 2015 cytunodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ffurfio cwmni cyfyngedig dan warant ym mherchenogaeth lwyr Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â phrosiectau seilwaith trafnidiaeth. Mae'r cwmni hwn bellach wedi'i greu a bydd yn gyfrifol am ddatblygu'r rhaglen gyflawni ar gyfer prosiect y Metro.

### e) Buddsoddi mewn Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol

Rhoddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr ymchwiliad i Drafnidiaeth - Bysiau a'r Gymuned ar 3 Rhagfyr 2015.

http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s46823/EBC4-29-15%20p.7%20Tystiolaeth%20gan%20Lywodraeth%20Cymru%20ANGEN%20YCHWNEGUR%20GYMRAEG.pdf

Mae Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yn parhau i fod yn ystyriaeth â blaenoriaeth ar gyfer fy nghyllideb gyda £25m yn cael ei ddyrannu unwaith eto i Awdurdodau Lleol o dan y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol angenrheidiol.

Hefyd, cyflwynwyd gwell gwasanaethau bysiau pellter hwy TrawsCymru, er enghraifft yng ngogledd Cymru ar lwybr T3 rhwng y Bermo a Wrecsam a llwybr T2 rhwng Bangor ac Aberystwyth. Mae'r ddau lwybr hefyd wedi cael budd o docynnau mwy fforddiadwy sydd â'r nod o annog pobl ifanc i ddefnyddio'r gwasanaethau megis Tocyn Bwmerrang sy'n cynnig tocynnau teithio rhatach ar y penwythnos.

Cyflwynwyd cyfleusterau cludo beiciau ar wasanaeth y T3, gan alluogi pobl i gyrraedd rhannau poblogaidd o Rwydwaith Beicio Cenedlaethol Sustrans yng ngogledd Cymru ar y llwybr rhwng Dolgellau ac Afon Mawddach ac ar Gamlas Llangollen. Ar rai llwybrau mae cerbydau newydd wedi'u harchebu i'w defnyddio yn ystod 2016 sy'n cydymffurfio â manyleb lawn TrawsCymru. Parheir i gefnogi'r gwasanaethau hyn yn ystod 2016/17.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gydgysylltu gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn Nyffryn Conwy yn well drwy gyflwyno trefniadau ar gyfer gwerthu tocynnau ar y cyd a gwella gwasanaethau bysiau ar gyfer cymunedau gwledig gan eu galluogi i gyrraedd gorsafoedd rheilffordd a chanolfannau yn y Dyffryn yn haws. Ategir hyn drwy ddarparu gwell gwybodaeth ar gyfer teithwyr. Bydd gwelliannau yn Nyffryn Conwy hefyd yn cynnwys cydgysylltu gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn well a gwell cysylltiadau ym mhennau rheilffyrdd, yn enwedig Blaenau Ffestiniog.

Rydym yn aros am gynigion amlinellol ar gyfer Cynllun Partneriaeth Ansawdd statudol i fysiau ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Mae swyddogion yn ymchwilio i'r posibilrwydd o weithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau er mwyn datblygu'r cynllun a allai gynnwys gwell gwasanaethau bysiau yn cysylltu canolfannau allweddol ar hyd arfordir Gogledd Cymru rhwng Treffynnon i Landudno. Amcanion y Cynllun fyddai cynyddu amlder a gwella oriau gweithredu gwasanaethau, darparu gwell cysylltiadau â chyfleusterau gofal iechyd allweddol ac integreiddio gwasanaethau bysiau yn well â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Mae cyllid i gefnogi'r rhwydwaith bysiau, gan gynnwys gwasanaethau bysiau lleol a gwasanaethau TrawsCymru, yn gynyddol amodol ar gyflawni canlyniadau ansawdd penodol. Mae enghreifftiau yn cynnwys darparu hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ac ymwybyddiaeth o anabledd ar gyfer gyrwyr, gweithdrefn gwyno i gwsmeriaid a gwell gwybodaeth. At hynny, rydym yn annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o Gynlluniau Partneriaeth Ansawdd statudol a gwirfoddol i fysiau lle mae arian cyhoeddus yn dibynnu ar weithredwyr yn darparu cerbydau neu wasanaethau gwell neu newydd.

Mae'r gyllideb ar gyfer tocynnau teithio rhatach wedi'i diogelu a bydd yn parhau i roi cymorth ariannol i alluogi awdurdodau lleol i gyllido'r cynllun ar gyfer pobl hŷn neu anabl. 2016/17 fydd blwyddyn olaf y trefniant tair blynedd presennol.

Yn ystod 2016/17 byddwn yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol a chynrychiolwyr y diwydiant bysiau er mwyn cyflawni'r cynllun yn y dyfodol gan ganolbwyntio ar fforddiadwyedd, gwerth am arian a'r egwyddor na ddylai gweithredwyr fod “er eu hennill nac ar eu colled” o ganlyniad i'r trefniant cyllido.

Mae cynllun FyNgherdynTeithio (a elwir hefyd yn Gynllun Teithio Rhatach i Bobl Ifanc) yn rhoi cymorth grant i weithredwyr bysiau er mwyn adlewyrchu'r costau y maent yn mynd iddynt wrth roi disgownt o 1/3 i bobl ifanc 16, 17 a 18 oed ledled

Cymru. Yn 2016/17 mae cyllid gwerth £9.750m wedi'i ddiogelu er mwyn cyflawni'r cynllun.

### 6.2 Gwariant Ataliol

Wrth gyflawni canlyniadau gwell mae mesurau gwariant ataliol yn bwysig ar gyfer yr hirdymor. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o wariant ar Drafnidiaeth sy'n gysylltiedig â rhaglenni a pholisïau ar gyfer tocynnau bws rhatach, rheoli rhwydweithiau a diogelwch ar y ffyrdd fel gwariant ataliol.

## 7.0 TRAFNIDIAETH - ARIANNU MEYSYDD RHAGLENNI GWARIANT

O gymharu â 2015/16, mae cynnydd o £47.332m yng nghyfanswm cyllideb Trafnidiaeth ar gyfer 2016/17. Mae gostyngiad net o £0.152m mewn refeniw sy'n deillio o ddyraniadau ychwanegol ar gyfer tocynnau teithio rhatach sy'n gwrthbwyso gofyniad refeniw llai ar gyfer rheoli rhwydweithiau. Mae cynnydd o £47.484m mewn cyfalaf yn adlewyrchu dyraniadau o Gronfeydd Canolog wrth Gefn i helpu i gyflawni gweithgarwch rheoli seilwaith a rhwydweithiau arferol a phrosiect Pont Dyfi ar ffordd yr A487. Mae prosiectau ychwanegol wrthi'n cael eu hystyried a chânt eu neilltuo yn unol â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

| | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid 2016/17 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 305,441 | (152) | 305,289 |
| Anariannol | 108,691 | 0 | 108,691 |
| Cyfalaf | 194,349 | 47,484 | 241,833 |
| **Cyfanswm** | **608,481** | **47,332** | **655,813** |

### 7.1 Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd

| Maes Rhaglenni Gwariant | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gweithrediadau Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd | Refeniw | 57,789 | (6,000) | 51,789 |
| | Anariannol | 108,691 | 0 | 108,691 |
| | Cyfalaf | 50,550 | 20,050 | 70,600 |
| | **CYFANSWM** | **217,030** | **14,050** | **231,080** |

Mae Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am y Rhwydwaith Traffordd a Chefnffyrdd, sy'n un o asedau seilwaith pwysicaf Cymru. Mae'n helpu i gyflawni llawer o ymrwymiadau ac uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y rhan fwyaf o feysydd polisi gan gynnwys yr economi, iechyd ac addysg ac mae cost ei adnewyddu wedi'i dibrisio yn fwy na £13bn. Felly, mae cyllid digonol ar gyfer cynnal a chadw'r rhwydwaith yn hanfodol er mwyn cynnal y cyflwr a'r lefelau gwasanaeth sydd eu

hangen er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei dyletswyddau statudol o ran diogelwch a chyflawni ei hamcanion polisi ehangach ar gyfer Cymru.

Mae asesiad o raglen cynnal a chadw'r rhwydwaith wedi nodi gostyngiad o £6m yn y gofyniad refeniw wrth i'r rhaglen ganolbwyntio ar waith cynnal a chadw cyfalaf yn unol â dull gwario i arbed.

Yn 2016/17 mae swm ychwanegol o £20m (Tabl 2) wedi'i ddyrannu ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf a gwella'r rhwydwaith ffyrdd presennol. Mae'r buddsoddiad yn cefnogi strategaeth gwario i arbed a fydd yn cynnig gwell gwerth am arian yn yr hirdymor a lleihau pwysau refeniw yn y dyfodol. Mae swm ychwanegol o £0.050m wedi'i ddyrannu ar gyfer arwyddion Theatr Hafren sydd eu hangen yn y Drenewydd.

## 7.2 Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig) - Anariannol

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwella a Chynnal a Chadw'r Rhwydwaith Cefnffyrdd (Llwybrau Domestig) | Refeniw | 108,691 | 0 | 108,691 |
| | **CYFANSWM** | **108,691** | **0** | **108,691** |

Mae'r gyllideb anariannol yn darparu ar gyfer dibrisiant blynyddol y rhwydwaith cefnffyrdd.

## 7.3 Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | Refeniw | 185,679 | 0 | 185,679 |
| | **CYFANSWM** | **185,679** | **0** | **185,679** |

Mae'r gyllideb yn ariannu Masnachfraint Cymru a'r Gororau a'r Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru. Mae fforddiadwyedd Masnachfraint Cymru a'r Gororau yn destun pryder penodol yn yr hirdymor am ei fod yn gysylltiedig â'r mynegai prisiau manwerthu, enillion wythnosol cyfartalog a pherfformiad Trenau Arriva Cymru.

## 7.4 Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd | Cyfalaf | 55,785 | 27,434 | 83,219 |
| | **CYFANSWM** | **55,785** | **27,434** | **83,219** |

Mae'r gyllideb yn ariannu gwelliannau cyfalaf i ffyrdd a rheilffyrdd. Yn 2016/17 mae £21.424m wedi'i ddyrannu i gyflawni blaenoriaethau o ran seilwaith ffyrdd ac mae £6m wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer Pont Dyfi ar ffordd yr A487.

## 7.5 Gwella a Chynnal a Chadw'r Seilwaith Ffyrdd Lleol

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Ffyrdd | Cyfalaf | 13,667 | 0 | 13,667 |
| | **CYFANSWM** | **13,667** | **0** | **13,667** |

Yr elfen cyfalaf trafnidiaeth o setliad llywodraeth leol yw £13.667m. Ni ellir defnyddio'r arian hwn at unrhyw ddiben arall.

## 7.6 Teithio Cynaliadwy

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Teithio Cynaliadwy | Refeniw | 52,209 | 1,098 | 53,307 |
| | Cyfalaf | 67,447 | 0 | 67,447 |
| | **CYFANSWM** | **119,656** | **1,098** | **120,754** |

Mae'r gyllideb hon yn ariannu buddsoddi mewn trafnidiaeth integredig, teithio llesol, tocynnau teithio rhatach, cardiau clyfar a bysiau, rheilffyrdd a ffyrdd lleol.

Mae Tocynnau Teithio Rhatach wedi'u diogelu gyda chynnydd o 1% uwchlaw newidiadau i derfyn grant adrannol Cymru yn gyffredinol sy'n cyfateb i gynnydd o £1,098m. Hon yw blwyddyn olaf trefniant tair blynedd â'r diwydiant bysiau. Ychwanegir at y swm hwn gan yr awdurdodau lleol. Mae gofynion ariannu'r gweithredwyr bysiau wrth gyflawni'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn cynnwys elfennau refeniw a chyfalaf er mwyn adlewyrchu'r gwariant cyfalaf cysylltiedig y maent yn mynd iddo, er enghraifft caffael cerbydau ychwanegol.

Cynhelir y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Gwasanaethau Bysiau ar £25m gyda gofynion penodol i gyflawni mentrau trafnidiaeth gymunedol.

## 7.7 Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | Refeniw | 5,000 | 4,750 | 9,750 |
| | **CYFANSWM** | **5,000** | **4,750** | **9,750** |

Y cyllid ar gyfer y Cynllun Teithio Rhatach ar Fysiau i Bobl Ifanc, sef £9.750m, yw ail flwyddyn y Cytundeb Cyllidebol â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, a gafodd £5m yn 2015/16. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc, gan eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd gwaith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau a bydd o fudd penodol i bobl o gartrefi incwm isel ac yn helpu i fynd i'r afael â thlodi.

## 7.8 Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

| Cam Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Sylfaenol 2015/16 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | Refeniw | 4,764 | 0 | 4,764 |
| | Cyfalaf | 6,900 | 0 | 6,900 |
| | **CYFANSWM** | **11,664** | **0** | **11,664** |

Mae'r gyllideb refeniw yn ariannu trefniadau ymgysylltu ac ariannu gyda phartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd, gan ddefnyddio strwythurau llywodraethu diogelwch ar y ffyrdd er mwyn rhoi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd ar waith. Mae'r Cynllun yn nodi ein hymagwedd strategol tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020.

Mae'r gyllideb gyfalaf yn ariannu gwelliannau cyfalaf i beirianneg diogelwch ar y ffyrdd ar y rhwydwaith cefnffyrdd a ffyrdd lleol.

## 8.0 DEDDFWRIAETH

### Deddf Teithio Llesol 2013

Fe'i hystyrir yn adran 6.1 (ch).

### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf Cynllunio (Cymru) yn gweithredu llawer o'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol ar y system gynllunio.  Mae swyddogion yr Adran wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Bil Cynllunio wrth iddo fynd drwy ei gyfnodau nesaf.  Ni fydd unrhyw effeithiau cyllidebol uniongyrchol ar yr Adran yn 2016/17.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae a wnelo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Bydd y Ddeddf yn golygu bod polisïau yn cael eu cyflawni mewn ffordd gynaliadwy ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau rhag codi a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig.

Drwy sefydlu un fframwaith cyfreithiol cyfrwymol, mae'r Ddeddf yn fodd i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r gorgymhlethdod a nodwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd yn darparu ffordd o feithrin ein gallu i gyflawni yn y dyfodol. Wrth gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17, rydym wedi manteisio ar y cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan y Ddeddf ac wedi cydbwyso effeithiau hirdymor posibl ein penderfyniadau â'n hanghenion byrdymor.

## Bil Cymru Drafft

Ni ddisgwylir i Fil Cymru ddod i rym tan fis Ebrill 2017 ac ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol i gyllideb 2016/17, ac eithrio adnoddau staff sydd eu hangen er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau hyn.

## Bil Menter

Nid ydym yn disgwyl i ‘Bil Menter - Comisiynydd Busnesau Bach’ effeithio ar ein cyllideb. Mae'n ymwneud â meysydd annatganoledig ac, felly, bydd y gweithgarwch yn gymwys ledled Cymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ceisio cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer darlledu ar y radio a'r teledu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru rolau a diddordebau o ran y Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus ac Ofcom, gan gynnwys rôl gynghori ffurfiol yn yr adolygiad presennol o Siarter Frenhinol y BBC.

## Atodiad A

### Cysoni Cyllideb Atodol 2015/16 â Chyllideb Sylfaenol 2015/16

| | Refeniw 2016-17 £'000 | Cyfalaf 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| **Cyllideb Atodol 2015/16** | **408,366** | **471,296** |
| Llai: Dyraniadau anghylchol | | |
| Ardrethi Busnes | (16,500) | |
| Prosiect Cydgasglu Band y Sector Cyhoeddus - Buddsoddi i Arbed | 1,000 | |
| Cronfeydd Datblygu Busnes | | (42,500) |
| Benthyciad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd | | (3,000) |
| Cyflymu Cymru - Band Eang | | (10,000) |
| Twnelau ar ffordd yr A55 | | (12,000) |
| Twnelau Bryn-glas | | (30,000) |
| Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae | | (30,000) |
| Metro | | (29,800) |
| Deuoli'r A465 | | (40,000) |
| Prosiect Rheilffordd Gogledd Cymru | | (10,000) |
| Gwelliannau i Orsaf Glynebwy | | (2,000) |
| **Cyllideb Sylfaenol 2015/16** | **392,866** | **261,996** |

**Atodiad B**

## Asesiad Effaith Integredig Strategol

### Trosolwg

Mae cynllun gwariant 2016-17 yr Adran wedi'i baratoi gyda phersbectif tymor hir ac agwedd integredig at y penderfyniadau a wneir. Mae'r cynllun yn gwneud y cysylltiadau mewn meysydd gwasanaeth, yn enwedig trafnidiaeth i wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Mae ein cynlluniau hefyd yn rhoi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Rydym yn datblygu ystod o weithgareddau a dargedir yn ofalus i gefnogi mynediad cynhwysol at swyddi a chyfleoedd fel bod unigolion yn gallu elwa ar dwf economaidd. Mae rhai o'n camau gweithredu i drechu tlodi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hamlinellu yn natganiad Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar 23 Mehefin 2015, sydd ar gael yn:

**http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2015/tacklepoverty/?lang=cy**

Datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol, gan wneud penderfyniadau sy'n ystyried yr amcanion a'r effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol. Wrth wneud hynny, rydym yn mabwysiadu dull i gynnwys ymgysylltu, integreiddio, buddsoddiad hirdymor ac atal yn ein polisïau a'n darpariaeth wrth alinio ein gweithgareddau i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i archwilio'r pontio i economi carbon isel, arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon fel ffordd o sicrhau ffyniant a thwf economaidd hirdymor. Nid yw'r dull hwn yn disodli datblygu cynaliadwy; yn hytrach, mae'n ei roi ar waith, gan helpu i gynnwys amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol yn ein ffordd o weithio.

### Penderfyniadau Allweddol y Gyllideb

### Sectorau – cynnydd o £46.891 miliwn

Yn 2014, roedd y sectorau blaenoriaeth yn gyfrifol am 44% o gyflogaeth yng Nghymru.[2] Yn ogystal â chynhyrchu incwm o reoli'r portffolio eiddo a dyrannu £18 miliwn i gronfeydd datblygu busnes, mae blaenoriaethau'n cael eu hadlinio i gynnal lefel y cymorth a lleihau effaith gostyngiadau llinell sylfaen.

Mae cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy yn rhan allweddol o'n dull o drechu tlodi. Mae'r dystiolaeth yn nodi'n glir mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r ffordd orau allan o dlodi, a'r amddiffyniad gorau ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o dlodi. Gyda chymorth wedi'i flaenoriaethu ar gyfer amryw o sectorau allweddol, mae'r Adran hefyd yn gweithio gyda chwmnïau angori i gynyddu cyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf trwy ei chadwyni cyflenwi. Mae'r dull cytbwys hwn yn ysgogi'r galw am weithwyr medrus, yn ogystal â chreu cyfleoedd i'r rhai sydd ymhellach o'r farchnad lafur.

[2] Ystadegau Sector Blaenoriaeth 2015 - www.gov.wales/statistics

Rydym yn cyflwyno ystod gydgysylltiedig o fesurau galw a chyflenwi er mwyn ysgogi gweithgarwch economaidd a swyddi, yn ogystal â chynyddu gallu cynhyrchiol hirdymor economi Cymru trwy fuddsoddiadau strategol mewn seilwaith, band eang cyflym iawn a darparu cymorth ar gyfer arloesi. Mae'r camau gweithredu hyn yn gwella'r gallu i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a rhai o'r amodau sy'n wynebu'r rhai sydd o dan anfantais oherwydd tlodi.

Yr her hefyd yw gwasgaru ffyniant, ac rydym wedi defnyddio dull gofodol mewn perthynas ag amryw o'n hymyriadau. Er enghraifft, mae cysylltedd yn rhan annatod o'n hymagwedd at ranbarthau dinesig. Mae'r dyraniad ychwanegol o £7 miliwn i gefnogi darpariaeth Ardaloedd Menter yn canolbwyntio ar ddatblygu ardaloedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sydd â mwy o gyfleoedd. Er enghraifft, mae cynllun prentisiaeth a rennir yn cael ei ddatblygu ar gyfer Ardal Fenter Glynebwy, gyda'r Adran Addysg a Sgiliau, sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal.

Dynion yn bennaf (83%) sy'n gweithio yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (AM&M), felly bydd unrhyw gynnydd yn cael effaith anghymesur gadarnhaol ar y grŵp hwn. Fodd bynnag, mae'r sector yn darparu amryw o brosiectau allweddol i hyrwyddo cyflogaeth a datblygiad menywod, gan weithio'n agos gyda chwmnïau allweddol megis Airbus a Ford ar ddenu menywod i brentisiaethau. Yn 2014, roedd y sector yn cyflogi 9.9% o bobl anabl, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y sector AM&M yn y DU (9.4%) ond yn is na chyfartaledd cyflogaeth Cymru gyfan (12.4%). Yn ôl ffigurau 2014, roedd canran is o lawer o leiafrifoedd ethnig yn cael eu cyflogi gan y sector (1.9%) (o gymharu â'r cyfartaledd o 3.4%), sy'n gallu arwain at effaith negyddol ar y grwpiau gwarchodedig hynny[3].

Bydd cyllideb ychwanegol o £5.746 miliwn ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig. Mae'r sector yn cyflogi 47,700 o bobl yng Nghymru, gyda chyfran uwch o ddynion (63%) na menywod (37%) ac, o'r rhain, mae 3.4% o bobl yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae cyfran y bobl anabl (12.6%) a gyflogir yn uwch na chyfartaledd y DU ar gyfer y sector (9.3%). Mae bron i 31% o'n bobl a gyflogir gan y sector yng Nghymru dros 50 oed[4]. Mae Diverse Cymru wedi'i benodi i ddarparu prosiect peilot i wella amrywiaeth y diwydiant Ffilm a Theledu yng Nghymru. Bydd yn helpu amcan strategol y sector i gryfhau cadwyn gyflenwi'r diwydiant Ffilm a Theledu yng Nghymru trwy annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno â chronfa ddata Sgrîn Cymru ac ehangu'r gronfa o dalent leol sydd ar gael i'r cynyrchiadau mawr rydym wedi'u denu i Gymru.

Trwy fuddsoddi £8.229 miliwn ychwanegol yn y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol (F&PS), mae yna bosibilrwydd y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl anabl gan fod lefel cyflogaeth y grŵp hwn (11.4%) yn uwch na lefel y DU (9.72%) yn y sector hwn. Yn 2014, roedd F&PS yn cyflogi 116,400 o bobl, gyda 52% yn ddynion a 48% yn fenywod. Mae'r sector yn creu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth sy'n talu'n dda gan fod tua 53.2% mewn swydd reoli neu broffesiynol[5]. I hyrwyddo cyflogaeth ieuenctid, mae'r sector wedi gwneud cyfraniad allweddol at helpu'r Cynllun Gwasanaethau Ariannol i Raddedigion arloesol mewn partneriaeth â'r gymuned fusnes.

[3] Ystadegau Sector Blaenoriaeth 2015 - www.gov.wales/statistics
[4] Ystadegau Sector Blaenoriaeth 2015 - www.gov.wales/statistics
[5] Ystadegau Sector Blaenoriaeth 2015 - www.gov.wales/statistics

Mae'r sector Twristiaeth yn cefnogi tua 123,700 o swyddi, gyda fwy neu lai yr un faint o ddynion (48%) a menywod (52%) yn cael eu cyflogi[6]. Yn aml, dim ond cyfnodau byr o hyfforddiant sefydlu sydd eu hangen ar gyfer y swyddi hyn (Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2010 -2020 – Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau). Mae'r sector hefyd yn cyflogi 34% o unigolion rhwng 16 a 24 oed o gymharu â 13% ar draws pob sector yng Nghymru, ac mae 22% o bobl dros 50 oed yn cael eu cyflogi o gymharu â 32% ar draws pob sector yng Nghymru.

Mae asesiad o effaith y Strategaeth Dwristiaeth, "Partneriaeth ar gyfer Twf", ar gydraddoldeb wedi'i gynnal. Mae'r sector twristiaeth yn cyflogi 5.6% o bobl â nodwedd lleiafrifoedd ethnig, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (3.4%). Mae'r sector twristiaeth hefyd yn cyflogi cyfran uwch o bobl anabl (13.6%) yng Nghymru o gymharu â sector Twristiaeth y DU (10.5%). Mae yna ostyngiad o £1.684 miliwn mewn refeniw yn y gyllideb Twristiaeth a Marchnata. Bydd dyraniad manwl cyllidebau yn ystyried yr effaith mae newidiadau yn debygol o'i chael ar y grwpiau gwarchodedig hyn. I gefnogi datblygiad polisi, os yn bosibl, bydd data cydraddoldeb yn cael ei gasglu ar ymatebwyr i ymgyrchoedd marchnata a'r defnydd cysylltiedig o gymorth Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn helpu'r Adran i ddeall yr hyn sy'n rhwystro grwpiau gwarchodedig rhag ymateb a derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru.

Mae Twristiaeth a Marchnata yn gwneud cyfraniad allweddol at gynnal cymunedau Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae'r Gymraeg yn rhan graidd o'r adnodd ar-lein 'Naws am Le'. Un o egwyddorion cyffredinol Croeso Cymru yw bod twristiaeth yn cael ei rheoli'n gynaliadwy i ddiogelu ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae amddiffyn a gwella rhinweddau arbennig ein tirweddau dynodedig yn allweddol i'r sector twristiaeth yng Nghymru er mwyn cyflawni twf cynaliadwy a chyfrannu at economi sy'n addas i'r dyfodol.

[6] Ystadegau Sector Blaenoriaeth 2015 - www.gov.wales/statistics

**Entrepreneuriaeth – gostyngiad o £6.089 miliwn**

Mae'r rhaglenni newydd a ariennir gan Ewrop wedi'u hailbroffilio ac wedi cynyddu cyfraddau ymyrryd. Felly, nid oes unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar grwpiau gwarchodedig gan nad oes yna effaith ar ddarpariaeth. Mae'r gyllideb yn cynnal gweithgareddau i drechu tlodi, megis mentora a chyngor Busnes Un Stop, fel y gall unigolion gychwyn a datblygu eu busnes. Yn 2014-15, cafodd tua 4,505 o swyddi eu creu a 997 eu diogelu. Mae pob gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac mae yna fwy o alw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2015, bu cynnydd o 39% yn nifer yr ymweliadau â'r wefan Gymraeg busnes.cymru.gov.uk, a bu cynnydd o 11% yn yr amser a dreuliwyd ar y wefan Gymraeg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r gwasanaeth cychwyn busnes yn monitro demograffeg ei ddefnyddwyr ac yn dadansoddi'r wybodaeth i dargedu'r cymorth mewn ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r arlwy cymorth busnes yn cynnwys gweithredu i hyrwyddo arferion busnes cyfrifol, megis busnesau yn cyflwyno trefniadau gweithio hyblyg, sy'n gallu helpu unigolion sydd angen mwy o oriau hyblyg neu ddulliau gweithio, yn enwedig y rhai â chyfrifoldebau gofalu, i gynyddu eu horiau ac ennill mwy o arian. Yn ogystal, mae camau'n cael eu cymryd i ddatblygu'r farchnad gofal plant ac i gefnogi argaeledd llefydd gofal plant i rieni sydd am weithio neu gael mynediad at addysg a chyfleoedd hyfforddi.

Mae cyllid wedi'i ddyrannu i gefnogi mentrau cymdeithasol, gan gydnabod y cyfraniad pwysig y maent yn ei wneud at gryfhau cydlyniant cymdeithasol. Mae'r sefydliadau wedi helpu mentrau a darparwyr gofal plant i helpu teuluoedd ac unig rieni i gyfrannu at y farchnad lafur a chynhyrchu cyfoeth lleol mewn cymunedau sydd ar y cyrion. Mae creu cyfleoedd cyflogaeth lleol yn cefnogi cymunedau lleol ac yn cynnal y boblogaeth o grwpiau sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn darparu amrywiaeth o opsiynau i feithrin pobl ifanc hunangynhaliol. Mae hefyd yn mynd i'r afael â lefelau uchel o ddiweithdra ieuenctid a lefelau uwch o dlodi ac allgáu cymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig. Ledled Cymru, mae yna rwydwaith cryf o 377 o entrepreneuriaid yn cyfrannu fel Modelau Rôl gydag ymgyrch Syniadau Mawr Cymru i ysgogi ac ysbrydoli ein pobl ifanc. Yn 2014, mi wnaethon nhw gyfarfod â thros 55,000 o bobl ifanc. Mae gan y rhwydwaith Modelau Rôl 27% o siaradwyr Cymraeg i'w helpu i ddarparu gweithdai i ysgolion a cholegau.

**Arloesedd a Gwyddoniaeth – cynnydd o £3.130 miliwn**

Mae cyllid ychwanegol o £3.130 miliwn wedi'i ddarparu i raglenni Arloesedd a Gwyddoniaeth a ddarperir dros y cyfnod rhwng 2015/16 a 2021/22 er mwyn sicrhau manteision hirdymor. Mae'r rhaglenni Ewropeaidd SMART Expertise a SMART Cymru yn hwyluso cydweithredu rhwng y byd academaidd a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ac yn helpu mentrau Cymru i fasnacheiddio, tyfu a chreu cyfleoedd gwaith o safon uchel.

Mae cyfalaf ychwanegol yn helpu'r Compound Semiconductor Foundation i greu clwstwr o led-ddargludyddion yn y De. Mae'r dechnoleg alluogi yn amrywio o gynhyrchion iechyd a thechnoleg ddiwifr i gymwysiadau trafnidiaeth. Cafodd yr Athro Diana Huffaker, sy'n arbenigwr yn y maes, ei phenodi'n Gadeirydd mewn Peirianneg

a Deunyddiau Uwch trwy raglen Sêr Cymru. Mae gwella capasiti yn gallu cyfrannu at economi sy'n addas i'r dyfodol trwy wella ffyniant ac iechyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r rhaglenni Sêr Cymru a Sêr Cymru II wedi bod yn destun asesiad o'u heffaith ar gydraddoldeb. Mae cynrychiolaeth y rhywiau yn dal i fod yn broblem fawr yn y gweithlu gwyddonol, gan mai dim ond 17% o'r athrawon STEM yn y DU sy'n fenywod, er gwaethaf mentrau i wella amrywiaeth. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth ac yn ymwneud â'r canfyddiadau o bynciau STEM yn yr ysgol, strwythur gyrfaoedd academaidd, mynychder contractau tymor byr yn y gweithlu AU ac anawsterau o ran cydbwyso gwaith ymchwil sydd, yn aml, yn gofyn am oriau hir ac anghymdeithasol ac yn amharu ar fywyd teuluol[7]. Mae llinyn Ailafael mewn Talent Ymchwil Sêr Cymru II yn cefnogi ymchwilwyr, menywod yn aml, sy'n cymryd seibiant gyrfa ar gyfer gofal plant. I fynd i'r afael â'r materion hyn, mae prifysgolion Cymru yn cymryd rhan mewn cynlluniau megis Athena SWAN, Buddsoddwyr mewn Pobl a Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall i annog amrywiaeth yn y gweithlu ymchwil.

Mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn darparu gweithgareddau a digwyddiadau allgymorth a grantiau cystadleuol i'w dyfarnu yn 2016/17 ac yn cefnogi prosiectau sy'n annog plant difreintiedig a merched i ddewis pynciau STEM, ac sy'n targedu plant 10-14 oed. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer pynciau STEM trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ystadegau canlynol ar y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch:

http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/welsh-higher-education-institutions/?lang=cy

Mae gwerth economaidd buddsoddiad cyhoeddus mewn gwyddoniaeth ac ymchwil yn arwyddocaol. Mae trosoledd arian cyfatebol y sector preifat yn cynyddu'r syniadau newydd a'r wybodaeth a gynhyrchir gan wyddoniaeth a ariennir yn gyhoeddus. Mae'n rhan annatod o ddarpariaeth strategaeth y sector o ran denu mewnfuddsoddiad a thyfu cwmnïau brodorol.

**Cysylltedd**

Mae trafnidiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at wella cystadleurwydd economaidd Cymru o ran darparu mynediad at swyddi, cysylltu pobl â gwasanaethau a chreu cymunedau cydlynol. Mae'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (y Cynllun) yn amlinellu ein blaenoriaethau trafnidiaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf a thu hwnt, a manylion sut a phryd y bydd gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth a rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu darparu i helpu busnesau i ffynnu a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach, cynaliadwy a bodlon.

Mae'r Cynllun wedi bod yn destun asesiad o'i effaith, gyda manylion ar gael yn:

http://llyw.cymru/topics/transport/planning-strategies/ntp/?lang=cy

Mae'r cynlluniau yn y Cynllun yn targedu pum maes blaenoriaeth allweddol: twf economaidd, trechu tlodi, teithio cynaliadwy a diogelwch a gwella mynediad at

[7] Adroddiad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin: "Women in scientific careers" - 2014

gyflogaeth a gwasanaethau. Bu cynrychiolwyr o grwpiau cydraddoldeb ac unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cyfrannu at ddatblygiad y Cynllun a'r ymgynghori ar y Cynllun hwnnw. Un o brif amcanion y Ddeddf yw gwella ein rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus i sicrhau mynediad i bawb a chysylltu cymunedau â swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae penderfyniadau trafnidiaeth wedi'u gwneud gyda'r bwriad o liniaru'r effeithiau negyddol ar grwpiau gwarchodedig â pharhad gwasanaethau a pharhau i fod yn ymatebol i anghenion cymunedau lleol. Mae mentrau i gefnogi a gwella trafnidiaeth bws a chymunedol yn rhan bwysig o'r Cynllun. Er enghraifft, bydd safonau ansawdd newydd cenedlaethol bysiau yn ceisio gwella ansawdd y gwasanaethau bws a darparu gwell cysylltiadau cyflogaeth a mynediad at welliannau i ddefnyddwyr, gan gynnwys grwpiau difreintiedig. Bydd elfennau allweddol o'r Cynllun yn cael eu darparu mewn partneriaeth â sectorau allweddol, yn enwedig Addysg, Iechyd, Tai a Thlodi, i sicrhau dull cydgysylltiedig.

**Cymorth Bysiau a Threnau – Y gyllideb wedi'i hamddiffyn**

Mae argaeledd opsiynau trafnidiaeth fforddiadwy yn rhag-amod hanfodol ar gyfer pobl sy'n dilyn llwybrau allan o dlodi trwy gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg. Mae'n rhan allweddol o gynhwysiant cymdeithasol ehangach. Mae'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau wedi'i gadw ar £25 miliwn am dair blynedd i alluogi awdurdodau lleol i gymorthdalu gwasanaethau trafnidiaeth bws a chymunedol sy'n gymdeithasol angenrheidiol. Mae arolygon teithio yn cadarnhau bod gwasanaethau bws yn arbennig o bwysig i bobl ifanc, pobl hŷn a'r rhai â nodweddion gwarchodedig.

Os nad oes yna weithredwr masnachol, rydym wedi sicrhau bod gwasanaethau strategol megis y rhwydwaith bws TrawsCymru pellter hir yn darparu mynediad i ganolfannau cyflogaeth ac addysg allweddol ledled Cymru. Mae hyn yn cysylltu pobl mewn cymunedau nad oes ganddynt fynediad at gerbydau preifat ac yn llenwi'r bylchau sy'n bodoli yn rhwydwaith y seilwaith rheilffyrdd. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn unigryw yn y DU ac, am y tro cyntaf, mae'n gweithredu i sicrhau ein bod yn rhoi mwy o bwyslais ar wella'r seilwaith cerdded a beicio, sy'n cynnig opsiwn trafnidiaeth di-gost a charbon isel ar gyfer teithiau bob dydd. Er enghraifft, darparodd Cynllun yr A465 4.1 cilometr o lwybrau beicio newydd oddi ar y ffordd, gan gynnwys croesi Dyffryn Carno.

Mae'r cynllun teithio ar fysiau am ddim yn cynnig tocynnau am ddim i deithio ar wasanaethau bws lleol a rhai trenau ledled Cymru ar gyfer pobl hŷn neu anabl a milwyr neu gyn-filwyr ag anafiadau difrifol. Mae'n galluogi tua 750,000 o bobl hŷn ac anabl i deithio heb orfod poeni am y gost. Mae amddiffyn y gyllideb yn cael effaith gadarnhaol, gyda manteision iechyd a gofal cymdeithasol anuniongyrchol o ganlyniad i deithio ar fws sy'n hyrwyddo mwy o weithgarwch corfforol a mwy o ryngweithio cymdeithasol, sy'n gallu gohirio dementia ac afiechydon cysylltiedig eraill.

Mae gwasanaethau rheilffordd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at sicrhau bod gan bobl a busnesau system drafnidiaeth sy'n diwallu eu hanghenion ac yn bodloni ein hamcanion cenedlaethol. Bydd amddiffyn y gyllideb ar gyfer 2016-17 yn diogelu gwasanaethau rheilffordd presennol, gan gynnwys amryw o wasanaethau ychwanegol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ers i'r cyfrifoldeb dros reoli masnachfraint Cymru a'r Gororau gael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2006.

